# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SAFONAU | | STANDARDS COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 14 MAWRTH 2018<br>am 2.00 o'r gloch | | WEDNESDAY, 14 MAWRTH 2018<br>at 2.00 pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs Shirley Cooke<br>01248 752514 | Committee Officer |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Mrs. Denise Harris Edwards
Mr. Islwyn Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Mrs. Dilys Shaw
Mr. Michael Wilson (Cadeirydd/Chair)
Mr. John Robert Jones

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Trefor Lloyd Hughes MBE
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Y Cynghorydd/Councillor Keith Roberts
Y Cynghorydd/Councillor Iorwerth Roberts

# R H A G L E N

**1** **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog ynghylch unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 12)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2017, gan gynnwys materion yn codi.

**3** **CADARNHAU PENODI AELODAU NEWYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU AR 12 RHAGFYR, 2017** (Tudalennau 13 - 20)

Diweddariad gan y Swyddog Monitro.

**4** **CWYNION YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 21 - 24)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro mewn perthynas ag:-

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref/Cymuned.

**5** **PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 25 - 32)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ar benderfyniadau diweddaraf OGCC yng Nghymru.

**6** **PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 33 - 38)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ar benderfyniadau diweddaraf PDC yng Nghymru.

**7** **CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 39 - 46)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar hyfforddiant cynefino a ddarparwyd ar ôl yr etholiad ar gyfer Cynghorwyr Sir a threfniadau ar gyfer hyfforddi Cynghorwyr Tref a Chymuned.

**8** **SIARTER DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 47 - 62)

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**9** **PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL** (Tudalennau 63 - 74)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro.

**10** **ADRODDIAD AR UNRHYW GANIATADAU ARBENNIG A DDERBYNIWYD**

Un ymholiad gan Cyngor Cymuned, ond dim cais wedi'i bendefynu ar adeg anfon y rhaglen hon.

**11** **CANIATÂD ARBENNIG CYFFREDINOL I’R HOLL GYNGHORWYR SIR MEWN PERTHYNAS Â FFIOEDD ADDYSGOL** (Tudalennau 75 - 80)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro.

**12** **FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU** (Tudalennau 81 - 94)

Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

**13** **ADOLYGIAD Y PWYLLGOR SAFONAU O'R COFRESTRAU** (Tudalennau 95 - 106)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro.

**14** **HYFFORDDI, DATBLYGU A GWERTHUSO AELODAU'R PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 107 - 138)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR SAFONAU

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2017**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)<br>Mrs Denise Harris-Edwards<br>Mrs Dilys Shaw |
| | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, MBE<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer Eitemau 6 a 7 yn unig)<br>Rheolwr Datblygu (Adnoddau Dynol) (MW) (ar gyfer eitemau 6 a 7 yn unig)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes a Dafydd Rhys Thomas ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 8 - 'Caniatadau Arbennig / Indemniadau Generig' fel Aelodau'r Cyngor Sir.

**2. COFNODION Y CYFARFOD**

Cadarnhawyd cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 8 Mawrth, 2017 fel rhai cywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion –**

**Eitem 3 - Diweddaru Cofrestrau Ar-lein yr Aelodau**

- Ni chafwyd ymateb ffurfiol gan Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor ond cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd nad oes unrhyw gymorth ariannol ar gael i ddiweddaru ffurflen Cofrestru Diddordebau ar-lein y

system Modern.Gov er mwyn sicrhau bod yr un nodweddion ar gael yn y system yn y ddwy iaith fel y gall aelodau weithio'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y bydd cais am y gofyniad hwn yn cael ei gynnwys yn y fanyleb pan gaiff y contract ei adnewyddu.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn y ffordd ymlaen a awgrymwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a chadarnhawyd nad ydynt yn argymell cyflwyno cais am y £10k yr amcangyfrifir y byddai ei angen i fedru cynnig y nodwedd hon.**

**Cam Gweithredu: Dim byd pellach i'r Pwyllgor Safonau.**

**Eitem 3 - Cwynion Ymddygiad a gyflynwyd i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Mewn ymateb i gais am ddiweddariad bob tri mis ar gwynion yr ymchwiliwyd iddynt gan yr Ombwdsmon, adroddodd y Swyddog Monitro fod matrics cwynion wedi ei gylchredg i'r Aelodau ar 11 Gorffennaf 2017, ynghyd â'r diweddariad blynyddol.

**Cam Gweithredu: Cadarnhaodd y Pwyllgor Safonau eu bod yn hapus gyda'r trefniant a'r fformat newydd a fabwysiadwyd ac y bydd yn disgwyl adroddiadau pellach bob chwarter.**

**Eitem 4 - Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru**

Adroddodd y Swyddog Monitro bod copi o'r adroddiad wedi ei gylchredeg i Aelodau'r Cyngor Sir a Chlercod Cynghorau Tref / Cymuned ar 9 Mawrth, 2017.

**Cam Gweithredu: Wedi'i gwblhau. Dim byd pellach.**

**Eitem 5 - Diweddariad ar Bresenoldeb yr Ombwdsmon yn Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru**

- Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod hyfforddiant ar y Protocol Datrysiad Lleol wedi ei gynnwys ar raglen y Fforwm ar 10 Ebrill 2017, yn dilyn cais gan y Pwyllgor Safonau

- 'Roedd Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych wedi ysgrifennu at Un Llais Cymru ar 9 Mawrth 2017 i ofyn am ddiweddariad ar yr ymgynghoriad ar y Protocol Datrysiad Lleol.

- Roedd Un Llais Cymru wedi ymateb a dweud bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ac mai dim ond yr Ombwdsmon yr ymgynghorwyd ag ef ynghylch y Protocol.

- Cylchredwyd copi o'r ymatebion o gyfarfod diwethaf y Fforwm, lle’r oedd yr Ombwdsmon yn bresennol, at bob Aelod o'r Cyngor Sir ar 28 Mawrth, 2017.

- Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o’r fforwm yn Wrecsam ym mis Tachwedd, 2017. Nid oes dyddiad penodol wedi'i gadarnhau.

**Cam Gweithredu: Dim**

**Eitem 6 - Diweddariad ar Fabwysiadu'r Côd Ymddygiad Statudol Diwygiedig**

Adroddodd y Swyddog Monitro bod y tri Chyngor Cymuned nad oeddent, fe ymddengys, wedi mabwysiadu'r Côd Ymddygiad statudol diwygiedig, bellach wedi ymateb fel a ganlyn:

- Cadarnhaodd Cyngor Cymuned Rhoscolyn ar 18 Ebrill 2017 ei fod wedi mabwysiadu'r Côd, ac anfonodd gopi o'r cofnodion fel y gofynnwyd;
- Mae Cynghorau Cymuned Llangristiolus a Bodorgan wedi cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r Côd, ond nid ydynt wedi anfon copi o'r cofnodion ymlaen.

**Cam Gweithredu: Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Glercod Cynghorau Cymuned Llangristiolus a Bodorgan yn eu eu hatgoffa o'r cais y mae angen iddynt roi sylw iddo.**

**Eitem 8 - Diweddariad ar Gofrestr Diddordebau Cynghorau Tref / Cymuned**

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei bod hi wedi ysgrifennu at yr holl Gynghorau Tref / Cymuned yn dilyn adolygiad o'u cofrestrau, gan ddwyn sylw at yr angen i gyhoeddi'r Cofrestrau ar-lein.

**Cam Gweithredu: Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at yr holl Gynghorau Tref / Cymuned ym mis Mawrth 2018 i ganfod pa Gynghorau sydd bellach yn cydymffurfio.**

**Eitem - 9 Cynghorau Tref / Cymuned - Gwefannau**

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei bod wedi ysgrifennu at Un Llais Cymru ar 9 Mawrth, 2017 yn gofyn a oes cynllun i gynorthwyo Cynghorau Tref / Cymuned i sefydlu eu gwefannau. Nodwyd na dderbyniwyd ymateb ysgrifenedig hyd yn hyn.

**Cam Gweithredu: Bod y Swyddog Monitro yn ceisio cael ateb i’w gohebiaeth.**

**Eitem 11 - Strwythur Rheoli**

Adroddodd y Swyddog Monitro bod y 'Strwythur Rheoli' wedi'i gyhoeddi ar-lein. Nodwyd fod Aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi cael copïau o'r ddogfen, a oedd

hefyd ar gael i staff ac Aelodau o 24 Mawrth 2017. Nodwyd ymhellach y bydd y ddogfen Strwythur Rheoli yn cael ei hadolygu mewn 12 mis.

**Cam Gweithredu: Bod y Swyddog Monitro yn adolygu ym Mawrth 2018.**

**Eitem 12 - Nodyn Briffio i Aelodau Cynghorau Tref / Cymuned ar y Gofynion ar gyfer Datgelu a Chofrestru Diddordebau Personol**

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod yr holl gamau a restrwyd mewn perthynas â'r Nodyn Briffio, a'r Côd Ymddygiad diwygiedig, wedi eu cwblhau ar 22 Mawrth, 2017.

**Cam Gweithredu: Dim**

**3. CWYNION YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorau Tref / Cymuned.

Nodwyd na chyflwynwyd unrhyw gwynion am Gynghorwyr Sir neu Gynghorwyr Tref / Cymuned am y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin, 2017.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Cam Gweithredu: Bod y Swyddog yn ei gylchredeg i holl Aelodau'r Cyngor Sir a holl Glercod Cynhgorau Tref a Chymuned.**

**4. PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a chrynodeb gan y Swyddog Monitro o wybodaeth a gyhoeddwyd yn y Coflyfr Achosion chwarterol o Gwynion Côd Ymddygiad. Nodwyd bod cwynion yr ymchwiliwyd iddynt gan yr Ombwdsmon yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau rhwng Ebrill, 2016 a Ebrill, 2017.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Cam Gweithredu: Bod y Swyddog Monitro yn ei gylchredeg i holl Aelodau'r Cyngor Sir a'r holl Glercod Cyngor Tref a Chymuned.**

**5. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed ac a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers y

cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Safonau ar 8 Mawrth, 2017. ‘Roedd y ddau achos yr adroddwyd arynt yn ymwneud â Chyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Sir Powys.

Dywedodd y Cadeirydd fod Cyngor Dinas Caerdydd wedi derbyn 18 o gwynion lefel isel ar gyfer y Pwyllgor Safonau. Nodwyd bod gan Gyngor Caerdydd Brotocol Datrysiad Lleol ar gyfer datrys materion ac i osgoi ymyrraeth gan yr Ombwdsmon.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol, sydd wedi'i gynllunio i ddelio â materion rhwng aelodau mewn perthynas â chwynion sy’n ymwneud â materion parch ac ystyriaeth ond na chyflwynwyd cwynion o'r fath erioed.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys y crynodebau achos.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn cysylltu â'r Prif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r rheol 5 munud ar gyfer areithiau yn y Cyngor a’r rhyddid a roddir gan y Cadeirydd i aelodau siarad am gyfnod hwy na hynny.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn adolygu / yn diwygio Protocol Datrysiad Lleol y Cyngor, yng ngoleuni model Caerdydd, i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau nesaf.**

**Camau Gweithredu: Fel y nodwyd uchod a bod y Swyddog Monitro yn cylchredeg adroddiadau Panel Dyfarnu Cymru i holl Aelodau'r Cyngor Sir a’r holl Glercod Cyngor Tref a Chymuned.**

## 6. CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar drefniadau hyfforddi a sesiynau cynefino ar gyfer yr aelodau ar ôl yr etholiadau.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu fod Rhaglen Gynefino wedi'i datblygu ers etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai i gwrdd ag anghenion hyfforddiant yr aelodau a galwadau newidiol yr Awdurdod hwn. Sefydlwyd y Cynllun Datblygu gyda mewnbwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Awdurdodau Lleol ledled Cymru, ac mae'n ddogfen sy'n esblygu'n barhaus. Cyflwynwyd y Cynllun Datblygu ar gyfer 2017/18 i’r Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2017 ac fe’i mabwysiadwyd.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu fod cyfnod cychwynnol y Cynllun yn canolbwyntio ar raglen gynefino ar gyfer aelodau newydd yr Awdurdod, a chynigiwyd 20 o sesiynau datblygu ffurfiol i'r aelodau rhwng Mai a diwedd mis Awst, 2017.

Nodwyd y bydd angen hyfforddiant pellach ar rai aelodau ynghylch sut i defnyddio IPads. Mae trefniadau wedi eu gwneud i'r tîm TGCh ddarparu hyfforddiant pellach ar sut i ddefnyddio'r IPad ar ddiwedd y mis hwn.

Nodwyd ymhellach fod yr holl gyflwyniadau yn y sesiynau hyfforddi yn cael eu llwytho i fyny ar MonITor. Anogir yr aelodau i gwblhau taflenni gwerthuso yn dilyn pob sesiwn hyfforddi, ac i roi atborth, fel y gellir cadw cofnod o gynnydd pob aelod. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn gweithio ar y cyd â Chyngor Sir Gwynedd, ac mae'n rhannu gwybodaeth a gasglwyd i asesu a chwrdd yn well ag anghenion hyfforddi.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd ar y Rhaglen Datblygu Aelodau.**

**Camau Gweithredu:**

- **Bod y Swyddog Monitro yn sefydlu a all aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Safonau gael mynediad i'r modiwlau e-ddysgu ac, os felly, o ba bryd.**

- **Bod y Swyddog Monitro yn sefydlu a oes modiwl, ynteu a fydd modiwl, ar y Côd Ymddygiad / Moeseg.**

- **Bod y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi gwybodaeth ar lefelau presenoldeb aelodau unigol yn y Rhaglen Hyfforddi a Chynefino a gynhaliwyd ôl yr etholiad, gan nodi at bwy oedd y sesiynau wedi eu targedu, a bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn adrodd i'r Arweinyddion Grwpiau i ennyn cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant a datblygiad parhaus ac i nodi unrhyw fylchau / pryderon.**

- **Bod y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu, os oes modd, fod un neu ddau aelod o'r Pwyllgor Safonau yn mynychu'r sesiwn gynefino ranbarthol ar gyfer aelodau newydd ym mis Tachwedd 2017.**

- **Bod y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol yn cael dyddiadau ym mis Tachwedd ar gyfer sesiynau hyfforddi i gynghorwyr tref a chymuned. Bod y Pwyllgor Safonau hefyd yn cael gwybod am y dyddiadau gan y byddai o leiaf un ohonynt yn dymuno mynychu pob un o'r sesiynau.**

## 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol 2016/17.

Yn unol ag Adran 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau wedi eu sefydlu i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar yr amserlen i’r 21 o aelodau a ailetholwyd i gyflwyno adroddiadau blynyddol ar gyfer 2016/17 ac ar gyfer eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Medi, 2017.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa o ran cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau ar gyfer 2016/17.**

**Cam Gweithredu: Bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor Safonau unwaith y bydd yr adroddiadau blynyddol wedi eu cyhoeddi.**

## 8. CANIATÂD GENERIG - INDEMNIADAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar y drefn y dylai aelodau ei dilyn wrth wneud cais i'r Pwyllgor Safonau am ganiatâd arbennig.

*Datganodd y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes a Dafydd Rhys Thomas ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â'r eitem hon, a gadawsant y cyfarfod.*

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor Sir, gwaherddir unrhyw aelod etholedig sydd â diddordeb sy’n rhagfarnu rhag cymryd rhan yn y drafodaeth ar y mater hwnnw. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig a phenodol, gall aelodau ofyn am ganiatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i gymryd rhan a chodi’r gwaharddddiad sy’n gysylltiedig â diddordeb sy’n rhagfarnu.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 yn caniatáu i'r Cyngor roi indemniadau ar gyfer costau cyfreithiol i aelodau, yn enwedig mewn perthynas â chostau wrth iddynt amddiffyn eu hunain yn erbyn unrhyw honiad eu bod wedi torri’r Côd. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r rheoliadau mewn polisi.

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo ei bwerau gwneud penderfyniadau i'r Is-Bwyllgor Indemniadau, ac mae'n rhaid i unrhyw aelod sy'n dymuno gwneud cais am indemniad gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Is-Bwyllgor, a fydd wedyn yn cwrdd i ystyried y cais.

Yn dilyn trafodaeth, nododd yr aelodau fod gan y Pwyllgor Safonau ddisgresiwn o ran penderfynu ar gyfraniad terfynol y Cyngor tuag at gostau cyfreithiol mewn rhai amgylchiadau penodol a ddisgrifir yn y rheoliadau.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Rhoi caniatâd generig fel y cyfeirir ato yn Atodiad B yr adroddiad ar y sail a ddisgrifir yn y cais;**

- **Bod y caniatâd arbennig yn parhau i fod mewn grym am weddill tymor y Cyngor.**

**Cam Gweithredu: Dim**

**9. ADOLYGIAD O GOFRESTRAU O DDIDDORDEBAU AELODAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar yr arolygon sampl a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Safonau o Gofrestrau o Diddordebau Aelodau Cynghorau Tref / Cymuned, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Côd Ymddygiad. Cynhaliwyd yr adolygiadau rhwng mis Hydref, 2016 a mis Chwefror, 2017.

Yn dilyn yr adolygiad, dosbarthwyd adroddiad i Gynghorau Tref / Cymuned yn manylu ar y canfyddiadau, yn rhannu arferion da ac yn tynnu sylw at faterion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod adroddiad wedi ei anfon at Glercod Cynghorau Tref / Cymuned ar 7 Ebrill 2017 yn gofyn iddo gael ei gynnwys ar raglen pob Cyngor Tref / Cymuned yn eu cyfarfod nesaf. Gwnaed cais hefyd bod copi o'r cofnodion, sy'n cadarnhau bod yr adroddiad wedi cael ei drafod, yn cael ei anfon ymlaen at y Pwyllgor Safonau erbyn diwedd Gorffennaf, 2017. Anfonwyd llythyr at yr holl Gynhorau a fu'n destun adolygiad a oedd yn rhoi cyngor a deilwriwyd yn benodol iddynt.

Dywedodd y Swyddog Monitro mai dim ond 13 o'r 40 o Gynghorau Tref / Cymuned y cysylltwyd â hwy oedd wedi ymateb hyd yma. Dywedodd nad oes unrhyw ffordd o orfodi Cynghorau Tref / Cymuned i gydymffurfio, gan nad yw'r Ombwdsmon yn fodlon mynd i'r afael â'r mater.

**PENDERFYNWYD**:

- **Nodi cynnwys yr adroddiad yn Atodiad 1.**
- **Nodi cynnwys y tabl yn Atodiad 2.**
  **Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Glercod y Cynghorau Tref / Cymuned nad nad ydynt wedi ymateb, gan eu hannog i gydymffurfio â chais y Pwyllgor Safonau.**

**Cam Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

**10. ADOLYGU'R TAIR COFRESTR O DDIDDORDEBAU SYDD GAN Y CYNGHORWYR SIR**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar adolygiad y Pwyllgor Safonau eleni o'r tair Cofrestr o Ddiddordeb sydd gan y Cyngor ar gyfer ei aelodau.

Y Cofrestrau yw: -

- Y Gofrestr "Sefydlog"
- Datganiadau mewn Cyfarfodydd
- Anrhegion a Lletygarwch

Adroddodd y Swyddog Monitro y bydd aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn cynnal yr adolygiad. Bydd yr aelodau yn dewis cofrestrau chwe aelod etholedig ar hap, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn fis Mawrth nesaf.

Nodwyd bod y Gofrestr Sefydlog a'r Gofrestr Anrhegion a Lletygarwch ar gael i'r aelodau eu cwblhau ar ffurf electronig, tra bod y Gofrestr o Ddatganiadau mewn Cyfarfodydd ar gael i Aelodau ar ffurf bapur yn unig.

**PENDERFYNWYD: -**

1. **Bod aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiad o’r tair cofrestr o ddiddordeb sydd gan yr aelodau, gyda'r niferoedd i'w rhannu'n gyfartal a'r enwau i'w dewis ar hap;**
2. **Bod aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiad o gofrestrau o ddiddordebau aelodau cyfetholedig y Pwyllgorau Sgriwtini a’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;**
3. **Bod yr aelodau newydd sy’n cynrychioli’r Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau, unwaith y penodwyd nhw, yn cynnal adolygiad o ddiddordebau aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau;**
4. **Bod y broses adolygu yn 1 a 2 uchod yn dechrau yng nghanol mis Ionawr, 2018, ac yn dod i ben erbyn diwedd mis Chwefror; a chyn gynted ag y bo modd ar ôl y dyddiad ar gyfer cwblhau, bod aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod yn anffurfiol i drafod canfyddiadau'r adolygiad;**
5. **O leiaf fis cyn dyddiad dechrau'r adolygiad, bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at bob aelod etholedig ac aelodau cyfetholedig o'r Cyngor i'w hysbysu bod yr adolygiad yn digwydd, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiweddariadau wedi'u cwblhau, ac i gadarnhau y gall aelodau'r Pwyllgor Safonau gysylltu â nhw i drafod eu datganiadau o ddiddordeb;**
6. **Yn dilyn trafodaeth anffurfiol gan y Pwyllgor Safonau, cylchredir llythyr at yr holl aelodau sy'n cadarnhau canlyniad yr adolygiad, o fewn amserlen i'w chytuno yn y cyfarfod anffurfiol y cyfeirir ato ym mharagraff 4 uchod. Bydd cyngor cyffredinol o'r fath yn cael ei gyhoeddi ar raglen y cyfarfod nesaf sydd ar gael o’r Pwyllgor Safonau wedi hynny a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn codi unrhyw faterion cyffredinol yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael o’r Grŵp Arweinyddion ar ôl yr adolygiad.**
7. **Bod y Swyddog Monitro yn cysylltu â’r Gwasanaeth TGCh i ofyn am i gyfarwyddiadau ar sut i gwblhau a diwygio cofrestrau ar-lein gael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Safonau.**

**Cam Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

**11. AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU – SEDD WAG ACHLYUSUROL**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod y drefn o recriwtio aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dilyn proses statudol, sy'n golygu sefydlu Panel Dewis.

Mae'r Cyngor Sir wedi penodi tri Chynghorydd Sir, un Cynghorydd Tref / Cymuned, ac un aelod annibynnol o'r cyhoedd i'r Panel. Mae'r Panel yn awr yn bwrw ymlaen i sefydlu Panel gyda chworwm o bedwar, a fydd yn cwrdd ar 20 Medi 2017.

Nodwyd y gwahoddir ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer am gyfweliad ar ddyddiad i'w gytuno. Yn dilyn y broses gyfweld, bydd y Panel yn gwneud penodiad, a fydd yn amodol ar gadarnhad gan y Cyngor llawn ar 12 Rhagfyr 2017.

Mynegodd aelodau'r Pwyllgor Safonau bryder bod y broses benodi'n un faith, a holwyd a fyddai'n bosib symleiddio'r broses i’r dyfodol.Ymatebodd y Swyddog Monitro bod yn rhaid dilyn y broses ac eglurodd yn fanwl yr anawsterau a gafwyd wrth benodi'r aelod o'r Cynghorau Tref / Cymuned ar gyfer y Panel ac yn arbennig yr aelod annibynnol.  Y gobaith yw y bydd yr unigolion hynny'n aros yn eu swyddi er mwyn dewis y Pwyllgor Safonau newydd yn 2019.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Diweddaru'r Pwyllgor ar y statws cyfredol a'r dyddiad y disgwylir cwblhau'r broses.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn codi'r mater gyda Swyddogion Monitro eraill Gogledd Cymru ynghylch a oes opsiwn i rannu aelod annibynnol o'r Panel Dewis.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

**12. AELODAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR Y PWYLLGOR SAFONAU - SWYDDI GWAG AWTOMATIG YN DILYN YR ETHOLIAD**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar y sefyllfa gyfredol mewn perthynas phenodi aelodau newydd.

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai, 2017, daeth cyfnod y ddau gynrychiolydd Cynghorau Tref / Cymuned ar y Pwyllgor Safonau i ben yn awtomatig, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddechrau proses ddewis newydd.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y broses o ddewis cynrychiolwyr Cyngor Tref / Cymuned ar y Pwyllgor Safonau wedi'i diwygio oherwydd diddordeb cyfyngedig y tro diwethaf, ac erbyn hyn mae'n cael ei wneud trwy bleidlais bost. Anfonwyd llythyr at yr holl Gynghorau Tref / Cymuned ar 31 Mai , 2017. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau oedd 31 Gorffennaf, 2017 a chafwyd 7 enwebiad. Dosbarthwyd yr enwebiadau i bob clerc Cyngor Cymuned / Tref ar 4 Awst 2017. Nodwyd y dylid dychwelyd y papurau pleidleisio i'r Cyngor Sir erbyn 29 Medi, 2017. Hyd yn hyn, dim ond 3 papur pleidleisio sydd wedi'u dychwelyd.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r adroddiad.**
- **Ymestyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn papurau pleidleisio am gyfnod o fis tan ddiwedd mis Hydref a bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Glercod Cynghorau Tref / Cymuned i'w hysbysu o'r dyddiad cau newydd.**

**Cam Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

## 13. CANIATÂD(AU) ARBENNIG

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar weithgareddau Panelau Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Swyddog Monitro, os oes gan Gynghorydd Sir / Cynghorydd Tref / Cymuned ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn mater i'w ystyried gan eu Hawdurdod, mae'r Côd Ymddygiad yn dweud bod raid datgan / cofrestru'r diddordeb, a bod raid i'r aelod adael y cyfarfod a pheidio cymryd rhan yn y penderfyniad na dylanwadu arno.

Os rhoddir caniatâd arbennig, bydd yn goresgyn yr elfen o'r diddordeb sy'n rhagfarnu, a gall yr aelod gymryd rhan; er efallai i raddau cyfyngedig.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd ac ar ba sail ac ym mha amgylchiadau y rhoddwyd ef.**
- **Bod aelodau'r Panel (Michael Wilson, Dilys Shaw a Denise Harris-Edwards) yn unig yn cadarnhau'r cofnodion drafft yn Atodiad 2, a'u bod wedi gwneud hynny.**

**Cam Gweithredu: Dim**

## 14 PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar Brotocol Datrysiad Lleol Un Llais Cymru, sef protocol y mae'r Cyngor hwn wedi'i fabwysiadu. Mae'r Protocol wedi'i ddosbarthu i bob Cyngor Tref a Chymuned ar Ynys Môn, ac mae angen i bob Cyngor ei fabwysiadu yn unigol.

Nodwyd fod yr Ombwdson, yn ei adroddiad blynyddol, wedi gwneud sylwadau ar gwynion am Gynghorwyr Sir o dan y Côd Ymddygiad a mynegi barn bod y Protocol wedi lleihau nifer y cwynion a dderbyniwyd. Mae'r Ombwdsmon yn dal i gael nifer sylweddol o gwynion mewn perthynas â Chynghorwyr Tref / Cymuned, ac ‘roedd wedi gofyn i Un Llais Cymru lunio'r Protocol hwn i sicrhau bod Cynghorau Tref / Cymuned yn ceisio datrys eu anghydfodau lefel isel eu hunain.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys y Protocol.**
- **Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ysgrifennu at Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned lleol yn gofyn am gadarnhad a ydynt wedi mabwysiadu a gweithhredu’r Protocol yn ffurfiol ai peidio neu’n bwriadu gwneud hynny.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau (yn ôl disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Safonau), yn cynnig cefnogaeth i Gynghorau Tref a Chymuned weithredu'r Protocol pan fo’r Cadeirydd o'r farn bod hynny’n briodol ac ar ôl derbyn unrhyw gais am gyngor.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn gofyn i Glercod Cynghorau Tref / Cymuned gynnwys cost hyfforddiant, yn enwedig i glercod, yn y praesept wrth gyfrifo eu cyllidebau.**

**Cam Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm

**MR MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mawrth 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Aelodau Newydd ar y Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Y diweddaraf ar benodi Aelodau newydd i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cododd swyddi gweigion yn 2017 ar gyfer dau aelodau cynghorau cymuned ac un aelodau annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

1.2 Dilynwyd gwahanol weithdrefnau i lenwi'r swyddi gweigion hyn.

1.3 Ynghlwm yn **Atodiadau 1 a 2** gweler yr Adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ar 12 Rhagfyr 2017 yn nodi'r broses ar gyfer penodi aelodau newydd.

## 2. Y SEFYLLFA GYFREDOL

2.1 Mae'r penodiadau hyn bellach wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r penderfyniad a'r cofnodion perthnasol o'r cyfarfod hwnnw sy'n cadarnhau hyn ynghlwm yn **Atodiadau 3.**

2.2 Yr aelodau newydd o blith y cynghorau cymuned yw:-

Y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran
a
Y Cynghorydd Keith Roberts o Gyngor Cymuned Trearddur.

2.3 Yr aelod annibynnol newydd yw Mr John Robert Jones.

2.4 Daeth y penodiadau newydd i'r Pwyllgor Safonau i rym ar unwaith yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 12 Rhagfyr 2017. Bydd y cynghorwyr cymuned yn parhau i fod yn aelodau hyd at yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu hyd at adeg pan na fyddant mwyach yn aelodau o gyngor cymuned, p'un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Daw cyfnod yr aelod annibynnol yn y swydd i ben ar 11 Rhagfyr 2025.

**ATODIAD 1**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 12 Rhagfyr 2017 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Penodi dau Gynghorydd Cymuned i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@ynysmon.gov.uk<br>01248 752586 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | Cadarnhau Enwebiadau Cynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned ar y Pwyllgor Safonau |

**CEFNDIR**

1. Dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006), rhaid i'r Cyngor fod â Phwyllgor Safonau ac arno ddim mwy na 9 aelod. Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau hynny fod yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

2. Ar hyn o bryd, mae 5 o aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau (gan gynnwys un swydd wag achlysurol), 2 o gynghorwyr cymuned (mae'r ddwy sedd yn wag) a dau o gynghorwyr sir (a benodir yn flynyddol gan y Cyngor.

3. Rhaid i aelodau'r Cynghorau Cymuned gael eu henwebu gan y cynghorau cymuned ar y cyd a rhaid i'r Cyngor gadarnhau eu penodiad.

**SEDDI GWAG AR GYFER CYNGHORWYR CYMUNED**

4. Mae'r Pwyllgor Safonau'n cynnwys dau o gynghorwyr cymuned sy'n cymryd rhan ym musnes cyffredinol y Pwyllgor ond sy'n delio gyda chyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a cheisiadau am ganiatâd arbennig pan mae wnelo'r materion hynny â chynghorau cymuned yn unig.

5. Rhaid i aelodau'r cynghorau cymuned gael eu henwebu gan yr holl gynghorau cymuned ar y cyd ar ôl pob etholiad llywodraeth leol (neu os bydd y naill neu'r llall yn rhoi'r gorau i fod yn gynghorydd cymuned). Mae modd i aelodau cynghorau cymuned gael eu hailbenodi i'r Pwyllgor Safonau ar yr amod bod y cynghorau cymuned yn eu henwebu eto ar y cyd.

6. Ar 31 Mai 2017, ysgrifennodd y Swyddog Monitro at glercod pob cyngor cymuned yn gofyn am enwebiadau erbyn 31 Gorffennaf 2017. Erbyn y dyddiad cau, roedd saith o enwebiadau wedi dod i law ac ar 4 Awst 2017, anfonwyd pleidlais bost at yr holl gynghorau cymuned yn gofyn i bob un ohonynt ddewis hyd at ddau ymgeisydd ac anfon y papur pleidleisio yn ôl i'r Swyddog Monitro erbyn 31 Hydref 2017 fan bellaf. Erbyn y dyddiad cau, roedd 24 o gynghorau cymuned wedi ymateb a 45 o bleidleisiau wedi dod i law. Ymatebodd un cyngor cymuned heb bleidleisio o gwbl a chafwyd un pleidlais yn unig gan gyngor arall. Cafodd y broses a ddilynwyd ei chymeradwyo gan Gadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017 ac ar 15 Tachwedd 2017, rhoes y Swyddog Monitro wybod i glercod yr holl gynghorau cymuned am ganlyniad y bleidlais gan gadarnhau mai'r ddau ymgeisydd llwyddiannus oedd:-

   - **Y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a**

   - **Y Cynghorydd Keith Roberts o Gyngor Cymuned Trearddur**

7. Yn yr amgylchiadau, mae angen i'r Cyngor Sir yn awr gymeradwyo penodi'r cynghorwyr hyn fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu hyd nes byddant yn rhoi'r gorau i fod yn gynghorwyr cymuned, p'un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

Cadarnhau enwebiadau'r cynghorau cymuned ar y cyd drwy benodi'r cynghorwyr cymuned isod yn aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau a hynny ar unwaith:-

- **Y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a**

- **Y Cynghorydd Keith Roberts o Gyngor Cymuned Trearddur**

tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu hyd nes y byddant yn rhoi'r gorau i fod yn aelodau o gyngor cymuned; p'un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

# ATODIAD 2

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 12 Rhagfyr 2017 |
| **TEITL YR ADRODDIAD :** | Penodi Aelod Annibynnol Cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Dr Haydn Edwards – Cadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@anglesey.gov.uk<br>01248 752586 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cadarnhau penderfyniad Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |

**CEFNDIR**

1. O dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) mae'n rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys dim mwy na 9 aelod, ac mae'n rhaid i'r mwyafrif o'r rhain fod yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

2. Mae'r Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd yn cynnwys 5 aelod annibynnol (yn cynnwys un sedd wag achlysurol), 2 gynghorydd cymuned (mae'r ddwy sedd yn wag) a dau gynghorydd sir (sy'n cael eu penodi'n flynyddol gan y Cyngor).

3. Mae'n rhaid i aelodau annibynnol gael eu penodi gan y Cyngor ar sail yr argymhelliad gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau. Mae un sedd wag achlysurol ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd.

**SEDD WAG ACHLYSUROL AM AELOD ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

4. Mae Rheoliadau Statudol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r Pwyllgor Safonau gael eu penodi gan y Cyngor, ond dim ond ar ôl cydymffurfio â phroses ddethol statudol. Er mwyn cynnal y broses recriwtio a dethol hon mae'r Cyngor Sir wedi dirprwyo ei awdurdod i Banel Dethol y Pwyllgor Safonau; mae'r panel hwn yn cynnwys un aelod annibynnol o'r cyhoedd, un cynghorydd cymuned a thri chynghorydd sir. Ni chaiff unrhyw aelod o'r Panel Dethol fod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau hefyd.

5. Yng nghyfarfod Panel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 20 Medi 2017, cymeradwyodd y Panel y broses recriwtio a chafodd y sedd wag ei hysbysebu ar wefan y Cyngor a'i

dudalennau Twitter a Facebook (o 20/09/17 tan 31/10/2017), yn y North Wales Chronicle (ar 28/9/17 ac ar 5/10/2017) ac yn y Bangor and Anglesey Mail (ar 27/9/2017 ac ar 4/10/2017).

6. Daeth yr hysbyseb i ben ar 31 Hydref 2017 a rhoddodd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau sylw i'r ceisiadau a dderbyniwyd mewn proses tynnu rhestr fer a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2017.

7. Cafodd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer eu cyfweld gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 27 Tachwedd 2017, a chytunodd y Panel i enwebu **Mr John Robert Jones** i'w benodi'n aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol; mae'r rheini bellach wedi'u derbyn ac wedi cael eu hasesu gan Gadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau.

## ARGYMHELLION

Derbyn argymhellion Panel Dethol y Pwyllgor Safonau fel a ganlyn:-

1. penodi **Mr John Robert Jones** yn aelod annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau, i ddod i rym yn syth;

2. petai sedd wag achlysurol arall am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi'n awtomatig **Ms Sarah Laing Gibbens** i'r rôl heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod bob tro bod yr ymgeisydd yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei phenodi.

# ATODIAD 3

## 7. PENODI AELOD ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gadeirydd Panel Dewis y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â phenodi Aelod Annibynnol cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau.

Anerchwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd R Meirion Jones sy'n Aelod o Banel Dewis y Pwyllgor Safonau a dywedodd fod gan y Pwyllgor Safonau sedd wag achlysurol ar hyn o bryd ar gyfer Aelod Annibynnol. Nododd y cynhaliwyd proses recriwtio yn ddiweddar fel y nodwyd yn yr adroddiad. Yng nghyfarfod y Panel Dewis a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2017 cytunodd y Panel i enwebu Mr John Robert Jones i rôl aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol sydd bellach wedi dod i law ac wedi cael eu hasesu gan Gadeirydd Panel Dewis y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Cynghorydd A M Jones y byddai'n ymatal rhag pleidleisio ar y mater hwn gan nad oes aelod o Grŵp yr Wrthblaid ar y Pwyllgor Safonau. Dywedodd y bu cydbwysedd gwleidyddol ar y Pwyllgor Safonau o blith y Grwp sy'n Rheoli a'r Gwrthbleidiau yng nghyfnod gweinyddiaeth flaenorol y Cyngor hwn.

Ymataliodd y Cynghorwyr Aled M Jones, Eric W Jones, Bryan Owen, Peter S Rogers a Shaun Redmond rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Penodi Mr John Robert Jones yn aelod annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau, i ddod i rym yn syth;**
- **Petai sedd wag achlysurol arall am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi'n awtomatig Ms Sarah Laing Gibbens i'r rôl heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod bob tro bod yr ymgeisydd hon yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei phenodi.**

## 8. PENODI DAU GYNGHORYDD CYMUNED I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas ag enwebu Cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

Anerchodd y Cynghorydd Dafydd R Thomas y cyfarfod a nododd bod y Pwyllgor Safonau'n cynnwys dau Gynghorydd Cymuned, sy'n cymryd rhan ym musnes cyffredinol y Pwyllgor ac sydd ond yn delio ag atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau yhoeddus Cymru a cheisiadau am ganiatâd arbennig pan fo'r materion hynny'n ymwneud â Chynghorwyr Cymuned. Mae gofyn i'r Aelodau Cyngor Cymuned gael eu henwebu ar y cyd gan yr holl Gynghorau Cymuned ar ôl pob etholiad llywodraeth leol.

Dywedodd y Cynghorydd A M Jones y byddai'n ymatal rhag pleidleisio ar y mater hwn gan nad oes aelod o Grŵp yr Wrthblaid ar y Pwyllgor Safonau ac am ei fod o'r farn fod y Grŵp wedi cael ei ddifreinio o'r broses.

Gofynnodd y Cynghorydd Nicola Roberts i'r Swyddog Monitro egluro'r broses ddethol i'r Pwyllgor.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod pob Cyngor Tref / Cymuned yn cael cyfle i gyflwyno enwebiadau am ddim mwy nag 1 Aelod o'u cyngor ar y Pwyllgor Safonau. Cafwyd saith enwebiad a rhoddwyd pleidlais drwy'r post i'r holl Gynghorau Tref / Cymuned yn gofyn i bob un ohonynt ddewis dim mwy na dau ymgeisydd. Yn dilyn y broses, a gafodd ei gwirio gan Gadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, rhoddodd y Swyddog Monitro wybod i bob un o'r Cynghorau Tref / Cymuned am ganlyniad y bleidlais a chadarnhaodd pwy oedd y ddau ymgeisydd llwyddiannus.

Ymataliodd y Cynghorwyr Aled M Jones, Eric W Jones, Bryan Owen, Peter S Rogers a Shaun Redmond rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD cadarnhau enwebiadau ar y cyd y Cynghorau Cymuned trwy benodi'r Cynghorwyr Cymuned canlynol fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau i ddod i rym ar unwaith: -**

**Y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a**

**Y Cynghorydd Keith Roberts o Gyngor Cymuned Trearddur**

**hyd at yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, neu hyd nes na fydd y rheini a benodir yn aelodau o'r Cyngor Cymuned mwyach, p’ un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr) – 2017/2018 – Quarter 3 (October - December)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) CC-020645<br>(ii) 201705986 | 20/12/2017 | Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio / The Ombudsman has decided not to investigate |

Tudalen 21

Eitem 4 ar y Rhaglen

This page is intentionally left blank

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref i Rhagfyr) - 2017/2018 – Quarter 3 (October to December)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| **Dim i'w adrodd / Nothing to Report** | | | | |

Tudalen 23

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mawrth 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfrau ar gyfer Gorffennaf 2017 a Tachwedd 2017** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball<br>Swyddog Monitro / Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)<br>lbxcs@ynysmon.gov.uk<br>01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi Coflyfr o Gwynion Cod Ymddygiad unwaith bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfrau ar gyfer Gorffennaf 2017 a Tachwedd 2017. Mae crynodeb o'r achosion wedi'i atodi fel **ATODIAD 1**

## 2. CEFNDIR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf llywodraeth leol 2000, sy'n gosod dyletswydd arno i ystyried cwynion y gallai bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi torri eu cod ymddygiad. Mae awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bod yn fodlon:-

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cod ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:-

(a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau;

(d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran y Panel, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a yw'r cod ymddygiad wedi'i dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb. Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i roi gwaharddiadau i gynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan Bwyllgorau Safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad bod o hyfforddiant/cyfryngu. Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso am hyd at 5 mlynedd.

Tra bo gan y PDC statws cyfreithiol fel tribiwnlys a'i fod wedi cyhoeddi ei benderfyniadau bob amser (yn cynnwys unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r pwyllgorau safonau) nid oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi ei adroddiadau na'i ganfyddiadau, ond, yn ddiweddar, mae wedi cyflwyno'r Coflyfr chwarterol sy'n darparu crynodeb o achosion. Bydd unrhyw beth a gyfeirir at bwyllgor safonau, wrth gwrs, ar gael ar wefan y Cyngor.

## 3. ARGYMHELLIAD

I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1**

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r gŵyn** | **Rhan Berthnasol o'r Cod** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canlyniadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Powys | Cyfeiriodd Cynghorydd ei hun at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y sail ei fod yn ystyried efallai ei fod wedi dod dwyn gwarth ar ei swydd a'r Cyngor. Roedd Cynghorydd X yn rheoli fferm da byw ond cafodd ei erlyn gan y Cyngor am fethu â chadw cofnodion gwartheg cywir ac am fethu â chael gwared ar gyrff anifeiliaid mewn da bryd. Plediodd yn euog i 6 chyhuddiad a derbyniodd euogfarn droseddol. | Dwyn gwarth ar rôl cynghorydd ac ar yr Awdurdod. | • Cyfeiriwyd y mater ar gyfer ystyriaeth Pwyllgor Safonau'r Awdurdod.<br>• Torri'r Cod | • Gwaharddiad am 2 wythnos<br>• Argymhelliad ei fod yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar y Cod Ymddygiad. |
| Cyngor Sir Powys | Cyfeiriodd Cynghorydd ei hun at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y sail ei fod yn ystyried efallai ei fod wedi dod dwyn gwarth ar ei swydd a'r Cyngor. Roedd Cynghorydd X yn rheoli fferm da byw ond cafodd ei erlyn gan y Cyngor am fethu â chadw cofnodion gwartheg cywir. Plediodd yn euog i 8 cyhuddiad a derbyniodd euogfarn droseddol. | Dwyn gwarth ar rôl cynghorydd ac ar yr Awdurdod. | • Cyfeiriwyd y mater ar gyfer ystyriaeth Pwyllgor Safonau'r Awdurdod.<br>• Torri'r Cod | • Gwaharddiad am 4 wythnos<br>• Argymhelliad ei fod yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar y Cod Ymddygiad. |
| Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr | Roedd Cynghorydd wedi mynd at aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â'i dyletswyddau cyflogaeth ac o ganlyniad i'r ffordd y siaradodd roedd wedi dwyn gwarth ar y swydd Cynghorydd a'r Cyngor. | • Methu â dangos parch ac ystyriaeth<br>• Dwyn gwarth | • Dim camau pellach gan i'r Cynghorydd ymddiheuro am ei gweithredoedd ac nad oedd hi'n gweithredu mewn capasiti ffurfiol fel | |

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r gŵyn** | **Rhan Berthnasol o'r Cod** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canlyniadau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cynghorydd nac ar ran y Cyngor. | |
| Cyngor Sir Powys | Methodd Cynghorydd â datgelu diddordeb personol a diddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn nifer o wahanol gyfarfodydd Cyngor lle trafodwyd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a'i fod wedi parhau i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn er bod y Pwyllgor Safonau wedi gwrthod rhoi caniatâd iddo wneud hynny. | Methu â datgelu diddordeb personol a diddordeb a oedd yn rhagfarnu | • Torri'r Cod<br>• Gan fod y rhan y bu'r Cynghorydd ei chwarae yn y cyfarfodydd heb newid y canlyniad yn sylweddol, nid oedd er budd y cyhoedd i fynd â'r mater ymhellach. | |
| Cyngor Tref Saltney | Bod Cynghorydd wedi pleidleisio ar fater yr oedd ganddi ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu ynddo cyn cael caniatâd i wneud hynny gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir | Methu â datgan diddordeb sy'n rhagfarnu | • Roedd y Cynghorydd wedi cyddnabod ei chamgymeriad ac wedi ymddiheuro.<br>• Derbyniodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yr esboniad.<br>• Gan mai effaith gyfyngedig a gafodd gweithredoedd y Cynghorydd, nid oedd budd cyhoeddus mewn mynd â'r mater ymhellach ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. | Er na fyddai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cymryd unrhyw gamau pellach fe gynghorodd y Cynghorydd y byddai'r mater yn cael ei ystyried petai cwyn o'r fath yn dod i law yn y dyfodol. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | Bod Cynghorydd wedi defnyddio iaith ymfflamychol ac amharchus ar dudalen gyhoeddus/cyfryngau cymdeithasol. | Methu â dangos parch. | Gan y cynhaliwyd etholiad yn ystod y broses o ymchwilio i'r gŵyn, ac nad yw'r Cynghorydd wedi'i ail-ethol, penderfynwyd nad oes budd cyhoeddus mewn cymryd unrhyw gamau pellach. | |
| Cyngor Sir Powys | Bu Cynghorydd ddwyn gwarth ar swydd Cynghorydd a'r Cyngor wrth weithredu fel Deilydd Portffolio Addysg gan na chymerodd gamau priodol er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod Ysgol uwchradd yn parhau i gymorthdalu trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion o du allan i'r dalgylch a hynny'n groes i Gynllun y Cyngor ar gyfer Ariannu Ysgolion. | Dwyn gwarth ar Swydd Cynghorydd a'r Cyngor | Dim tystiolaeth o dorri'r Cod | Er y gellid beirniadu'r Cynghorydd am beidio â gwneud mwy roedd rhesymau pam nad oedd wedi gwneud hynny. |
| Cyngor Sir Powys | Bu Cynghorydd ddwyn gwarth ar y swydd Cynghorydd a'r Cyngor wrth weithredu fel Llywodraethwr Ysgol gan na chymerodd gamau priodol er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod Ysgol uwchradd yn parhau i gymorthdalu trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion o du allan i'r dalgylch a hynny'n groes i Gynllun y Cyngor ar gyfer Ariannu Ysgolion. | Dwyn gwarth ar y Swydd Cynghorydd a'r Cyngor | • Roedd y Cynghorydd wedi gweithredu gyda phob ewyllys da a gyda'r wybodaeth a oedd ar gael iddo<br>• Dim achos o dorri'r Cod | |

| **Enw’r Cyngor** | **Crynodeb o’r gŵyn** | **Rhan Berthnasol o’r Cod** | **Crynodeb o’r Penderfyniad** | **Canlyniadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Powys | Bu Cynghorydd ddwyn gwarth ar y swydd Cynghorydd a'r Cyngor wrth weithredu fel Llywodraethwr Ysgol gan na chymerodd gamau priodol er mwyn mynd i’r afael â’r ffaith bod Ysgol uwchradd yn parhau i gymorthdalu trafnidiaeth o‘r cartref i’r ysgol ar gyfer disgyblion o du allan i’r dalgylch a hynny’n groes i Gynllun y Cyngor ar gyfer Ariannu Ysgolion. | Dwyn gwarth ar Swydd Cynghorydd a’r Cyngor | • Roedd y Cynghorydd wedi gweithredu gyda phob ewyllys da a gyda’r wybodaeth a oedd ar gael iddo<br>• Dim achos o dorri’r Cod | |
| Cyngor Sir Powys | Bu Cynghorydd ddwyn gwarth ar Swydd Cynghorydd a'r Cyngor wrth weithredu fel Llywodraethwr Ysgol gan na chymerodd gamau priodol er mwyn mynd i’r afael â’r ffaith bod Ysgol uwchradd yn parhau i gymorthdalu trafnidiaeth o‘r cartref i’r ysgol ar gyfer disgyblion o du allan i’r dalgylch a hynny’n groes i Gynllun y Cyngor ar gyfer Ariannu Ysgolion. | Dwyn gwarth ar y Swydd Cynghorydd a’r Cyngor | • Roedd y Cynghorydd wedi gweithredu gyda phob ewyllys da a gyda’r wybodaeth a oedd ar gael iddo<br>• Dim achos o dorri’r Cod | |
| Cyngor Morgannwg | Roedd Cynghorydd wedi camarwain y cyhoedd er mwyn sicrhau mantais i’w hun mewn ymgyrch etholiadol drwy wneud datganiadau camarweiniol mewn taflen a oedd yn rhan o’i hymgyrch etholiadol. | Uniondeb | Casglodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nad oedd unrhyw fwriad i gamarwain ac unwaith y derbyniwyd cwyn y gallai’r daflen fod yn gamarweiniol fe gafodd ei thynnu’n ôl. | Ni ddaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o hyd i unrhyw achos o dorri rheolau. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Cyngor Llanelli Wledig | Roedd Cynghorydd wedi cyhuddo Cynghorydd arall mewn cyfarfod cyhoeddus o fod yn llygredig. | Methu â dangos parch.<br>Dwyn gwarth ar y Cyngor. | Dim angen cymryd unrhyw gamau gan nad oedd yn glir yn union beth a ddywedwyd a bod y dystiolaeth yn dangos nad oedd yr hyn a gododd yn ddim mwy na thrafodaeth wleidyddol gryf. | |
| Cyngor Tref Tywyn | Bod Cynghorydd wedi methu â datgan diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu yn ystod hawliad meddiant gwrthwynebus ar lecyn o dir a oedd yn berchen i ac yn cael ei reoli gan y Cyngor Tref. | • Camddefnyddio ei sefyllfa i gael mantais ariannol<br>• Methu â datgan diddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu<br>• Dwyn gwarth ar y Swydd Cynghorydd. | Dim tystiolaeth o dorri'r unrhyw agwedd ar y Cod | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mawrth 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers 13 Medi 2017** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Swyddog Monitro / Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddau swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achosion, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod; ac

2. I ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau awdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal a phenderfynu a roddir caniatâd i apêl yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a wnaed ac a gyhoeddwyd gan y PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Medi 2017. Y bwriad yw ei fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan y PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar Wefan y PDC

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

23/10/2017- Cyngor Sir y Fflint – APW/001/2017-018/CT

### 2.2 Apeliadau a benderfynwyd

Dim

## 3. ARGYMHELLIAD

Y dylid nodi cynnwys y crynodeb(au) achosion.

ATODIAD 1

**Crynodeb o'r Achosion Tribiwnlys – Medi 2017- Mawrth 2018**

| **Enw** | **Crynodeb o'r Ffeithiau** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canfyddiadau** |
|---|---|---|---|
| Cynghorydd Alison Halford<br><br>Cyngor Sir y Fflint | Honiad bod y Cynghorydd Halford wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint drwy anfon cyfathrebiad a oedd yn methu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill ac ei bod wedi ymddwyn mewn modd y gellid ei ystyried yn fwlio neu'n aflonyddwch.<br><br>Methodd y Cynghorydd ag ymgysylltu mewn modd cywir ac ystyrlon â'r broses ddyfarnu er i Banel Dyfarnu Cymru ddarparu nifer o gyfleoedd iddi wneud hynny dros gyfnod o 3 mis. | Bu'r Panel ddarganfod bod y rheolau canlynol wedi'u torri:-<br><br>1. O dan baragraff 4(b)<br><br>a) Methu â dangos parch ac ystyriaeth. Daeth y Panel i'r casgliad y byddai'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd wedi cael effaith andwyol ar allu'r Swyddog i gyflawni ei rôl yn iawn.<br><br>b) Bod ymddygiad y Cynghorydd tuag at y Swyddog yn arddangos diffyg cwrteisi ac ystyriaeth llwyr.<br><br>c) Roedd sylwadau'r Cynghorydd yn rhai nad oedd galw amdanynt a gan fod eraill, megis uwch swyddogion, wedi eu copïo i mewn i'r negeseuon e-bost, a oedd wedi eu hysgrifennu er mwyn codi ofn ar neu danseilio'r swyddog yr oedd ei swydd eisoes o dan fygythiad o ganlyniad i ailstrwythuro.<br><br>2. Yn unol â pharagraff 4(c) | **Pwyntiau i'w dysgu ar gyfer Aelodau Etholedig**<br><br>• Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn modd cyfrifol.<br>• Peidio â rhannu cyfathrebiadau yn ehangach na'r angen<br>• Peidio â gwneud sylwadau di-angen ac anghyfiawn yn erbyn swyddogion.<br>• Peidio â chamddefnyddio eu rôl fel Cynghorydd<br><br>**Pwyntiau i'w Dysgu ar gyfer y Pwyllgor Safonau**<br><br>- Mae nifer o gwynion yn codi o ganlyniad i fethiant honedig i ddangos parch ac ystyriaeth / bwlio ac aflonyddu / dwyn anfri.<br>- Ystyriodd y Panel achos Sanders v Kingston Rhif(1) [2005] EWHC 1145 ac Erthygl 10 Deddf Hawliau Dynol mewn perthynas â thorri a chosbau ac a allai'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Halford gael eu hystyried yn fynegiant gwleidyddol ac felly y gellid cael amddiffyniad uwch o dan Erthygl 10. Roedd y panel yn ystyried y sylwadau yn rhai cwbl ddi-angen ac |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | a) Bod sylwadau'r Cynghorydd yn rhai oedd â'r bwriad i fwlio a'u bod wedi cael yr effaith hynny ar y swyddog.<br><br>b) Roedd y sylwadau yn hynod ymosodol, yn faleisus ac yn ddi-angen gyda'r swyddog wedi'i dargedu mewn modd annheg.<br><br>c) Bod ymddygiad y Cynghorydd yn llawer is na'r hyn a ddisgwylir gan Aelod.<br><br>**Cosb**<br>**Gan nad oedd hi bellach yn Gynghorydd –Gwaharddiad o 14 mis o ganlyniad i natur ddifrifol y bwlio ac ei fod yn gyfnod ddigon hir er mwyn i'r cynghorydd allu ystyried ei gweithredoedd.** | ymosodol a oedd yn rhydd o unrhyw drafodaeth wleidyddol.<br>- Ystyriwyd hefyd achos Heesom v Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [2014] EWHC 1504 (gweinyddol) mewn perthynas â pha gosb y gellid ei rhoi.<br>- Er bod yr achos o dan sylw ond yn cynnwys un swyddog a 3 achos dros gyfnod cymharol fyr o amser, ystyriwyd fod yr achos yn debyg o ran difrifoldeb i'r achos Heesom. Roeddent yn ystyried felly bod gwaharddiad am gyfnod o 14 mis yn gosb cwbl briodol. |
| Cyn Gynghorydd Stuart Anderson<br><br>Cyngor Bwrdeistref | • Honiadau niferus yn erbyn tri o weithwyr y Cyngor<br><br>- nid oedd un swyddog yn gallu cyflawni ei rôl oherwydd dementia honedig | Daethpwyd o hyd i'r achoson hyn o dorri amodau:-<br><br>• 4(a) "...cydraddoldeb cyfleoedd i bawb, er eu hanabledd..."<br><br>• 4(b) parch ac ystyriaeth | • Er nad yn gynsail rhwymol, mae'n cynrychioli esblygiad ar Calver v Panel Dyfarnu Cymru v Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [2012] EWHC 1172 (Gweinyddol] o ran ei fod yn awgrymu bod y lefel o amddiffyniad ar gyfer rhyddid i lefaru o dan Erthygl 10 yr |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Sirol Conwy | - roedd ail swyddog yn seicopathi<br>- roedd trydydd swyddog yn anonest ac wedi ffugio tystiolaeth<br><br>• Dylanwad gormodol wedi'i roi ar bedwerydd swyddog er mwyn sicrhau canlyniad ffafriol i ffrind.<br><br>• Wedi defnyddio'r broses sgriwtini er mwyn sicrhau canlyniad ffafriol i ffrind.<br><br>• Wedi gwneud nifer o gyflwyniadau ysgrifenedig ac ar lafar er mwyn cefnogi canlyniad i ffrind.<br><br>• Ym mhob achos (heblaw'r cyfarfod sgriwtini) methodd â datgan y diddordeb personol a'r diddordeb a oedd yn rhagfarnu a oedd yn codi o'r cysylltiad personol agos.<br><br>• Datgelodd dros ar ôl tro ac fe gylchredodd yn fwy eang nag oedd cyfiawnhad dros wneud hynny, ddata sensitif personol | • 4(c) bwlio ac aflonyddu<br><br>• 4(d) cyfaddawdu amhleidioldeb gweithwyr<br><br>• 5(a) datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd<br><br>• 6.1 (a) Dwyn gwarth ar rôl y cynghorydd<br><br>• 7(a) defnyddio capasiti er mwyn sicrhau mantais amhriodol (i'w ffrind)<br><br>• Paragraff 10 o'r Cod – diddordeb personol<br><br>• Paragraff 11 o'r Cod – methu â datgan y diddordeb ar lafar ac yn ysgrifenedig<br><br>• Paragraff 12 o'r Cod – diddordeb sy'n rhagfarnu – cymryd rhan ym mhresenoldeb diddordeb sy'n rhagfarnu<br><br>• 14(1)(c) Gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig ym mhresenoldeb diddordeb sy'n rhagfarnu | ECHR i fod yn gytbwys yn erbyn yr hawliau preifat a diddordebau unigolion. Yn ei hanfod, mae'n casglu bod hawliau'r gwrthrychau data dan Ddeddf Diogelu Data, pan ddaw hi i wybodaeth bersonol sensitif, yn creu bar uchel ar gyfer rhyddid mynegiant gwleidyddol yn cael ei weld fel cyfiawnhad dilys. Mae hefyd yn cadarnhau bod yr egwyddor "croen tew" fel y cyfeirir ato yn berthnasol i Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr ond nid uwch staff eraill . Nid yw'r penderfyniad yn gorgyrraedd Calver ond, ynghyd ag achosion diweddar eraill megis OGCC v y Cyn Gynghorydd Alison Halford APW/001/2017-018/CT ac OGCC v Cynghorydd Neil McEvoy AW/002/2016-017/CT, mae'n adfer peth balans mewn perthynas â'r achosion hynny sy'n cynnwys swyddogion. Nid yw hyn yn berthnasol i aelodau etholedig eraill o reidrwydd. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | mewn perthynas â gweithwyr, yn cynnwys gwybodaeth AD a gwybodaeth feddygol.<br><br>• Methodd â chydweithredu â'r broses ymchwilio / gwrandawiad. | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 14 MAWRTH 2018 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGU AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | RHOI DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y RHAGLEN DATBLYGU AELODAU |

**CEFNDIR**

Bwriad yr adroddiad yma yw i roi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar gynydd y cyfleon datblygu gynigir i Aelodau Etholedig ers yr adroddiad gafodd ei chyflwyno ar y 13eg Medi 2017.

Fel sydd eisioes wedi ei amlygu, mae'r cynllun 2017/18 wedi ei chwblhau drwy gyfuniad o ymarfer dda ac arweiniad dderbyniwyd gan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Cafodd ei adolygu a chymerwyd i ystyriaeth materion lleol gydag mewnbwn gan Uwch Swyddogion ac Arweinyddion Grwpiau er mwyn ymateb i anghenion yr Awdurdod yma.

**CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU**

Fel dogfen anesblygol mae'r cynllun datblygu yma erbyn hyn wedi ei ddiwygio i adlewyrchu'r hyfforddiant sydd wedi ei gynnig ers fy adroddiad diwethaf, gweler Atodiad 1.

Rhwng Medi 2017 ac i fyny i 31 Mawrth 2018 mae 11 sesiwn datblygu ffurfiol wedi/yn cael ei cynnig. O'r rhain mae 5 yn benodol ar gyfer Aelodau o Bwyllgorau Sgriwtini; un yn ymwneud a Pwyllgorau Archwilio; Hyfforddiant Trwyddedu i Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu tra bo'r holl Aelodau Etholedig wedi ei gwahodd i weddill y sesiynau sy'n cael ei cynnig (yn cynnwys sesiwn Anwytho Rhanbarthol gafodd ei gynnal yn CLILC yn Venue Cymru). Gweler y nodyn yn y Cynllun Datblygu o'r gynulleidfa dargedwyd.

Oherwydd tywydd garw, bu i sesiwn yn ymwneud a Rheoli'r Trysorlys ei ohirio ac mae'n cael ei ail-drefnu yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Lle’n addas, gwahoddir Aelodau Lleyg ac Aelodau o’r Pwyllgor Safonau i sesiynau hyfforddiant penodol.

Mae cofnod o bresenoldeb Aelodau Etholedig yn y sesiynau (sy’n cael ei trefnu gan tim AD) yn cael ei cynnal ar sustem yr Awdurdod sef Northgate AD/Cyflogau’r ac mae’r wybodaeth yma’n gyrraeddadwy  ac ar gael ar gyfer ei cynnwys o fewn adroddiadau Blynyddol Aelodau’r Etholedig.  Gweler drosolwg o wybodaeth ynglyn a’r niferoedd sydd wedi mynychu sesiynau ers mis Mai diwethaf yn Atodiad 2.

**Costau**

Mae’r hyfforddiant gynhelir wedi bod yn gyfuniad o gyflwyniadau gan Swyddogion a darparwyr allanol.  Hyd yn hyn mae’r gwariant o dan £9,000 sy’n £4,000 dros y gyllideb osodwyd.

Mae’r gwariant uchod yn amlygu’r angen i sicrhau fod y cynllun datblygu ar gyfer 2018/19 yn cyfarfod ag anghenion datblygu hanfodol ac fod y digwyddiadau hyfforddiant yn cael ei blaenoriaethu er mwyn sicrhau fod cyllideb addas yn cael ei adnabod.

**E-Ddysgu**

Yn ystod y misoedd diwethaf mae cryn dipyn o ymdrech wedi ei wneud i annog Aelodau Etholedig i ymgyfarwyddo ei hunain gydag amrediad o raglenni E-Ddysgu sydd ar gael iddynt.

Er mwyn cefnogi Aelodau Etholedig gydag hyn, mae’r Swyddog E-Ddysgu wedi cyflwyno nifer o sesiynau i Aelodau o’r Pwyllgorau Sgriwtini a Safonau, er mwyn rhoi gwybodaeth, sgiliau ac hyder unigolion allu defnyddio’r rhaglenni.

**Gwerthuso**

Parheir i annog gwerthuso hyfforddiant er mwyn sefydlu os yw’n cyrraedd anghenion Aelodau ac er mwyn adnabod anghenion pellach.

**HYFFORDDIANT CYNGHORAU BRO A THREF**

Yn ogystal â hyfforddiant i Aelodau Etholedig, mae’r tim AD wedi cynorthwyo i gydlynu ystod o sesiynau i Gynghorau Bro a Thref.

Bu i drefniadau ar gyfer  4 sesiwn Hyfforddiant gael ei cynnal ar y Côd Ymddygiad (sy'n angen statudol) yn ystod Tachwedd 2017.  Gwahoddwyd Aelodau o'r Pwyllgor Safonau i'r sesiynau hefyd.  Bu i 69 ymateb i fynychu'r sesiynau.  Cafodd un sesiwn ei ohirio oherwydd tywydd garw ac mae'r sesiwn wedi ei ail drefnu ar gyfer canol mis Mawrth 2018.

Mae'r adborth dderbyniwyd yn graddio'r sesiynau'n uchel (yn sgorio 5 neu'n uwch – 6 yw'r uchaf).  Cafwyd sylwadau fel "gweithredu'n dda", "clir ofnadwy", "dysgu llawer"", wedi ei nodi ar y ffurflenni gwerthuso.

Mae cost y sesiynau yma ychydig o dan £2,200.

Bu i Gymorth Cynllunio Cymru gynnal sesiwn ddi-gost yn ddiweddar.

**ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (ADP) AR GYFER AELODAU**

Mae trefniadau ar gyfer cwblhau'r ADP ar gyfer y flwyddyn yma i'w cwblhau erbyn canol Mawrth.  Mae'r trefniadau wedi ei cyd-lynu gan Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd.

Y bwriad yw fod yr anghenion hyfforddi'n cael eu cynnwys o fewn y cynllun Datblygu i Aelodau ar gyfer 2018/19 a lle'n bosib a/neu fod ffynonellau hyfforddiant yn cael ei ddarganfod er mwyn ymateb i anghenion unigol.

**SYMUD YMLAEN**

Derbynir fod rhai elfennau o'r hyfforddiant sydd wedi ei amlygu o fewn y Cynllun Datblygu presenol heb ei trefnu ond mae'n fwriad i gynnwys rhain yn y cynllun ar gyfer 2018/19 a'i blaenoriaethu fel bo'n briodol.

Mae cynlluniau i gasglu anghenion hyfforddiant er mwyn bwydo i mewn i'r cynllun datblygu ar gyfer 2018/19 ar y gweill yn barod, gyda ceisiadau wedi ei gwneud i'r Uwch Dim Arweinyddiaeth/Penaethiaid Gwasanaeth ac Arweinyddion Grwpiau.  Yn ogystal, bydd gwybodaeth dderbynir drwy'r broses ADP yn cyfrannu tuag at y broses yma.

Tra fod pob ymdrech yn cael ei wneud i weithio ar y cyd i sicrhau fod unrhyw hyfforddiant gomisiynir yn gost effeithiol, mae'n hanfodol fod y data a gesglir o'r anghenion hyfforddiant yn cael eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau fod cyllideb digonol yn cael ei adnabod i gefnogi'r anghenion.

**Miriam Williams**
**Rheolwr Datblygu AD**
**Mawrth 2018**

**Rhaglen cyflwyno CSYM i gynghorwyr (ar sail model CLILC) dros flwyddyn gan ddangos cyfleoedd i gyfuno hyfforddiant gorfodol yn ôl argaeledd adnoddau.**
**Bwriedir, lle bosib, cynnal y sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau.**

****Wedi nodi dyddiadau/amseroedd lle posib****

| Gweithgaredd | Cynulleidfa | Dull | Pryd |
|---|---|---|---|
| Ymgynefino (Swyddfeydd y Cyngor a threfniadau cefnogaeth Aelodau) | Aelodau Etholedig Newydd | JHJ | **08/05/2017** |
| Cyflwyno'r cyngor, ei rôl a threfn ei lywodraethu a Rhaglen Waith Strategol | Pob Aelod Etholedig | Prif Weithredwr | **11/05/2017 & 18/05/2017** |
| Cyflwyno TGCh a'r offer yn cynnwys ymwybyddiaeth o Gyfryngau cymdeithasol ( i gynnwys Gweddarlledu) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddogion TGCh, sesiynau unigol. | **12/05/2017** |
| Cyflwyno'r amryw wasanaethau | Pob Aelod Etholedig | Pob uwch swyddog (2 sesiwn x1 awr) **11/5 a 18/5 rhwng 9.30 – 12.30yp** | **11/05/2017 & 18/5/2017** |
| Côd Ymddwyn a Moeseg | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddog Monitro. **Lynn Ball 2 – 3yp** | **18/5/2017** |
| Materion cyfansoddiadol megis cymryd rhan mewn cyfarfodydd | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddog Monitro **1/6 2 -4yp** | **05/06/2017** |
| Materion ariannol megis pennu cyllidebau a rheoli'r trysorlys | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Cyfarwyddwr Cyllid a dysgu electronig | **25/05/2017** |
| Materion cynllunio i gynghorwyr nad ydynt yn ymwneud â'r maes hwnnw – protocolau | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddogion Cynllunio/Aelod profiadol DFJ – sesiwn ar y cyd gyda Gwynedd **9.30yb – 12.30yp** | **1/6/2017** |
| Trefniadau newydd pwyllgorau cynllunio yn sgîl Deddf Cynllunio | Pwyllgor cynllunio **(M)** | Swyddog Cynllunio DFJ ar y cyd gyda Gwynedd **9.30yb – 12.30yp** | **1/6/2017** |
| Gofynion newydd o ran polisïau, gwasanaethau a'r gyfraith | Pwyllgorau perthnasol | Penaethiaid Gwasanaethau | **Sesiynau briffio yn cychwyn mis Mehefin** |
| Rôl Pwyllgorau Craffu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | J Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd/Anwen G Davies, Swyddog Craffu dros dro | **05/06/2017** |
| Cadeirio Craffu (rheolaeth pwyllgorau a cyfarfodydd) | Cadeirydd pob pwyllgor craffu | David McGrath | **4/12/2017** |
| Archwilio | Pwyllgor Archwilio **(M)** | Swyddogion Cyllid | **25/05/2017** |
| Diogelu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy - Cyfarwyddwr Addysg a Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â dysgu electronig. | **07/07/2017 & 07/12/2017** |
| Rhiantu Corfforaethol | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. | **07/12/2017** |
| Deddf Tai | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Shân Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai & Jim McKirdle, Swyddog Polisi Tai, Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru. | **06/07/2017** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Caroline Turner – Cynorthwydd Prif Weithredol Alwyn Rhys Jones – Penaeth Gwasanaeth Oedolion & Llyr Bryn Roberts – Penaeth Gwasanaeth Dros Dro - Plant | **07/07/2017** |
| Penderfynu er lles cenedlaethau'r dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig. | **Ebrill 2018 ymlaen** |
| Rheoli data a Deddf Mynnu Gwybodaeth | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy a dysgu electronig. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Cyflwyniad i Cydraddoldeb | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy swyddogion cydraddoldeb a **dysgu electronig.** | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Arwain cymuned a thrin a thrafod achosion | Pob Aelod Etholedig | Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd /aelod profiadol uchelradd/e-ddysgu | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Datblygu Pwyllgor Gwaith newydd | Pwyllgor Gwaith | Hwyluswyr allanol | **Medi 2017 ymlaen** |
| Cynghorwyr Newydd, Heriau Newydd | Pob Aelod Etholedig | Pum gweithdy rhanbarthol gan CLILC – yn Llandudno | **03/11/2017** |
| Adolygiadau Cynlluniau Datblygu (CDP) ac Adroddiadau Blynyddol | Pob Aelod Etholedig | Swyddogion CLILC/Uwch Swyddogion | **Tachwedd 2017** |
| Sgiliau Cadeirio (rheolaeth cyfarfodydd) | Pob Cadeirydd | Hwyluswyr allanol/**e-ddysgu** | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Gwaith Consortia Addysg | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Staff Consortia | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Penodiadau, apeliadau a medrau cyfweld | Aelodau paneli penodi **(M)** | Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol | **18/09/2017** |
| Safonau | Pwyllgor safonau **(M)** | Swyddog Monitro | **Cyn y cyfarfod cyntaf** |
| Trwyddedu | Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Trwyddedu | Judith Bramhall | **13/03/2018** |
| Sgiliau Cadeirio & Sesiynau Cymhelliant Unigol | Aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini | David McGrath | **15/03/2018** |
| Cynllunio | Pob Aelod Etholedig | Trevor Roberts Associates | **05/03/2018** |
| Rheoli'r Trysorlys | Pob Aelod Etholedig | Marion Pryor / Claire Klimaszewski | **01/03/2018 – Wedi ei ohirio – i'w ail drefnu Ebrill 2018 ymlaen** |
| Rheoli Risg | Pob Aelod Etholedig | Julie Jones, Rheolwr Risg ac Yswiriant | **23/03/2018** |
| Profiadau Gwrthwynebus Plentyndod | Pob Aelod Etholedig | Andrew Bennett | **28/03/2018** |

**(M) = Mandadol**

**Bydd hyfforddiant pellach ar wybodaeth a sgiliau'n cael ei benderfynu o CDP pan fydd anwytho wedi ei gwblhau**

**Noder bydd rhaglen datblygu Sgriwtini yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r rhaglen hon**

Atodiad 2

| TEITLAU CYRSIAU | NIFER YN MYNYCHU |
|---|---|
| ****DIOGELU ELFENNOL** | |
| 01/06/2017 | 18 |
| ****SESIWN BRIFFIO CYNLLUN CORFFORAETHOL A COD YMDDYGIAD** | |
| 18/05/2017 | 25 |
| ****CYMRAEG CLIR** | |
| 29/11/2017 | 1 |
| **CWESTIYNNU EFFEITHIOL YN SGRIWTINI – PWYLLGOR GWAITH** | |
| 04/12/2017 | |
| **CWESTIYNNU EFFEITHIOL YN SGRIWTINI – PWYLLGOR GWAITH** | 6 |
| 04/12/2017 | 14 |
| ****CYLLIDEB YN CYNNWYS CYLLIDO** | |
| 25/05/2017 | 16 |
| ****ANRHEGION/LLETYGARWCH A DATGANIAD DIDDORDEB** | |
| 02/06/2017 | 7 |
| ****DEDDF TAI** | |
| 06/07/2017 | 15 |
| **SUT I FOD YN AELOD MWY EFFEITHIOL O'R PWYLLGOR ARCHWILIO** | |
| 15/09/2017 | 6 |
| ****CYFLWYNIAD I E-DDYSGU** | |
| 10/01/2018 | 2 |
| 12/01/2018 | 5 |
| 16/01/2018 | 6 |
| 01/02/2018 | 3 |
| ****CYFLWYNIAD I ARCHWILYDD CYFFREDINOL** | |
| 21/09/2017 | 6 |
| ****CYFLWYNIAD I WASANAETHAU'R CYNGOR** | |
| 11/05/2017 | 21 |
| 18/05/2017 | 14 |
| ****HYFFORDDIANT IPAD** | |
| 12/05/2017 | 14 |
| 18/05/2017 | 7 |
| 31/05/2017 | 6 |
| ****MATERION CYNLLUNIO** | |
| 21/07/2017 | 11 |
| 05/03/2018 | 11 |
| **HYFFORDDIANT CYNLLUNIO** | |
| 01/06/2017 | 10 |
| ****HYFFORDDIANT DIOGELU** | |
| 07/07/2017 | 7 |
| ****Y CYFANSODDIAD** | |
| 05/06/2017 | 18 |
| ****TRAIS YN ERBYN MERCHED;TRAIS YN Y CARTREF** | |
| 19/10/2017 | 1 |
| 24/10/2017 | 1 |

** Yn dynodi fod y cwrs ar gael i holl Aelodau Etholedig

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Safonau a Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **14 & 20 Mawrth, 2018** |
| **Teitl:** | **Siartr Datblygu Aelodau** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cadarnhau'r camau a gynigir** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd** |

**1.0 Cefndir**

**Siartr Datblygu Aelodau**

Yn 2014, dyfarnwyd i'r Cyngor Siarter CLIC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Nod y siarter yw darparu fframwaith eang ar gyfer cynllunio, hunanasesu, gweithredu ac adolygu yn lleol a rhannu arfer dda ac arloesol. Adroddwyd ar hyn yn flaenorol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Dyfarnwyd y siartr am gyfnod o 3 blynedd a chynigir yn awr bod y Cyngor yn cael ei ailasesu ac mae hynny'n cynnwys yr angen i baratoi hunanasesiad yn erbyn meini prawf a bennwyd gan CLILC -gweler ynghlwm.

**1.1** Mae'r dasg hon yn mynd rhagddi ar hyn o bryd a'r bwriad i gwblhau'r hunan asesiad cyn diwedd Ebrill 2018 i gyd fynd a'r amserlen ar gyfer adroddiadau blynyddol.

**2.0 Argymhelliad:**

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r camau gweithredu yn yr adroddiad hwn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**26 Chwefror, 2018**

# Ffurflen hunanasesu ar gyfer lefel gyntaf y Siartr

| A. Rolau a chyfrifoldebau'r aelodau | Gofynion y Freinlen | Ehangu ac esbonio ynglŷn â'r Freinlen | Disgrifio dulliau a chamau'r awdurdod | Cyfeirio at dystiolaeth ategol sydd wedi'i hamgáu |
|---|---|---|---|---|
| **1. Helpu aelodau trwy ddisgrifiadau o'u rolau.** | Mabwysiadu disgrifiadau o rôl:<br>• Arweinydd<br>• Dirprwy arweinydd<br>• Aelod o'r cabinet<br>• Aelod o bwyllgor craffu<br>• Cadeirydd pwyllgor craffu<br>• Aelod cyfetholedig o bwyllgor craffu<br>• Cadeirydd pwyllgor statudol<br>• Cadeirydd pwyllgor ardal<br>• Cadeirydd pwyllgor archwilio cyfrifon<br>• Aelod o bwyllgor archwilio cyfrifon<br>• Cadeirydd pwyllgor gwasanaethau democrataidd<br>• Aelod o bwyllgor gwasanaethau democrataidd<br>• Cynghorydd yn ei fro gan gynnwys arwain y gymuned a thrin a thrafod achosion<br>• Cadeirydd pwyllgor safonau<br>• Aelod o bwyllgor safonau<br>• Arweinydd gwrthblaid<br>• Hyrwyddwr<br><br>Rhoi canllawiau i aelodau am eu rolau mewn cyrff allanol. | **Beth yw ystyr mabwysiadu?**<br>Mae disgrifiadau, ac maen nhw wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol ar gyfer pob rôl sydd ar y rhestr.<br><br>Ar y lefel hon, does dim angen i'r aelodau gyflwyno tystiolaeth eu bod yn cyflawni'r rolau sydd wedi'u disgrifio, ond dylai pob aelod ddeall ei rôl a'r hyn mae disgwyl iddo ei wneud ynddi.<br>Sut mae diffinio disgrifiad o rôl?<br><br>Gweler:<br>▪ disgrifiadau enghreifftiol WLGA i'r cynghorau;<br>▪ dogfen WLGA, *Rôl cynghorwyr ynglŷn â chydweithio*;<br>▪ y disgrifiad enghreifftiol o rôl aelod cyfetholedig o bwyllgor craffu, Atodiad A Mesur 'Llywodraeth Leol' Cymru 2011.<br><br>**Cyrff allanol**<br>Lle mae aelodau'n gyfrifol am gynrychioli'r awdurdod yn | *Er enghraifft:*<br><br>*Mae disgrifiadau wedi'u mabwysiadu ynglŷn â'r rolau sydd wedi'u rhestru.*<br><br>*Mabwysiadodd y cyngor y rheiny ar 27.07.12 ar ôl i'r gweithgor dros ddatblygu aelodau eu llunio yn ôl fframwaith WLGA.*<br><br>*Cytunodd pob aelod ar y disgrifiad o'i rôl a'i lofnodi fis Medi 2012.* | *Er enghraifft:*<br><br>*Y disgrifiadau i gyd wedi'u llofnodi (cyfeirnod a.1.1).*<br><br>*Cofnodion cyfarfod y cyngor ar 27.07.12 (cyf. a.1.2).*<br><br>*Cofnodion cyfarfodydd y gweithgor dros ddatblygu aelodau ar 15.06.12 a 01.07.12 (cyf. a.1.3).*<br><br>*Amodau gorchwyl cyrff allanol gyda negeseuon ebost at aelodau (cyf. a.1.4).*<br><br>*Neges ebost at aelodau ar 27.09.12 (cyf. a.1.5).* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ffurfiol neu ddod i benderfyniadau allai effeithio ar yr awdurdod neu arwain at oblygiadau cyfreithiol (megis ymddiriedolwr sefydliad), dylai fod disgrifiad o'r rôl. Ym mhob achos, fe ddylech chi roi canllawiau i aelod am ei rôl yn y corff allanol. Dylai swyddogion gael gafael ar amodau gorchwyl pob corff os ydyn nhw ar gael. | | |
| **2. Helpu'r aelodau i ymddwyn yn ôl y safonau uchaf pan fôn nhw'n cyflawni eu dyletswyddau.** | Hyfforddi a datblygu aelodau am y côd ymddwyn lleol gan nodi unrhyw newidiadau yn y côd enghreifftiol neu'r un lleol pan ddôn nhw i'r amlwg. | **Beth yw ystyr hyfforddi a datblygu?**<br>Unrhyw weithgareddau fydd yn helpu aelodau i ddeall natur y côd a sut dylen nhw gadw ato megis canllawiau ysgrifenedig, sesiynau cyflwyno, gweithdai a sesiynau holi ac ateb. | | |
| **3. Helpu'r aelodau i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau nhw yn ôl y cyfansoddiad.** | Hyfforddi aelodau am gynnwys y cyfansoddiad a gofalu eu bod yn ei ddeall fel a ganlyn:<br>• rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgorau, a'u ffiniau<br>• rolau aelodau a swyddogion unigol<br>• protocolau aelodau a swyddogion<br>• cynnal cyfarfodydd<br>• rheolau parhaol<br>• rheolau dadlau | Mae hyfforddiant wedi'i gynnig i'r aelodau ac mae llawer ohonyn nhw wedi cymryd rhan ynddo.<br><br>Mae'r cyfansoddiad yn pennu rolau a chyfrifoldebau pob un o'r pwyllgorau a'r bobl allweddol sy'n ymwneud â nhw megis y cadeirydd, swyddogion cymorth a'r aelodau parhaol.<br>Cewch chi roi disgrifiadau yn y cyfansoddiad neu ar wahân, ond dylech chi eu mabwysiadu a'u gwerthfawrogi'n ffurfiol. | | |

| **B. Datblygu aelodau** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **B1. Mae strategaeth dysgu a datblygu aelodau wedi'i mabwysiadu.** | Mae strategaeth datblygu aelodau lleol. Mae'n pennu'r modd mae'r awdurdod a phwyllgor y gwasanaethau democrataidd am ddatblygu aelodau, gan gynnwys:<br>• ymrwymiad a dull ynglŷn â dadansoddi anghenion datblygu trwy adolygu datblygiad personol neu ddadansoddi anghenion hyfforddi (o ran y rhai na ofynnodd am adolygiad) i bennu anghenion lleol, gwladol, cyfunol ac unigol yr aelodau;<br>• ymrwymiad a dull ynglŷn â datblygu aelodau yn ôl anghenion yr awdurdod;<br>• ymrwymiad a dull ynglŷn â chreu cynllun datblygu personol i bob aelod;<br>• ffordd o ymateb i'r hyn sydd wedi deillio o broses adolygu'r datblygiad personol a ddadansoddi'r anghenion hyfforddi. | | | |
| **B2. Mae trefniadau sy'n cynnig adolygiad o ddatblygu personol i <u>bob</u> aelod.** | Adolygu cymorth a datblygiad personol fel a ganlyn:<br>• yn ôl disgrifiadau o rolau;<br>• cyfrannu at gynlluniau datblygu personol;<br>• o dan adain uwch aelodau neu bobl briodol eraill (yn ôl canllawiau'r Mesur);<br>• <u>ar gael</u> i bob aelod ac <u>yn orfodol</u> i'r rhai sy'n derbyn cyflog uwch/sifil. | **Beth yw adolygu datblygiad personol?**<br>Cyfle i aelod gwrdd ag aelod uwch ei statws neu rywun arall a chanddo gymwysterau priodol i drafod yr hyfforddi a'r datblygu y bydd eu hangen arno.<br>**Dylen nhw** fwrw golwg ar y dyletswyddau cyfredol yn ôl y disgrifiadau uchod a **gallai** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **<u>DS:</u>** Er nad yw'r Mesur yn gofyn i'r arweinydd gael ei adolygu, mae'r Freinlen yn mynnu hynny.  Mae'r Freinlen yn gofyn i bob aelod sy'n derbyn cyflog uwch fynd trwy broses adolygu.  Mae'r Mesur yn dweud y dylai pob aelod gael ei adolygu (o'i wirfodd). | fod peth asesu neu hunanasesu o'r hyn sydd wedi'i gyflawni, yn fan cychwyn.  **Dylai'r** deilliannau lywio cynllun datblygu personol yr aelod trwy gofnodi'r amryw weithgareddau datblygu (yng nghopi'r aelod a'r awdurdod fel ei gilydd fel y bydd modd trefnu gweithgareddau i ddiwallu anghenion pob aelod).<br><br>Mae dogfen WLGA, 'Canllawiau i awdurdodau sydd am adolygu datblygu personol eu haelodau', o gymorth yn hyn o beth.<br><br>Dylai'r <u>rhai sy'n cyfweld</u> aelodau fod wedi'u hyfforddi ynglŷn â diben a dulliau adolygu o'r fath. | | |
| **B3. Mae rhaglen datblygu aelodau ac mae gweithdrefn i'w hadolygu'n flynyddol.**<br><br>**Mae pob cynghorydd yn gwybod ble mae'r gweithgareddau datblygu a'u bod ar gael i bawb yn ôl amodau cyfartal.** | Sefydlu rhaglen ddatblygu flynyddol sydd wedi'i llywio gan strategaeth datblygu'r aelodau.<br><br>• Trefnu a chyhoeddi'r rhaglen ymlaen llaw.<br>• Rhoi gwybod i'r aelodau am gyfleoedd i ddatblygu yn ôl eu hanghenion nhw.<br><br>Rhaid amrywio amser a lle'r gweithgareddau fel y gall pob aelod gymryd rhan ynddyn | Sefydlu rhaglen flynyddol o achlysuron a chyfleoedd i'r aelodau ddysgu gyda'i gilydd ac ar eu pennau eu hunain. Rhaid ei pharatoi yn ôl blaenoriaethau cyfundrefnol y strategaeth ac unrhyw anghenion sydd yn y cynlluniau datblygu personol (yn sgîl adolygu datblygiad personol neu ddadansoddi anghenion hyfforddi). Swyddogion ac aelodau perthnasol (megis pwyllgor y gwasanaethau democrataidd, | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | nhw, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio, yn gynhalwyr neu'n gofalu am blant. | y gweithgor dros ddatblygu aelodau, hyrwyddwr datblygu'r aelodau, swyddogion gwasanaethau democrataidd ac adnoddau dynol, cyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaethau ac ati) ddylai lunio'r rhaglen. Dylai grybwyll 'meysydd arbenigol' i'w datblygu yn ôl anghenion yr aelodau o ran meithrin medrau a gwybodaeth mewn themâu neu wasanaethau penodol ac ym maes llywodraethu corfforaethol.<br><br>Wrth gynnig y rhaglen, rhaid rhoi digon o rybudd i alluogi'r aelodau i fod yn bresennol.<br><br>Rhaid tynnu sylw'r aelodau at achlysuron lle maen nhw wedi mynegi diddordeb ynddyn nhw.<br><br>Dylai'r rhaglen gynnig amryw ddewisiadau a chyfleoedd i gymryd rhan ynddi. | | |
| **B4. Mae'u rolau a'u cyfrifoldebau nhw yn hysbys i'r ymgeiswyr, y darpar ymgeiswyr a'r aelodau newydd.** | ▪ Mae'r cyngor yn defnyddio canllawiau a deunyddiau cymorth gwladol sydd ar gael i ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr.<br><br>▪ Mae rhaglen gyflwyno ar gael i bob aelod newydd a phrofiadol. | **Beth yw'r canllawiau gwladol?**<br>Deunyddiau mae WLGA a chyrff eraill yn eu cynnig i bobl yn y gymuned (nid dim ond y rhai a hoffai fod yn ymgeiswyr) i'w hannog i roi cynnig ac i'r rhai sydd wedi penderfynu bod yn ymgeiswyr yn barod. Bydd y rheiny'n wahanol ar gyfer pob etholiad | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ac ar wahanol adegau yn y calendr gwleidyddol. Gall WLGA roi crynodeb o'r hyn sydd ar gael.<br><br>**Beth yw cynnwys rhaglen gyflwyno?**<br>Bydd yn amrywio ymhlith yr awdurdodau ond dylai gynnwys unrhyw weithgaredd sy'n cyflwyno aelodau newydd i'w rolau yn y cyngor a'r tu allan iddo a gwaith yr awdurdod yn gyffredinol.<br><br>Mae modd manteisio ar y deunyddiau cyflwyno gwladol mae WLGA wedi'u llunio. | | |
| **B5. Gweithgareddau datblygu perthnasol o'r radd flaenaf.** | Cynnig gweithgareddau dysgu mewn arddulliau a lleoliadau priodol yn ôl anghenion ac arddulliau unigolion a phwyllgorau. Mae gan yr awdurdod ffordd drefnus ac effeithiol o gomisiynu, llunio, cynnig a chloriannu ei weithgareddau hyfforddi a datblygu (trefniadau mewnol, allanol neu gydweithredol). | **Beth yw arddulliau a lleoliadau priodol?**<br>Cyfuniad, er enghraifft, o waith ffurfiol/anffurfiol, grŵp/unigol, rhyngweithiol/goddefol, yn yr awdurdod/oddi cartref. Gallai gynnwys gydweithio ag WLGA a dylai gynnwys gydweithio ag awdurdodau eraill lle bo'n briodol i rannu gwybodaeth neu gaffael cyfleusterau ar y cyd.<br><br>Rhaid llunio hyfforddiant mewnol (yn hytrach na sesiynau hysbysu) gyda chymorth arbenigwyr ym maes hyfforddi neu ddatblygu cyfundrefnol yn ogystal â swyddogion cymorth yr | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | aelodau, swyddogion polisïau a swyddogion gwasanaethau. | | |
| **B6. Mae cyfrifoldeb eglur am arwain y rhaglen, hyrwyddo'r strategaeth a monitro'r deilliannau.** | Mae trefniadau eglur gan yr awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a monitro strategaeth cynorthwyo a datblygu ei aelodau. Mae gan aelodau a swyddogion unigol rolau eglur ynglŷn ag arwain a hyrwyddo'r maes hwn. Mae'n cymryd anghenion pob cylch gwleidyddol ac aelod annibynnol i ystyriaeth beth bynnag fo'i deyrnged gwleidyddol. | Pwyllgor y gwasanaethau democrataidd, neu fforwm priodol arall megis gweithgor cynorthwyo a datblygu aelodau ddylai ymgymryd â'r rôl hon. Dylai fod gan bob swyddog ac aelod gyfrifoldeb cyffredinol clir am lunio, defnyddio a monitro'r strategaeth a chadw llygad ar hynt y rhaglen. | | |
| **B7. Mae adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer datblygu aelodau.** | Mae adnoddau penodol wedi'u pennu a'u neilltuo ar gyfer gweithgareddau datblygu aelodau.<br><br>Mae'r awdurdod yn cynnig 'lefel resymol' o ddatblygu yn unol â'r Mesur. | **Beth yw ystyr neilltuo?** Rhoi adnoddau o'r neilltu a'u defnyddio ar gyfer datblygu aelodau. Mae modd dehongli gweithgarwch datblygu aelodau yn eang ond ddylai ddim fod yn rhan o waith arferol y cyngor. Gallai gynnwys sesiynau hysbysu traddodiadol, gweithdai neu seminarau, llawlyfrau a chyrsiau cyflwyno. Fe ddylai'r adnoddau gynnwys amser y staff hefyd (i'w rannu ymhlith awdurdodau lle bo modd). | | |
| **B8. Mae cyfleoedd i aelodau gael eu mentora gan aelodau eraill.** | Mae'r awdurdod yn ystyried anghenion aelodau sydd am gael eu mentora. Mae mentor gan bob aelod a ofynnodd am un. Mae'r mentoriaid wedi'u hyfforddi ym maes mentora. | Mae'r awdurdod yn siarad â'r aelodau am ystyr a manteision mentora i fesur eu diddordeb nhw. Gall mentora gynnwys gweithio ochr yn ochr ag aelodau eraill neu 'gyfeillion' o swyddogion. Dylai'r awdurdod ystyried a | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | oes angen mentora'r arweinydd a'r cabinet ym maes arwain os ydyn nhw wedi gofyn amdano. | | |
| **C. Cymorth i aelodau** | | | | |
| **C1. Mae swyddogion ar gael i gynorthwyo a datblygu aelodau a'u helpu i gyflawni gorchwylion craffu.** | Mae swyddogion cymorth ar gyfer pob pwyllgor, fforwm, panel ac ati ac iddo aelodau. Mae cymorth i aelodau drin a thrafod achosion, hefyd.<br><br>Mae gan bwyllgorau trosolwg a chraffu swyddogion penodol sy'n gallu cynnal ymchwil a chynnig cymorth a chyngor amhleidiol.<br><br>Mae natur y cymorth wedi'i hesbonio'n eglur wrth yr aelodau. | Dylai cymorth swyddogion fod ar gael i holl gyfarfodydd y cyngor a'i bwyllgorau.<br><br>Fe ddylai fod trefniadau i helpu'r aelodau i drin a thrafod achosion a gwaith cymunedol sydd heb ymwneud â gwleidyddiaeth – boed trwy'r cymorth i aelodau neu wasanaethau eraill. Dylai fod cymorth ar gyfer trefniadau llywodraethu ar y cyd megis cydbwyllgorau a byrddau comisiynu hefyd.<br><br>Mae angen adnodd (neilltuedig neu ysbeidiol) yn yr awdurdod sy'n gallu cynghori aelodau am gyflawni gorchwylion craffu a'u helpu (naill ai yn eu pwyllgorau neu ar eu pennau eu hunain) trwy gynnal ymchwil amhleidiol. Rhaid gwneud hynny yn ymateb i anghenion yr aelodau pan fôn nhw'n ymwneud â chraffu dilys. | | |
| **C2. Mae'r trefniadau ar gyfer gwaith y cyngor yn hyblyg i alluogi pob aelod i gymryd rhan gyflawn ynddo beth bynnag fo'i** | Yn sgîl adolygu'r trefniadau ar gyfer gwaith y cyngor, mae amserau, trefniadau a lleoedd y cyfarfodydd yn adlewyrchu anghenion yr aelodau mor | Fe ddylai'r awdurdod adolygu ei drefniadau yn ôl canllawiau y Mesur o leiaf unwaith y tymor – ychydig ar ôl ethol y cyngor newydd fyddai orau – | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **amgylchiadau personol.** | agos ag y bo modd.<br><br>Mae'r aelodau wedi helpu i lunio ffyrdd o fod yn bresennol o hirbell fel sydd wedi'i nodi yn y rheolau parhaol yn ôl gofyn y Mesur. | gan nodi a fyddai'n well cwrdd gyda'r hwyr neu yn ystod y dydd ac a oes amserau sy'n achosi problemau i aelodau unigol. Fe ddylai pob pwyllgor gael diffinio'r hyn sy'n gyfleus i'w aelodau. Yr hyn mae rhaid ei ddangos yw ymwybyddiaeth o'r anawsterau allai godi i aelodau trwy gynnal cyfarfodydd yn ôl amserau penodol a thystiolaeth bod trefniadau'n hyblyg yn sgîl hynny. | | |
| **C3. Rheoli cysylltu a chyfathrebu** | Mae sustemau'n galluogi pob aelod i gysylltu â swyddogion ynglŷn â gwasanaethau sydd ar gael y tu mewn i'r cyngor a'r tu allan iddo. Mae cymorth i alluogi grwpiau ac unigolion yn y gymuned i gysylltu â'u cynghorwyr, hefyd. Mae'r aelodau'n gallu cysylltu â budd-ddalwyr. | Dylai'r sustemau hynny gynnwys safonau y cytunwyd arnyn nhw ynglŷn ag amserlenni ymateb, gweithdrefnau cwyno a phroses trin a thrafod achosion a gwaith cymunedol. Rhaid rhoi gwybod i'r aelodau pa swyddogion mae angen cysylltu â nhw i drafod cwynion ac achosion ynglŷn ag unrhyw wasanaeth sydd wedi'i roi gan y cyngor neu ar ei ran. | | |
| **C4. Adroddiadau blynyddol** | Mae'r awdurdod yn trefnu bod pob aelod yn gallu cyhoeddi adroddiad blynyddol yn ôl canllawiau'r Mesur. | Mae cymorth a chyfarwyddyd ar gael i'r aelodau i gyd ynglŷn â defnyddio sustemau'r awdurdod. | | |
| **C5. Cymorth personol i aelodau** | Mae'r aelodau'n gwybod ble mae canllawiau am hawliau a buddion aelod etholedig. | Mae'r aelodau wedi'u cynghori'n gyffredinol am hawliau/buddion cynghorwr yn ei rôl (o safbwynt 'cyflogaeth') megis eu cyflogau, absenoldeb i ofalu am y teulu, lwfansau, trethi, | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | pensiynau, indemniad, diogelu data a hawl mynnu gwybodaeth. | | |
| **Ch. Cyfleusterau i aelodau** | | | | |
| **Ch1. Mae TGCh ar gael i bob aelod.** | ▪ Mae gan yr aelodau yr offer neu'r cysylltiadau priodol i gyflawni eu rôl.<br>▪ Mae hyfforddiant sylfaenol am eu defnyddio ac mae desg gymorth ar gael.<br>▪ Mae'r cyngor yn helpu ei aelodau i weithio o hirbell trwy godau cyrchu o hirbell, Skype ac ati.<br>▪ Mae'r cyngor yn helpu ei aelodau i gymryd rhan yn ei gyfarfodydd o hirbell yn ôl y safonau sydd yn y rheolau parhaol (pan ddaw'r Mesur i rym).<br>▪ Gall yr aelodau gyfathrebu â'r cyngor a'r cyhoedd trwy gyfryngau electronig. | Mae'r cyngor yn rhoi offer y gall pob aelod eu defnyddio wrth gyflawni ei waith swyddogol.<br><br>Mae'r cyngor yn dangos sut mae defnyddio'r offer a'r pecynnau.<br><br>Mae cymorth ar gael lle mae offer gwallus neu anawsterau ynglŷn â'u defnyddio.<br><br>Mae'r aelodau wedi'u cynghori am ddefnyddio offer cyfathrebu symudol a chyfryngau digidol a chymdeithasol. Mae gwefannau cyfryngau o'r fath, cylchoedd trafod a chymunedau arferion ar gael iddyn nhw yn ôl yr angen i'w helpu i gyflawni eu rolau.<br><br>Mae agenda a phapurau pob un o gyfarfodydd y cyngor ar gael yn electronig. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Ch2. Mae adnoddau gwybodaeth ar gael.** | Mae cronfa wybodaeth graidd i'r aelodau yn rhan o'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw ynglŷn â gwybodaeth ac ymchwil. | Mae casgliad cyfoes o adnoddau gwybodaeth ar gael i'r aelodau ac mae'n cael ei ddiweddaru'n fynych.<br>Mae ynddo agenda/cofnodion, cyfleoedd hyfforddi, cysylltiadau ag adnoddau ar y we a ffordd o archwilio data am berfformiad.<br><br>Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn hysbys i bob aelod. | | |
| **Ch3. Mae modd i bob aelod weithio yn adeilad y cyngor.** | Yn sgîl adolygu anghenion yr aelodau, mae'r canlynol wedi'i roi ar gael lle bo angen:<br><br>▪ Mannau i'w rhannu ar gyfer, er enghraifft, y cylchoedd gwleidyddol.<br>▪ Ystafelloedd preifat ar gyfer cyfarfodydd.<br>▪ Swyddfeydd ar gyfer y rhai sydd yn y swyddi uwch. | Mae anghenion yr aelodau wedi'u hasesu.<br><br>Mae ystafelloedd ar gael – nid i'r dibenion hynny drwy'r amser, o reidrwydd. | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mawrth 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Protocol Datrysiad Lleol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Ymateb i gais a wnaed gan y Pwyllgor hwn ar 13 Medi 2017** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Swyddog Monitro / Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Swyddog Monitro / Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), wedi iddo adolygu ei brawf ar gyfer ymchwilio i gwynion, yn annog awdurdodau lleol yng Nghymru i ddelio â chwynion camymddwyn lefel isel rhwng aelodau trwy brotocol datrysiad lleol anffurfiol.

1.2 ‘Roedd nifer o amcanion y tu ôl i'r datblygiad hwn, gan gynnwys: -

1.2.1 gostwng nifer y cwynion a gyflwynir i OGCC;

1.2.2 datrys materion lleol yn gynharach fel nad ydynt yn gwaethygu ac i osgoi eu huwchgyfeirio;

1.2.3 meithrin perthynas dda a chadarnhaol rhwng aelodau (a rhwng aelodau a swyddogion).

1.3 ‘Roedd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am fabwysiadu ei brotocol ei hun. Nid yw OGCC / Llywodraeth Cymru (a oedd yn cefnogi'r fenter yn gryf) wedi nodi gofynion penodol ar gyfer y protocol nac wedi darparu unrhyw fformat safonol i'w ddilyn.

1.4 Mae'r Protocol a fabwysiadwyd ac a gymeradwywyd gan Gyngor Sir Ynys Môn ynghlwm fel **Atodiad 1.** Mae'r Protocol hwn wedi'i ymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

1.5 Yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2017 gofynnodd y Pwyllgor Safonau am yr adroddiad hwn, yn benodol er mwyn nodi pwerau cyfreithiol y Pwyllgor mewn cysylltiad â'r

Protocol, ac i dderbyn unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau / ychwanegiadau i'r trefniadau presennol.

1.6 Er ei fod wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn nid oes gan y Protocol unrhyw rym statudol ac mae'n gynllun gwirfoddol ac anffurfiol. Nid yw'n orfodol i unrhyw aelod ymrwymo i'r Protocol ond gobeithir eu bod yn gwneud hynny i sicrhau bod y cynllun yn gweithredu'n deg ac yn effeithiol i bawb ac fel rhan o drefniadau cadarn ar gyfer llywodraethiant lleol. Dylid nodi, serch hynny, y parheir i annog aelodau i ddatrys unrhyw faterion yn uniongyrchol â'i gilydd neu drwy arweinwyr eu grwpiau.

1.7 Serch hynny, wrth ddefnyddio'r cynllun, mae'n rhaid cymryd gofal i sicrhau bod y rheini sy'n cymryd rhan, gan gynnwys y panel o'r Pwyllgor Safonau sy'n gyfrifol am ddelio ag unrhyw gŵyn, yn ymwybodol o chyfyngiadau cyfreithiol y Protocol ac, yn benodol, ei natur wirfoddol ac absenoldeb unrhyw gosbau cyfreithlon sydd ar gael i banel. Yn ogystal, mae'r broses yn gyfrinachol a rhaid cynnal unrhyw gyfarfodydd yn breifat. Mae'r un peth yn wir am unrhyw bapurau / dogfennau a gynhyrchir (a ddylai fod cyn lleied â phosib).

1.8 O ystyried y cyfyngiadau hyn, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a ddylid diwygio'r Protocol cyfredol i gynnwys dull arall a symlach o geisio datrysiadau; sef, trwy gyfryngu. Byddai angen i aelodau'r Pwyllgor Safonau dderbyn hyfforddiant perthnasol yn y maes cyfryngu i hwyluso cyfarfodydd o'r fath os disgwylir iddynt fod yn aelod o banel (unrhyw banel sy'n cynnwys dau aelod).

1.9 Cynigir hefyd y bydd angen i achwynwyr gwblhau ffurflen gwyno wrth sbarduno'r broses. Byddai'r ddogfen hon yn disgrifio'r mater a gwahoddir yr achwynydd i ddewis sut y byddai'n dymuno datrys y mater ac i ddweud beth yw ei ddisgwyliadau o'r broses.

1.10 Nodir gan y Pwyllgor Safonau fod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru, yn eu fersiynau hwy o'r protocol, yn ceisio gosod sancsiynau o dan y broses hon ar aelodau y cafwyd eu bod wedi torri'r Côd. Fodd bynnag, atgoffir aelodau'r Pwyllgor eto na nad oes ond modd gosod sancsiynau os oes awdurdod cyfreithlon i wneud hynny. Mewn fforwm anffurfiol, sydd heb rym statudol, barn y Swyddog Monitro yw bod yn rhaid i'r canlyniadau hyn fod yn gyfyngedig i'r hyn y mae'r ddau barti'n cytuno arno, neu fel arall byddai'r sancsiynau yn agored i gael eu herio (a hynny'n iawn). Byddai aelodau o unrhyw banel Pwyllgor Safonau hefyd yn agored i honiadau o ultra vires, hynny yw, gweithredu y tu allan i'w hawdurdod cyfreithlon.
Nid oes cyfiawnhad cyfreithiol dros gael protocol mwy cosbol / sy'n seiliedig ar sancsiynau, ac nid yw'n cydweddu'n dda ag egwyddorion datrysiad cefnogol yn hytrach na chosb.

1.11 Yn yr amgylchiadau, mae Protocol drafft newydd wedi'i baratoi i gynnwys yr opsiwn o gynnal cyfarfod cyfryngu lefel is. Mae'r Protocol diwygiedig a awgrymir ynghlwm yn **Atodiad 2** a chafodd ei gylchredeg gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i bedwar arweinydd grŵp y Cyngor ar 1 Chwefror 2018, yn dilyn cyflwyniad i gyfarfod o'r Arweinyddion Grwp ar 25 Ionawr 2018. Cytunwyd yn y cyfarfod Arweinwyr Grŵp y byddai arweinwyr y grwpiau yn dosbarthu'r Protocol drafft newydd i aelodau eu grwpiau (hynny yw pob un o'r 30 o gynghorwyr) ac yn trafod y cynnig yn y grwpiau ac yn rhoi unrhyw atborth erbyn 28 Chwefror 2018. Ar adeg anfon yr adroddiad hwn

i’r Gwasanaethau Democrataidd i'w gyhoeddi, ni dderbyniwyd ymateb gan unrhyw arweinydd grŵp.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Diwygio'r Protocol (fel yn **Atodiad 2**) i:

2.1.1 rhoi mwy o eglurder ynghylch y math o gŵyn y gellir ei chyfeirio o dan y Protocol;

2.1.2 egluro'r weithdrefn a'r ddau ddull gwahanol o ddatrys;

2.1.3 egluro'r cyfyngiadau ar bwerau'r Pwyllgor Safonau os cadarnheir cwyn yr ymchwilir iddi o dan y Protocol.

2.1.4 awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno’r adroddiad a’r Protocol drafft newydd i’r cyfarfod o’r Cyngor Sir a gynhelir ar 15 Mai, 2018 a cheisio cefnogaeth yr aelodau etholedig.

**ATODIAD 1**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

## Cyffredinol

1. Pwrpas y Protocol yw hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad, gyda golwg ar feithrin perthnasau gweithio cadarnhaol ymysg Aelodau, a rhwng Aelodau a Swyddogion, i osgoi cwynion annilys i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac i ddiogelu enw da'r Cyngor.

2. Ni fydd y Protocol yn berthnasol ond mewn achosion o gamymddwyn gan Aelodau yn erbyn ei gilydd dan baragraffau 4(b) a 6(1)(d) y Côd Ymddygiad. Hynny yw, honiadau o fethu â dangos parch neu fod yn ystyriol o eraill, neu honiadau bod Aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu ddisylwedd yn erbyn Aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran.

3. Mae'r Protocol yn ceisio sicrhau cyfryngu a chymodi cyflym. Nid yw'n gosbol ond fe all fod yn berthnasol i gosbi os gwneir cwyn ffurfiol i'r OGCC mewn achos lle ceir patrwm o ymddygiad o'r fath.

4. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd â disgyblaeth grŵp neu blaid.

5. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd ag unrhyw hawliau statudol neu gontractyddol all fod gan Swyddogion.

6. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli Awdurdod yr OGCC ond, yn hytrach i ddelio â chategori cyfyngedig o achosion, lle gallai paragraffau 4(b) neu 6(1)(d) y Côd fod wedi eu torri, ond lle na fyddai casgliad o'r fath mae'n debyg yn golygu y byddai camau disgyblu'n cael eu cymryd. Ni fyddai achosion o'r fath, yn unigol o leiaf, yn bodloni prawf trothwy'r OGCC ar gyfer ymchwilio iddynt.

## Gweithdrefn

7. Rhaid i Aelod neu Swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol roi eu cwyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro, gan egluro pryd a lle yr honnwyd bod y côd wedi ei dorri, sut a phaham y torrwyd paragraff 4(b) ac / neu 6(1)(d) ynghyd â manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

8. Rhaid anfon unrhyw gwyn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro cyn pen 7 niwrnod gwaith o ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y gŵyn, neu 7 niwrnod gwaith o'r dyddiad pan ddaeth yr achwynydd i wybod am y digwyddiad.

9. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn anfon copi o'r gŵyn, ac unrhyw dystiolaeth gefnogol, i'r Aelod sy'n destun y gwyn. Bydd gan yr Aelod 7 niwrnod gwaith o'i dderbyn, ar gyfer anfon ateb ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro yn

egluro eu hymateb ac yn rhoi manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

10. Yn dilyn derbyn ateb gan yr Aelod y gwneir y gŵyn amdano/amdani, neu pan fo’r amser ar gyfer derbyn ateb wedi mynd heibio, bydd y Swyddog Monitro yn :-

- rhoi copi o’r ymateb llawn i'r achwynydd;

- yn trefnu cyfarfod o Banel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau i ystyried y gŵyn ar y dyddiad cyntaf hwylus sydd ar gael i bawb sydd yn ymwneud â’r mater.

11. Bydd cyfarfod o Banel y Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal yn breifat a bydd unrhyw waith papur y bydd yn ei dderbyn, neu y bydd yn ei gynhyrchu, yn parhau i fod yn gyfrinachol i'r Panel, ei ymgynghorwyr, ac i’r partïon. Mae hyn, fodd bynnag, yn amodol ar unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu e.e. i'r OGCC pe bai materion yn dwysau/datblygu ymhellach.

12. Bydd unrhyw Banel anffurfiol o'r Bwyllgor Safonau yn cynnwys dau Aelod o'r Pwyllgor, yn eu tro, ond ni fydd yn cynnwys Aelod Cyngor Cymuned.

13. Gofynnir i’r partïon fynychu'r Panel a byddant yn gyfrifol am ddod gyda hwy unrhyw dystion y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

14. Os na fydd unrhyw barti neu dyst yn bresennol, mater i’r Panel fydd penderfynu a fyddant yn symud ymlaen â’r mater, neu’n aildrefnu.

15. Pe bai’r achwynydd, neu’r Aelod y gwneir cwyn amdano/amdani yn Aelod o grŵp gwleidyddol, yna fe all wahodd eu Harweinydd Grŵp i fynychu'r Panel. Nid oes rhaid i unrhyw Arweinydd Grŵp perthnasol fynychu, ond anogir hwy i wneud hynny.

16. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn mynychu i gynghori'r Panel.

17. Bydd gweithdrefn unrhyw Banel yn un anffurfiol. Bydd y Panel yn gwneud pob ymdrech i fod yn deg a diduedd gyda’r ddau barti. Ni fydd unrhyw reolau tystiolaeth fel y cyfryw, ond ni fydd unrhyw dystion fydd yn cael eu galw ond yn mynychu i rannu eu gwybodaeth gyda’r Panel; ni fyddant yn 'eistedd i mewn' yn ystod y cyfarfod.

18. Ar ôl clywed gan y partïon, ac unrhyw dystion, ynghyd â'r Arweinyddion Grŵp (pe bai Arweinyddion Grŵp yn bresennol, a phe baent yn dymuno siarad gerbron y Panel,) bydd y Panel wedyn yn ymneilltuo i sesiwn breifat, ac yn dychwelyd i fynegi eu safbwynt a rhoi gerbron unrhyw argymhellion all fod ganddo ar gyfer datrys y sefyllfa. Nid oes gan y Panel unrhyw bwerau disgyblaethol ond fe all wneud argymhellion i'r Arweinyddion Grwpiau yn unigol, mewn perthynas ag Aelodau o'u grŵp ac, i'r Arweinyddion Grŵp gyda'i gilydd mewn perthynas ag unrhyw Aelod digyswllt.

19. Ni fydd unrhyw hawl i apelio dan y broses hon.

20. Bydd y partïon yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o gasgliadau'r Panel ac adroddir ar ganlyniad pob Panel, ond heb gynnwys enwau, i bob cyfarfod chwarterol o'r Pwyllgor Safonau.

21. Bydd canlyniad unrhyw Banel yn cael ei drafod hefyd fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd yr Arweinyddion Grŵp.

# ATODIAD 2

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL

**Cyffredinol**

1. Pwrpas y Protocol anffurfiol hwn yw:

   - hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad;
   - meithrin a chynnal perthnasau gwaith da ymysg aelodau, a rhwng aelodau a swyddogion;
   - rhoi sylw i gwynion lefel isel ynglŷn ag ymddygiad nad ydynt yn cyrraedd trothwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â thystiolaeth a budd cyhoeddus;
   - delio gyda materion sy'n codi cyn gynted â phosib er mwyn osgoi mynd â'r mater ymhellach yn ddiangen;
   - diogelu enw da'r Cyngor.

2. Ni fydd y Protocol ond yn berthnasol i achosion o gamymddwyn honedig yn erbyn aelodau o dan ddau baragraff yn y Cod Ymddygiad, sef:

   **4(b)**

   honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at eraill a/neu

   **6(1)(d)**

   honiadau bod aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor neu'n gweithio ar ei ran.

   Nid yw'r Protocol yn gymwys i gwynion gan drydydd partïon.

3. Bwriad y Protocol yw ceisio datrys anghydfodau yn gyflym a chymodi'n brydlon rhwng aelodau. Trefniant gwirfoddol ydyw ac nid oes unrhyw sail statudol iddo. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i fabwysiadu Protocol o'r fath ond mae Llywodraeth Cymru ac OGCC wedi cynghori'n gryf iawn y dylai Awdurdodau Lleol gael trefniadau o'r fath mewn lle.

4. Nid bwriad y Protocol yw ymyrryd â, neu disodli unrhyw drefniadau disgyblu gan grŵp neu blaid; nac ychwaith drefniadau hunanreoleiddio gan aelodau.

5. Nid bwriad y Protocol yw ymyrryd â, neu disodli unrhyw hawliau statudol neu gytundebol sydd gan yr aelodau.

6. Nid bwriad y Protocol yw bwrw allan awdurdodaeth yr Ombwdsmon ond yn hytrach, ei ddiben yw delio gyda chategori cyfyngedig o gwynion na fyddai'n cyrraedd prawf trothwy yr Ombwdsmon ar gyfer cynnal ymchwiliad.

**Y Weithdrefn**

7. Mae'n rhaid i aelod neu swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol gyflwyno eu cwyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro (mae'r ffurflen ynghlwm) yn egluro:

- pa bryd ac ymhle y digwyddodd y camymddwyn honedig;
- sut a pham mae'r aelod wedi mynd yn groes i baragraff 4(b) a/neu 6(1)(d);
- manylion unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

8. Mae'n rhaid anfon unrhyw gŵyn ysgrifenedig at y Swyddog Monitro o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y gŵyn, neu 14 diwrnod o'r dyddiad y daeth yr achwynydd i wybod am y digwyddiad.

9. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd, yn rhannu'r gŵyn gyda'r aelod sy'n destun y gŵyn, a bydd hefyd yn rhoi iddo unrhyw ddogfennau cefnogol a gafwyd gan yr achwynydd.

10. Bydd gan yr aelod sy'n derbyn y gŵyn 14 diwrnod, o'r diwrnod mae'n ei derbyn, i anfon ymateb ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro yn nodi ei ymateb ac yn darparu manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

11. Ar ôl derbyn ymateb gan yr aelod sy'n destun y gŵyn, bydd y Swyddog Monitro yn:-

- copïo'r ymateb llawn i'r achwynydd;

- trefnu cyfarfod sy'n gyfleus i'r naill ochr rhwng panel anstatudol o'r Pwyllgor Safonau, yr achwynydd a'r aelod sy'n destun y gŵyn. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

12. Bydd rhaid i'r achwynydd, yn ei ffurflen gŵyn, ddewis pa ddull datrys sydd orau ganddo:-

- Cyfarfod cyfryngu neu
- Gyfarfod strwythuredig

13. Pa bynnag un mae'n ei ddewis, bydd y cyfarfod gyda phanel o'r Pwyllgor Safonau yn digwydd yn breifat, gan nad oes unrhyw ofynion statudol i gyfarfod o'r fath fod yn gyhoeddus.

14. Os nad oes unrhyw ymateb wedi'i dderbyn o dan baragraff 10 uchod, o fewn y cyfnod 14 diwrnod, yna nid fydd panel y Pwyllgor Safonau yn cael ei alw.

15. **Cyfarfod Cyfryngu**

15.1 Bydd unrhyw banel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys unrhyw ddau aelod annibynnol o'r Pwyllgor, ar sail rota.

15.2 Os dewisir yr opsiwn cyfryngu, bydd y partïon a'r panel anffurfiol yn cyfarfod yn breifat i drafod y gŵyn.

15.3 Os yw'r achwynydd, neu'r aelod sy'n destun y gŵyn, yn aelod o blaid wleidyddol yna gall ef/hi wahodd ei arweinydd grŵp i fynychu'r panel. Nid yw'n ofynnol i unrhyw arweinydd grŵp perthnasol ddod i'r panel, ond caiff ei annog i wneud hynny.

15.4 Bydd y gwaith papur yn cael ei gadw at y lleiafswm, ac yn ddelfrydol fe'i defnyddir fel cymorth i ddwyn i gof ddigwyddiadau neu ffeithiau.

15.5 Ni chaiff aelodau panel y Pwyllgor Safonau ond hwyluso'r cyfarfod cyfryngu os ydynt wedi derbyn hyfforddiant at y diben hwn.

15.6 Bydd y Swyddog Monitro, neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd, ar gael am unrhyw gyngor neu arweiniad ond nid fydd yn bresennol ond os oes ei angen gan unrhyw barti, yn cynnwys y panel.

15.7 Bydd unrhyw waith papur mae'r cyfarfod yn ei dderbyn, neu'n ei gynhyrchu, yn aros yn gyfrinachol i'r panel, ei ymgynghorwyr, a'r partïon. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu e.e. i OGCC petai'r materion yn cael eu cyfeirio ymhellach. Bydd unrhyw nodiadau panel a wneir yn y cyfarfod yn cael eu cadw gan y Swyddog Monitro tan ddiwedd tymor y Cyngor.

15.8 Pwrpas cyfarfod cyfryngu fydd i'r partïon ddod i ddatrysiad y maent yn cytuno arno, gyda chefnogaeth y panel. Felly, ni fydd disgwyl i'r panel ddod i farn neu wneud unrhyw ganfyddiadau ond fe all wneud rhai argymhellion. Ni fydd argymhellion o'r fath yn rhwymol.

## 16. **<u>Cyfarfod Strwythuredig</u>**

16.1 Bydd unrhyw banel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys unrhyw ddau aelod annibynnol o'r Pwyllgor, ar sail rota.

16.2 Os dewisir y cyfarfod strwythuredig, bydd y partïon a'r panel anffurfiol yn cyfarfod yn breifat i drafod y gŵyn.

16.3 Gall hwn fod yn fforwm mwy addas i roi sylw i gŵyn os yw'r mater yn fwy cymhleth a bod gofyn ystyried gwaith papur mwy cynhwysfawr a/neu o bosib galw a chwestiynu tystion.

16.4 Bydd aelod arweiniol o'r panel yn cael ei enwebu ar ddechrau'r cyfarfod a bydd trefn y cyfarfod yn cael ei hegluro i bawb sy'n bresennol.

16.5 Disgwylir y bydd y panel yn derbyn gwybodaeth gan y ddwy ochr, sy'n ddigon iddo allu dod i farn/gwneud canfyddiadau ynghylch ffeithiau. I'r perwyl hwnnw gall aelodau'r panel ofyn cwestiynau i'r partïon ac unrhyw dystion.

16.6 Bydd y Swyddog Monitro, neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd, yn bresennol i ddarparu unrhyw gyngor.

16.7 Bydd unrhyw waith papur mae'r cyfarfod yn ei dderbyn, neu'n ei gynhyrchu, yn aros yn gyfrinachol i'r panel, ei ymgynghorwyr, a'r partïon. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu e.e. i OGCC petai'r materion yn cael eu cyfeirio ymhellach. Bydd unrhyw nodiadau panel a wneir yn y cyfarfod yn cael eu cadw gan y Swyddog Monitro tan ddiwedd tymor y Cyngor.

16.8 Os yw'r achwynydd, neu'r aelod sy'n destun y gŵyn, yn aelod o blaid wleidyddol yna gall ef/hi wahodd ei arweinydd grŵp i fynychu'r panel. Nid yw'n ofynnol i unrhyw arweinydd grŵp perthnasol ddod i'r panel, ond caiff ei annog i wneud hynny.

16.9 Bydd y panel yn ymdrechu i fod yn deg ac yn ddiduedd gyda'r naill ochr a bydd yn rhoi cyfle cyfartal iddynt roi eu safbwyntiau.

16.10 Ar ôl clywed gan y partïon, ac unrhyw dystion, ynghyd â'r arweinyddion grŵp (os yn berthnasol) bydd y panel yn ymneilltuo i sesiwn breifat, gan ddychwelyd i fynegi ei farn a chyflwyno unrhyw argymhellion sydd ganddo ar gyfer datrys y mater. Nid oes gan y Panel unrhyw bwerau i gosbi ond fe all wneud argymhellion.

Gall yr argymhellion gynnwys unrhyw rai o'r canlynol:

- Dim camau pellach;
- Ymddiheuriad (yn cynnwys ymddiheuriad gan y ddwy ochr);
- Cyfeirio aelod i dderbyn hyfforddiant;
- Cyfeirio at OGCC

16.11 Ni fydd unrhyw hawl apelio o dan y broses hon.

16.12 Bydd y partïon yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o ganfyddiadau'r panel.

## FFURFLEN I GOFRESTRU CWYN O DAN Y PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL

**A: Eich Manylion**

| | | |
|---|---|---|
| Cyfenw: | Enw(au) cyntaf: | Teitl: |
| Cyfeiriad a Chod Post: | | |
| Cyfeiriad E-bost: | | |
| Rhif ffôn cyswllt yn y dydd: | | |
| Rhif Symudol: | | |

Nodwch ym mha rai o'r ffyrdd uchod yr hoffech i ni gysylltu â chi

---

**B: Ynglŷn â'ch cwyn (parhewch gyda'ch atebion i'r cwestiynau canlynol ar daflen(ni) ar wahân os oes angen)**

C.1 Enw'r aelod rydych yn cwyno amdanynt:

C.2 Beth ydych chi'n ei feddwl maent wedi'i wneud o'i le?

C.3 Ydych chi'n meddwl eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau a pham?

C.4 Disgrifiwch sut ydych chi wedi cael eich effeithio gan yr ymddygiad sy'n destun eich cwyn

C5. Pa bryd y daethoch yn ymwybodol gyntaf o'r mater sy'n destun eich cwyn?

C.6 Ydych chi eisoes wedi ceisio datrys eich cwyn gydag unrhyw un arall e.e. yr aelod yn uniongyrchol, arweinydd grŵp ac ati? Os ydych, rhowch fanylion cryno os gwelwch yn dda o sut, pa bryd y gwnaethoch, ac unrhyw ganlyniad.

C.7 Ticiwch pa ddull sydd orau gennych ar gyfer datrys o dan y Protocol

Cyfarfod Cyfryngu ☐

Cyfarfod Strwythuredig ☐

C.8 Beth ydych chi'n ei ddisgwyl ar ddiwedd y broses?

C.9 Os oes gennych unrhyw ddogfennau i gefnogi eich cwyn, rhowch nhw ynghlwm i'r ffurflen hon os gwelwch yn dda.

C.10 Rhowch enw a manylion cyswllt unrhyw dyst/tystion sydd wedi/yn cytuno i gefnogi eich cwyn os gwelwch yn dda.

Llofnod: ______________________ Dyddiad: _________________

Pan ydych wedi cwblhau'r ffurflen hon, anfonwch hi at:

Y Swyddog Monitro,

Adain Gyfreithiol, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW

E-bost: lbxcs@ynysmon.gov.uk

- Nodwch os gwelwch yn dda y bydd copi o'ch ffurflen ac unrhyw ddogfennau rydych yn eu hatodi yn cael eu rhannu gyda'r aelod sy'n destun eich cwyn.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mawrth 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Caniatâd arbennig cyffredinol i'r holl Gynghorwyr Sir mewn perthynas â ffioedd Addysgol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Sicrhau caniatâd arbennig cyffredinol ar gyfer tymor y Cyngor hwn** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Swyddog Monitro / Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)**<br>lbxcs@ynysmon.gov.uk<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor Sir ar gyfer Aelodau etholedig, bydd unrhyw Aelod sydd â diddordeb personol neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn eitem o fusnes yn cael ei eithrio rhag cymryd rhan. Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig a phenodol, gall Aelod oresgyn y rhwystr sy'n cael ei greu gan y diddordeb personol a'r diddordeb sy'n rhagfarnu drwy geisio cael caniatâd arbennig gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir.

## 2. PROSES

Rhaid i unrhyw Aelod sy'n dymuno cael caniatâd arbennig wneud cais ysgrifenedig sy'n nodi'r rhwystr ac yn nodi ar ba sail y mae'r cais yn cael ei wneud. Yna, bydd y Pwyllgor Safonau neu Banel priodol o'r Pwyllgor Safonau, yn cyfarfod i ystyried y cais. Cynhelir y gwrandawiad yn gyhoeddus fel arfer. Mae gan y Pwyllgor Safonau ddisgresiwn o ran a ddylid rhoi'r caniatâd arbennig ai peidio ac a ddylid gosod unrhyw gyfyngiadau mewn perthynas ag amgylchiadau'r cais fel bo'n briodol.

## 3. CAIS

Mae'r ffurflen gais i'w gweld yn **Atodiad A** ac mae'r amgylchiadau y mae wnelo'r caniatâd arbennig â nhw wedi eu nodi ym mharagraff 6 yr atodiad hwnnw. Mae'r rhesymau dros ofyn am y caniatâd arbennig wedi eu nodi ym mharagraff 7.

## 4. ARGYMHELLION

(a) Ystyried caniatáu'r cais am ganiatâd arbennig cyffredinol fel y caiff ei eirio yn **Atodiad B**.

(b) Fe ddylai unrhyw ganiatâd arbennig a roddir gynnwys yr holl gyfarfodydd yn ystod tymor presennol y Cyngor tan fis Mai 2022.

**ATODIAD A**

**CAIS I'R PWYLLGOR SAFONAU AM GANIATÂD ARBENNIG YN UNOL AG OS 2001 Rhif. 2279 (W. 169)**

1. **Enw'r Ymgeisydd**: Holl Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn y mae amgylchiadau'r cais yn berthnasol iddynt, fel ar 14 Mawrth 2018 neu ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Cyngor hyd at fis Mai 2022.

2. **Cyfeiriad yr Ymgeiswyr**: Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni

3. **Awdurdod Perthnasol**: Cyngor Sir Ynys Môn

4. **Pwyllgor / Pwyllgorau** Cyngor Llawn, Pwyllgor Gwaith, pwyllgorau, panelau, gweithgorau, cyfarfodydd ymgynghori a sesiynau briffio perthnasol ac ati ac i gynnwys cyflwyniadau llafar/ysgrifenedig

5. **Diddordeb wedi'i gofrestru yn unol ag Adran 81 (1) a (2) Deddf Llywodraeth Leol 200 (os yn berthnasol)**:

   Amherthnasol

6. **Manylion y diddordeb y gofynnwyd am Ganiatâd Arbennig yn ei gylch:**

   6.1 Yn 2015, bu'r Cyngor yn ystyried a ddylid cyflwyno ffioedd ai peidio mewn perthynas â chost gofal a ddarperir mewn clybiau brecwast yn yr ysgolion cynradd.

   6.2 Yn seiliedig ar 192 o ddiwrnodau ysgol mewn blwyddyn, y ffi uchaf a ragwelir fesul plentyn fyddai £384.

   Penderfynwyd felly bod ystyried y mater hwn yn creu diddordeb yn unol â Rhan 3.10(2)(c)(i) y Cod ac y byddai efallai'n bodloni'r diffiniad o ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn unol â pharagraff 12(1) o'r Cod.

   6.3 O'r herwydd, cyflwynwyd cais i'r Pwyllgor Safonau am Ganiatâd Arbennig ar ran yr holl Aelodau.

   Cafodd y Caniatâd Arbennig hwnnw ei roi ar 24.09.2015 tan ddiwedd tymor y Cyngor hwnnw ym Mai 2017.

   6.4 Bydd tymor y Cyngor presennol yn dod i ben ym Mai 2022 ac felly gwneir cais am ganiatâd arbennig pellach ar gyfer gweddill tymor y Cyngor hwn mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â chodi ffioedd mewn ysgolion nad yw'r eithriadau dan y Cod yn berthnasol iddynt. Mae'n amlwg bod hyn yn ymestyn y tu draw i'r sgôp sy'n ymwneud â ffioedd gofal sy'n codi yn sgil y ddarpariaeth o glybiau brecwast.

   Mae rhannau perthnasol y Cod Ymddygiad fel a ganlyn:-

**10(2)(c)(i) "Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef" a**

**12(1) "...os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus".**

Yn ychwanegol at hynny, mae'r Cod Ymddygiad yn darparu caniatâd arbennig ar gyfer y rhai hynny sydd â diddordeb sy'n rhagfarnu mewn rhai amgylchiadau penodol. Mae'r ddarpariaeth isod yn berthnasol yn hyn o beth:

**Paragraff 12(2)(b)(ii)**
**"nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw yn gysylltiedig â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Deddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg amser llawn, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu."**

6.5 Oherwydd y posibilrwydd y gellir codi ffioedd ar gyfer darpariaethau ac eithrio bwyd a gofal, nid yw'r caniatâd arbennig sy'n rhan o'r Cod yn uniongyrchol berthnasol i'r amgylchiadau hynny, ac nid yw'r categori hwn chwaith yn ymestyn i'r holl berthnasau a allai'n rhesymol olygu unrhyw "gysylltiad personol agos" o dan y Cod.

6.6 Er hynny mae paragraff 12(2)(b)(ii) uchod yn dynodi'n glir y bwriad statudol i ganiatáu i'r rheini sydd â'r diddordeb hwn / diddordebau tebyg y gallu i gymryd rhan lawn mewn trafodaethau ac i allu pleidleisio ar benderfyniadau yn y categori hwn (sef unrhyw ffi safonol sy'n ymwneud â gwasanaethau mewn ysgolion).

7. **<u>Y Sail Statudol y dibynnir arni i gefnogi'r Cais</u>**:

Adran 2(c), (d), (e) a (f) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd.

8. **<u>Dyddiad cyflwyno'r cais</u>**:

I'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau ar 14 Mawrth 2018

9. **Dyddiad erbyn pryd y mae angen penderfyniad**:

Dim dyddiad penodol. Efallai na fydd angen defnyddio unrhyw ganiatâd arbennig a roddir.

---

A. **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau**:

B. **Dyddiad y Penderfyniad**:

C. **Partïon i'w hysbysu**:

**ATODIAD B**

DRAFFT CANIATÂD ARBENNIG WEDI'I ROI GAN Y PWYLLGOR SAFONAU AR 14 MAWRTH 2018

Cytunodd y Pwyllgor Safonau yn unfrydol i'r canlynol:-

- Petai'r angen yn codi i holl Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn, y mae'r amgylchiadau yn berthnasol iddynt, gael caniatâd arbennig i siarad a phleidleisio lle mae ganddynt gysylltiadau personol agos (teulu neu ffrindiau) sy'n defnyddio Clybiau Brecwast mewn Ysgol Gynradd, neu wasanaethau cyfwerth / tebyg / cysylltiedig/ perthnasol mewn ysgolion nad yw'r eithriadau dan y Cod eisoes yn berthnasol iddynt.

- Rhoddir y caniatâd arbennig o dan Adran 2(c), (d), (e) a (f) o'r Pwyllgor Safonau (Gollyngiadau) (Cymru) Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd, 2(c)(d)(e)(f).

- Bydd gan unrhyw Aelod sy'n ymarfer yr hawl hwn ganiatâd i siarad a phleidleisio ar faterion o'r fath.

- Bydd y caniatâd arbennig yn ymestyn i unrhyw ystyriaethau o'r mater hwn yn y dyfodol (neu wasanaeth ysgolion cyfwerth / tebyg / cysylltiedig/ perthnasol) ar gyfer Aelodau y mae eu tymor yn dechrau ym Mai 2017, neu hwyrach os ydynt wedi eu hethol o ganlyniad i isetholiad, o Gyngor Sir Ynys fôn ar gyfer gweddill tymor y Cyngor h.y. tan Mai 2022.

- Bydd Aelodau yn parhau i fod â diddordeb personol o dan y Cod y bydd angen iddynt ei ddatgan ar ddechrau'r cyfarfod neu ar ddechrau unrhyw eitem berthnasol. Mae angen i ffurflenni datgan diddordeb Aelodau gadarnhau eu bod yn dibynnu ar y caniatâd arbennig a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar 14 Mawrth 2018.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mawrth 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad ar gyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru 24 Tachwedd 2017 a chyfarfod Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2017.** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Diweddaru'r Aelodau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeirydd y Pwyllgor Safonau – Mike Wilson** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## A FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

### 1. CEFNDIR

1.1 Cynhaliodd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru (sydd bellach yn cynnwys Powys a Cheredigion) gyfarfod ar 24 Tachwedd 2017. Mae copi o'r Rhaglen a'r Cofnodion wedi eu hatodi fel **Atodiad 1**.

1.2 Dilynodd y cyfarfod drefn y Rhaglen a gyhoeddwyd.

### 2. CYFARFOD Y FFORWM AR 24 TACHWEDD 2017

2.1 **Anwytho Aelodau Newydd a Hyfforddiant ar faterion Moesegol**

Cafwyd trafodaeth yn y grŵp am y ffordd y mae pob awdurdod yn mynd ati i hyfforddi ac anwytho aelodau newydd, yn enwedig mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

Gan gofio pwysigrwydd y Cod Ymddygiad, cafwyd trafodaeth ymysg y rhai a oedd yn bresennol a ddylai'r hyfforddiant fod yn orfodol ai peidio.

Cadarnhaodd Dirprwy Swyddog monitro Wrecsam nad oedd unrhyw ofyniad statudol i hyn a beth bynnag, beth fyddai'r gosb pe na fyddai Aelodau'n mynychu.

Mewn rhai awdurdodau roedd hyfforddiant Cod Ymddygiad a mathau eraill o hyfforddiant, e.e. gweithdrefnau cynllunio yn fathau gorfodol o hyfforddiant ac os nad oedd yr aelodau hynny, a oedd yn eistedd ar y pwyllgorau

perthnasol, wedi ymgymryd â'r hyfforddiant, ni fyddent yn cael cyflawni eu dyletswyddau ar y Pwyllgor.

Roedd awdurdodau amrywiol yn annog yr holl aelodau newydd a hyd yn oed aelodau profiadol i fynychu hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau.

Awgrymwyd mai cyrsiau hyfforddiant sy'n para tua 1.5 awr oedd yr hyd gorau.

Darparwyd sleidiau ar y Cod Ymddygiad yn y pecyn gan CLlLC. Roedd yna hefyd fideo ar gael gan swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ond nid oedd y rhai hynny a oedd wedi gweld y fideo yn ei hystyried yn ddefnyddiol.

Trefnodd Awdurdodau hyfforddiant ar amseroedd ac mewn lleoliadau cyfleus er mwyn annog ffigyrau presenoldeb.

Yn debyg, mewn perthynas â hyfforddiant cynghorau tref a chymuned, ceisiodd y prif gyngor ym mhob ardal sicrhau presenoldeb da mewn sesiynau ac fe drefnwyd y sesiynau hyn ar wahanol amseroedd ac mewn gwahanol leoliadau gydag aelodau'r pwyllgorau safonau yn mynychu yn aml hefyd. Cafodd dewis iaith ei ystyried wrth drefnu'r cyfarfodydd hyn hefyd.

Roedd hyfforddiant ar bethau eraill megis y cyfryngau cymdeithasol bellach yn cael ei ystyried yn rhywbeth hanfodol y dylai Aelodau fod yn ymwybodol ohono. Mae Awdurdodau megis Ynys Môn wedi cynnal cyrsiau ar hyn yn y gorffennol, rhywbeth a gafodd ei ganmol gan y rhai a fynychodd ac mae'r CLlLC hefyd wedi cyhoeddi arweiniad ar hyn.

Mae rhai awdurdodau hefyd yn cyhoeddi cofnodion hyfforddiant eu haelodau ar eu gwefannau.

2.2 **<u>CLlLC-5 mlynedd i wneud gwahaniaeth</u>**

Rhoddodd Cadeirydd Ynys Môn – Mike Wilson – adborth ar ei bresenoldeb yn y Gynhadledd Ranbarthol a gynhaliwyd yng Nghonwy ar 3 Tachwedd 2017.

Roedd y gynhadledd wedi'i hanelu at gynghorwyr newydd yn bennaf ond ychydig iawn oedd yn bresennol.

Dywedodd ei fod wedi bod yn ddiwrnod addysgiadol wrth i gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru (Mark Drakeford) a CLlLC (Steve Thomas) roi cyflwyniadau.

Cafwyd cyngor defnyddiol i gynghorwyr newydd ar sut i osgoi cael eu hunain mewn sefyllfaoedd lletchwith lle gellid derbyn cwyn o ymddygiad amhriodol.

2.3 **<u>Gweithdrefn ar gyfer delio â chwynion yn erbyn Aelodau</u>**

Cafwyd trafodaeth ymysg y rhai hynny a oedd yn bresennol o ran beth ddylai awdurdod ei wneud petai cwyn o gamymddygiad rhywiol yn cael ei wneud gan swyddog yn erbyn aelod.

Pethau posibl i'w hystyried cyn cymryd camau gweithredu:

A yw'n fater i'r Heddlu/Rheoleiddiwr neu a yw'n fater mewnol?

Difrifol ynteu lefel isel?

A oes angen gweithredu polisïau AD ai peidio? e.e. Polisi Cwynion, Gwrth-Fwlio/Aflonyddu.

A yw'r protocol Aelodau / Swyddogion yn berthnasol neu o unrhyw gymorth?

Dyletswydd gofal i'r swyddog/cynghorydd?

A oes gennym brosesau priodol yn eu lle?

Beth yw'r camau i'w cymryd ar lefel gyfreithiol / ymarferol?

Gwahaniaethau rhwng cwyn a gweithred y gellir ei chymryd ar lefel wleidyddol mewn perthynas ag aelod o'r pwyllgor gwaith h.y. terfynu penodiad aelod o'r pwyllgor gwaith yn hytrach nag aelod etholedig arferol.

Rôl arweinyddion grwpiau

Pwerau'r Pwyllgor Safonau / Swyddog Monitro

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Gwaharddiad dros dro?

Argymhelliad i ddrafftio llythyr i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn cael arweiniad ar y materion hyn.

Ynys Môn i ddrafftio (ynghlwm yn **Atodiad 2**).

Gobeithio cael ymateb erbyn cyfarfod nesaf y fforwm.

2.4. **Unrhyw Fater Arall**

a) Hyfforddiant cyfryngu – roedd hyn yn rhywbeth y cyfeiriwyd ato'n flaenorol yn y cyfarfod diwethaf o'r Fforwm ac roedd Swyddog Hyfforddiant Sir Ddinbych yn rhoi sylw i hyn. Fodd bynnag, ni chafwyd diweddariad ar hyn gan nad oedd Swyddog Monitro Sir Ddinbych yn bresennol yn y cyfarfod.

b) Cyd-bwyllgor Safonau Rhanbarth Gogledd Cymru? -

Roedd nifer o resymau dros roi sylw i hyn ac un ohonynt oedd yr anhawster wrth geisio recriwtio aelodau annibynnol i'r Pwyllgor Safonau a'r Panel Dethol.

Mae yna bellach rym statudol i sefydlu pwyllgor safonau ar y cyd petai awdurdodau yn cytuno i wneud hynny.

Un o’r pethau a oedd yn achosi oedi oedd y ffaith bod yr awdurdodau yn dymuno disgwyl am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r ad-drefnu posibl. Nid yw’r sefyllfa’n glir ar hyn o bryd.

Awgrymwyd hefyd y dylid cael proses gyffredin ar gyfer recriwtio aelodau annibynnol gan ei bod yn ymddangos efallai bod gwahanol awdurdodau yn ymdrin â gwahanol brosesau o fewn y gofynion statudol.

c) **Cynhadledd Safonau 2018** 14 Medi 2018 yng Ngheredigion. Manylion pellach i ddilyn pan fyddant yn hysbys.

# FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU
# NORTH WALES STANDARDS COMMITTEES FORUM

## Dydd Gwener, 24 Tachwedd 2017 am 10.00 am
## Friday, 24 November 2017 at 10.00 am

## Ystafell Gyfarfod 1, Neuadd y Dref, Wrecsam
## Meeting Room 1, Guildhall, Wrexham

**At y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Swyddog Monitor y:-**
**To the Chair, Vice-Chair and Monitoring Officer of:-**

**Pwyllgor Safonau Ynys Môn / Isle of Anglesey Standards Committee**

**Pwyllgor Safonau Conwy Standards Committee**

**Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych / Denbighshire Standards Committee**

**Pwyllgor Safonau Sir y Fflint / Flintshire Standards Committee**

**Pwyllgor Safonau Gwynedd Standards Committee**

**Pwyllgor Safonau Wrecsam / Wrexham Standards Committee**

**Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub / Fire and Rescue Authority Standards Committee**

**Pwyllgor Safonau Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park Standards Committee**

**Pwyllgor Safonau Ceredigion Standards Committee**

**Pwyllgor Safonau Powys Standards Committee**

---

Gwasanaethau Democratig/ Democratic Services,
Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY / Guildhall, Wrexham, LL11 1AY
01978 292236 jane.johnson@wrexham.gov.uk

# R H A G L E N / A G E N D A

Sylwer – Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972, gellir gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg rhag mynychu'r cyfarfod pan gaiff eitemau eu hystyried lle mae gwybodaeth waharddedig yn debygol o gael ei datgelu.

Note - In accordance with the provisions of the Local Government Act 1972, the Public and Press may be excluded from the meeting during consideration of items where exempt information is likely to be disclosed.

**1** **Penodi Cadeirydd ar gyfer y Cyfarfod**

**2** **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

**3** **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2017**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir wedi'i - amgáu.
*(Tudalennau 3 - 8)*

**4** **Cyfarfod sefydlu a hyfforddiant materion moesegol ar gyfer aelodau newydd**
I dderbyn adborth am yr hyfforddiant, trafod dulliau gwahanol o gyflenwi ac arferion da ac a gynigiwyd hyfforddiant i Gynghorau Cymuned.
(Mae deunyddiau hyfforddi CLILC ynghlwm fel gwybodaeth gefndir)
*(Tudalennau 9 - 34)*

**5** **CLILC - 5 mlynedd i Wneud Gwahaniaeth**
Michael Wilson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ynys Môn, i ddarparu adborth am y digwyddiad rhanbarthol diweddar i gynghorwyr newydd gyda ffocws ar y Cod Ymddygiad a'r peryglon i Gynghorwyr lleol.

**6** **Gweithdrefnau i ddelio â honiadau yn erbyn Aelodau**
Eitem i'w thrafod

# FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Llun, 10 Ebrill 2017 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Cyngor Sir Ddinbych – Ian Trigger
Cyngor Sir Ynys Môn - Mared Yaxley, Mike Wilson ac Islwyn Jones
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - John Roberts ac Iain Moore
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Michael Pugh a Neil Benson
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Rachael M. Davies

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyngor Sir Ddinbych, Swyddog Monitro - Gary Williams
Gweinyddwr Pwyllgorau - Sharon Walker

## 1 PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Cytunwyd yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2016 yn Llangefni y byddai'r Fforwm yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn mewn Awdurdod Lleol gwahanol yn ei dro, ac yn cael ei gadeirio a'i weinyddu gan yr awdurdod cynnal gyda Swyddog Monitro'r awdurdod cynnal yn bresennol. Felly, penodwyd Ian Trigger, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan Sharon Warne, Einir Young a Jane Eyton-Jones.

## 3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 HYDREF 2016

Cyflwynwyd cofnodion Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Llangefni ar 17 Hydref, 2016.

Cynigiwyd y cofnodion gan Mike Wilson a'u heilio gan Islwyn Jones.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2016 fel cofnod cywir.*

## 4 AELODAETH ESTYNEDIG Y FFORWM

Esboniodd y Cadeirydd fod Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ceredigion wedi cysylltu ag o i ganfod a fyddai modd i gynrychiolwyr Pwyllgor Safonau Ceredigion ynghyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Cymru a Phwyllgor Safonau Powys ymuno ag aelodaeth Fforwm Safonau Gogledd Cymru.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei fod wedi ymgynghori â holl Swyddogion Monitro Gogledd Cymru a nododd nad oedd unrhyw broblemau ynghylch y cais hwn. Yr unig broblem fyddai teithio, ond byddai croeso mawr iddyn nhw fynychu'r cyfarfodydd.

Yn ystod y drafodaeth, cytunodd aelodau eu bod o blaid y tri Awdurdod yn mynychu cyfarfodydd gan fod rota'r cyfarfodydd wedi'i chadarnhau am y ddwy flynedd nesaf.

Nododd y Swyddog Monitro y byddai'n cysylltu â Swyddogion Monitro eraill Gogledd Cymru ac y byddai un yn cael ei enwebu i ysgrifennu, gyda gwahoddiad yn atodi rota'r cyfarfodydd.

***__PENDERFYNWYD__*** *fod Swyddog Monitro enwebedig yn ysgrifennu i wahodd y tro Awdurdod i fynychu cyfarfodydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru, ac atodi rota o gyfarfodydd er gwybodaeth.*

## 5 PROTOCOL DATRYSIADAU LLEOL ENGHREIFFTIOL AR GYFER CYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Fforwm fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn mynd i gyflwyno Protocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Yn dilyn ymgynghoriad ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, roedd Un Llais Cymru yn llunio'r Protocol Datrysiadau Lleol drafft. Codwyd y mater i ganfod barn aelodau'r Fforwm.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n ysgrifennu at y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i ganfod eu barn ar y Protocol Datrysiadau Lleol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cael Gweithdrefn Ddatrys Leol yn ddefnyddiol yn ei farn o.

Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd y byddai'r Protocol yn ddefnyddiol iawn i gael cysondeb ymysg y cynghorau.

Roedd y Fforwm o'r farn y dylai Un Llais Cymru fod wedi ymgynghori â Chynghorau ynghylch creu drafft o'r Protocol.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod Clercod o blaid y Protocol ac y byddai'r drafft yn bwynt dechrau eithriadol ar gyfer y fersiwn derfynol.

Awgrymwyd bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Un Llais Cymru i ymholi a oedd ymgynghoriad wedi'i gwblhau ac i fynegi siom y Fforwm yn y ffaith na chynhaliwyd ymgynghoriad gydag Awdurdodau Lleol a Phwyllgorau Safonau. Pwynt arall a godwyd oedd nad ymddengys fod unrhyw rôl ar gyfer y Pwyllgorau Safonau, ond y dylid ystyried hynny hefyd. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn gytûn.

***PENDERFYNWYD:***

- *Bod y Fforwm yn gytûn o ran cael Protocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned;*
- *Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Un Llais Cymru i fynegi siom y Fforwm yn y diffyg ymgynghori, ynghyd â dim rôl ar gyfer Pwyllgorau Safonau.*

**6 CYFARFOD SEFYDLU A HYFFORDDIANT AR FATERION MOESEGOL I AELODAU NEWYDD**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro y Cyfarfod Sefydlu a Hyfforddiant ar Faterion Moesegol i Aelodau Newydd.

Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried cynhyrchu set o ddeunydd hyfforddi i'w ddefnyddio ar draws Cymru. Cafodd hyn ei gyflwyno i Bwyllgor Safonau Sir Ddinbych a oedd o blaid y syniad.

Awgrymwyd bod Clercod yn mynychu hyfforddiant er mwyn eu galluogi i ailgyflwyno'r hyfforddiant i'w Haelodau. Byddai pecyn e-ddysgu yn cael ei lunio hefyd, er mwyn galluogi i'r hyfforddiant fod yn fwy hygyrch, a dylai fod ar gael ddechrau mis Mai 2017.

Eglurodd yr aelodau a oedd yn bresennol y cynlluniau hyfforddi oedd ganddyn nhw ar waith ar gyfer Cynghorwyr, a chadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd terfynau amser ar gyfer cynnal yr hyfforddiant. Er enghraifft, hyfforddiant Cod Ymddygiad hanfodol i'w gynnal o fewn cyfnod o amser byr yn dilyn yr etholiad, a sesiwn hyfforddi gloywi i'w gynnal ymhen 18 mis. Cadarnhaodd hefyd y byddai ar gael i fynychu sesiwn hyfforddiant byr pe bai gan Glercod unrhyw faterion penodol.

Cadarnhawyd nad oedd gan Awdurdodau Lleol eraill, oni bai am Sir Ddinbych, hyfforddiant Cod Ymddygiad hanfodol yn eu cyfansoddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Fforwm yn cytuno ar y Cyfarfod Sefydlu a'r Hyfforddiant ar Faterion Moesegol i Aelodau Newydd.*

**7 GWEFANNAU CYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED**

Cyflwynodd Mike Wilson o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn yr eitem. Nododd fod pob Cyngor Tref a Chymuned wedi cael grant o £500 i helpu i sefydlu eu gwefannau. Yn Ynys Môn, roedd ganddynt 40 o Gynghorau Tref a Chymuned gyda graddau amrywiol o safonau gwefan. Roedd ychydig heb wefan ac un heb gyfrifiadur.

Yn ystod y trafodaethau, cadarnhawyd bod nifer o wefannau Cynghorau Tref a Chymuned yn cynnwys hen wybodaeth.

Cytunodd yr aelodau y dylid diweddaru'r gwefannau er tryloywder, yn ogystal â'r ffaith y byddai'r archwilwyr allanol yn gwirio digonolrwydd y gwefannau.

Awgrymodd y swyddog Monitro fod aelodau o’r Pwyllgor Safonau yn mynychu’r Cynghorau Tref a Chymuned, er mwyn annog y Clercod i gysylltu â’i gilydd i helpu gyda’r gwefannau.

Roedd Ynys Môn wedi anfon adroddiadau i bob Cyngor Cymuned gan ofyn iddynt ymateb o fewn 12 mis.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Fforwm yn cytuno bod gwybodaeth ddiweddar yn cael ei chynnwys ar y gwefannau, gan ofyn am gymorth gan Glercod cyfagos pe bai angen.*

**8 DEFNYDDIO PWYLLGORAU SAFONAU AWDURDOD CYFAGOS AR GYFER GWRANDAWIADAU SY’N YMWNEUD AG ANGHYTUNDEBAU MEWNOL**

Cyflwynodd y Pwyllgor Monitro y defnydd o Bwyllgorau Safonau Awdurdod cyfagos ar gyfer Gwrandawiadau sy’n ymwneud ag anghytundebau mewnol.

Yn ystod trafodaeth, roedd pawb yn gytûn na ddylid defnyddio Pwyllgorau Safonau Awdurdod cyfagos. Y prif reswm am hyn oedd bod aelodau Pwyllgorau Safonau yn aelodau annibynnol, oni bai am aelodau’r cyngor sir. Pe bai aelodau’r cyngor sir yn cymryd rhan, yna efallai y byddai angen amdano, ond fel arall roedd y Pwyllgor Safonau yn broffesiynol annibynnol i ddelio â’r materion.

Byddai defnyddio Pwyllgorau Safonau Awdurdodau cyfagos yn broses ddrud hefyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Fforwm yn cytuno y dylid cynnwys Pwyllgor Safonau Awdurdod cyfagos mewn gwrandawiadau pe ceid amgylchiadau eithriadol yn unig, oherwydd bod y Pwyllgor Safonau yn broffesiynol annibynnol i ddelio â gwrandawiadau.*

**9 UNRHYW FATER ARALL**

Tynnodd Mike Wilson o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn sylw at y ffaith bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi gwrthod cwyn yn ddiweddar, ond wedi argymell hyfforddiant ar gyfer y cynghorwyr dan sylw.

Roedd y cynghorwyr dan sylw wedi mynychu hyfforddiant ym mis Mai 2016, ac felly roedd y Pwyllgor Safonau yn ansicr o ran pa hyfforddiant y dylid ei ddarparu.

Am nad oedd yr holl wybodaeth ar gael, awgrymwyd eu bod yn cysylltu â swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ganfod pa hyfforddiant sydd i’w gynnig i’r cynghorwyr.

------o0o------

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at hyfforddiant cyfryngu. Roedd Swyddog Hyfforddiant Sir Ddinbych i gysylltu ag eraill yn yr ardal i fynd â'r mater yn ei flaen. Byddai'r sesiynau hyfforddi yn para am 5 diwrnod.

Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ym mis Tachwedd (dyddiad i'w gadarnhau) yn Wrecsam.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 a.m.**

**ATODIAD 2**

Llythyr Drafft at Katrin Shaw – Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Annwyl Katrin,

Anfonir y llythyr hwn atoch ar ran Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru (sydd bellach yn cynnwys ardaloedd Ceredigion a Phowys hefyd).

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm ar 27 Tachwedd yn Wrecsam ac un o'r Pynciau a drafodwyd oedd yr hyn y gallai, ac y dylai, Awdurdodau Lleol ei wneud petaent yn derbyn Cwyn o natur ddifrifol yn erbyn Aelod, e.e. Camymddwyn Rhywiol yn erbyn Swyddog/aelod o staff yn y Cyngor – gan dybio nad yw'n fater i'r Heddlu.

Cytunodd y Fforwm y dylai anfon llythyr at Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gofyn am eglurhad ac arweiniad ar nifer o faterion, sef:-

1. Pa bwerau sydd gan yr Ombwdsmon i weithredu os ceir cwyn ddifrifol megis yr un uchod?

2. Rydym yn deall y gall Panel Dyfarnu Cymru wahardd person yn seiliedig ar adroddiad interim ac argymhelliad gan yr Ombwdsmon. Beth yw'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cymryd camau o'r fath?

3. Pa arweiniad fyddai modd iddo ei roi ar y trefniadau ymarferol mewn perthynas ag Aelodau sydd wedi cael eu cyhuddo o Ymddygiad o'r fath oherwydd eu statws etholedig, e.e.

    a) rydym yn rhagdybio na fyddai modd i'r Cyngor atal Aelod rhag cynrychioli eu hetholwyr
    b) cyflawni eu dyletswyddau Cyngor arferol
    c) mewn perthynas â'r gwrthdaro posibl a all godi rhwng dyletswydd gofal yr Awdurdod Lleol i swyddogion ac i Aelodau mewn perthynas â'r gŵyn
    d) dod i adeiladau'r Cyngor
    e) A ddylai'r Cyngor fod yn cynnig rhyw fath o ofal bugeiliol i Aelodau, e.e. Cwnsela Cyfrinachol? yn yr un modd ag y byddent ar gyfer swyddogion dan y ddyletswydd gofal?

4. Pa ganllawiau fedr yr Ombwdsmon eu cynnig ar gwynion yn erbyn aelod o'r Pwyllgor Gwaith o gymharu ag Aelod cyffredin.

5. A fedr gynnig unrhyw ganllawiau mewn perthynas ag:

    Arweinydd y Cyngor
    Swyddog Monitro
    Pwyllgor Safonau
    Arweinyddion Grwpiau
    o ran eu cylch gorchwyl i weithredu neu beidio yn y sefyllfa hon

Ar ôl y cyfarfod o'r Fforwm, rydym yn deall y cynhaliwyd cyfarfod o Gyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru yn Llandrindod ar 1 Rhagfyr – cyfarfod a fynychwyd gennych chi, Swyddogion Monitro o Awdurdodau Lleol ar draws Cymru a chynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Un o'r pynciau ar y Rhaglen oedd y senario uchod.

Rydym ar ddeall eich bod wedi cytuno i fynd â'r mater yn ôl a'i drafod gyda'r Ombwdsmon ac, o bosib, i baratoi canllawiau ar y mater hwn.

Os bydd canllawiau'n cael eu drafftio, a fyddai modd i eraill gyflwyno sylwadau arnynt cyn cyhoeddi fersiwn derfynol?

Hefyd, beth yn eich barn chi fydd yr amserlen o ran paratoi'r canllawiau?

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir iawn

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mawrth 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiad Blynyddol o Gofrestrau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar gynnydd** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Adolygiad Blynyddol o'r Cofrestrau isod -

Cofrestr Sefydlog - Cofrestru Diddordebau

Datganiadau mewn cyfarfodydd

Anrhegion a Lletygarwch

yn ymddangos bob blwyddyn fel arfer yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd Adolygiad y llynedd oherwydd etholiadau'r Cyngor Sir.

1.2 Ar hyn o bryd mae 30 o gynghorwyr sir ac mae pob un o'u cofrestrau, yn ogystal â chofrestrau'r aelodau cyfetholedig ar bwyllgorau'r Cyngor, wedi cael eu hadolygu neu i'w hadolygu.

1.3 Er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth ar y cofrestrau yn gywir ac yn gyfredol anfonwyd e-bost at bob cynghorydd ar 21.11.17 yn gofyn iddynt wirio, cadarnhau a diweddaru / ychwanegu unrhyw wybodaeth bellach. Rhoddwyd cyfarwyddiadau iddynt hefyd ynghylch sut i weld a diweddaru eu gwybodaeth drwy'r system Mod.Gov . Gweler **Atodiad 1** os gwelwch yn dda.

1.4 Dechreuodd y broses ar gyfer adolygu'r cofrestrau ym mis Ionawr 2018 gydag aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn ymgymryd â'r dasg.

1.5 Y wybodaeth a adolygwyd / adolygir yw: -

Y tair Cofrestr a ddisgrifir uchod ym mhargraff 1.1

Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau

Cofnodion a Rhaglenni cyfarfodydd

Hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor a Chofnodion Hyfforddiant cyfatebol yr Aelodau

Rhestr o Gyrff Allanol

1.6 Hyd yn hyn, mae aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi adolygu'r wybodaeth ym mharagraff 1.5 uchod sy'n ymwneud ag aelodau etholedig y Cyngor Sir; nid yw'r adolygiad o gofrestrau'r 12 aelod cyfetholedig wedi ei gynnal hyd yma.

1.7 Cyfarfu aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau ar 14 Chwefror 2018 i ddwyn ynghyd y wybodaeth a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiadau a gynhaliwyd ganddynt a chymerwyd y camau canlynol yn sgil hynny: -

1. Anfonwyd negeseuon e-bost unigol at rai cynghorwyr sir yn gwneud argymhellion ar gyfer adolygu / diweddaru / egluro gwybodaeth a gyhoeddwyd;

2. Lle ystyriwyd bod hynny'n briodol, gofynnwyd am gyfarfodydd rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a chynghorwyr sir;

3. Trefnwyd cyfarfod rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd / TGCh i drafod y posibilrwydd o gyhoeddi rhagor o wybodaeth ynghylch presenoldeb aelodau mewn sesiynau hyfforddiant / datblygu a chyfarfodydd (gan gynnwys cyrff allanol), ynghyd â'r potensial i sefydlu system sy'n haws i'w defnyddio fel y gall y cyhoedd gysylltu o un set ddata i set ddata arall gyda chyn lleied o anhwylustod â phosib a hefyd i ymchwilio i drefniadau ar gyfer cael atborth o gyrff allanol;

4. Gwneud ymholiadau (mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad) ynghylch diogelu a chynllunio, i ddeall yn well pa hyfforddiant gorfodol sydd ei angen a sut y sicrheir cydymffurfiaeth.

    a. Nid yw pum aelod etholedig wedi cael sesiwn hyfforddi a datblygu ar y Côd Ymddygiad ers yr etholiad ym mis Mai 2017. Mae Cadeirydd

y Pwyllgor Safonau wedi ysgrifennu at yr aelodau hynny yn gofyn iddynt ymgymryd â'r Modiwl e-ddysgu ynghylch Moeseg a Safonau o fewn 28 diwrnod. Gweler **Atodiad 2** os gwelwch yn dda.

b. E-bost i'w anfon at y Prif Swyddog Cynllunio yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â hyfforddiant gorfodol yn y maes Cynllunio.

c. Anfonwyd e-bost at y Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu), Gwasanaethau Plant ar 14 Chwefror, 2018. Cafwyd ymateb ond gofynnwyd am eglurder pellach.

ch. Cais i'r Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, fel sy'n briodol, i sicrhau y cyhoeddir y ffurflenni datgan diddordeb mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig, ynghyd â bywgraffiadau a ffotograffau. Mae **Atodiad 3** ynghlwm.

5. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod gyda'r Arweinyddion Grŵp ar ôl 14 Mawrth 2018 i gadarnhau: -

   i. Canfyddiadau cyffredinol, y bydd yr holl aelodau yn cael copi ohonynt;

   ii. Unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth ynghylch hyfforddiant i aelodau a'r cyfarfodydd a fynychwyd ganddynt;

   iii. Unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â gweithdrefn fwy ffurfiol ar gyfer bwydo gwybodaeth yn ôl o gyrff allanol i'r Cyngor;

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Cadarnhau'r camau a gymerwyd yn unol â chyfarwyddiadau'r Pwyllgor ar 14 Chwefror 2018.

2.2 Nodi unrhyw gamau pellach y mae angen eu cymryd yn dilyn yr adolygiad o'r cofrestrau.

2.3 Cytuno pa drefniadau a roddir ar waith i adolygu'r cofrestrau o ddiddordebau a'r hyfforddiant ar gyfer 12 aelod cyfetholedig y Cyngor Sir.

2.4 Penderfynu a yw'r Pwyllgor yn dymuno cynnal adolygiad pellach yn 2019 ynteu canolbwyntio ar gynghorau tref / cymuned.

| | |
|---|---|
| **From:** | Medwen Jones |
| **To:** | Aelodau Members; Anest Frazer; Dafydd Menter Mon; Denise Harris-Edwards 1; Denise-Harris Edwards; Dilys Shaw; Dilys Shaw 1; Islwyn Jones; Keith Roberts; Michael Wilson; John Mendoza; Dilwyn Evans |
| **Cc:** | Sioned W Sinclair; Anwen Jones |
| **Subject:** | FW: ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU DATGAN DIDDORDEB GAN Y PWYLLGOR SAFONAU / REVIEW OF THE REGISTERS OF INTERESTS BY THE STANDARDS COMMITTEE (19486) |
| **Date:** | 27 November 2017 16:14:29 |
| **Attachments:** | image001.jpg |

Annwyl Gynghorydd/Aelod Cyfetholedig

Ymhellach i'm ebost dyddiedig 21 Tachwedd 2017, nodaf isod cyfarwyddiadau i ddiweddaru'r cofrestrau ar-lein.

- Logio i mewn https://democracyextranet.anglesey.gov.uk/mgWorkToDo.aspx
- Cliciwch ar y tab 'Options'.
- Dewiswch 'Edit my register of interests'
- Cliciwch ar 'Update interests' (ar frig y dudalen)
- Llenwch y ffurflen yn y Gymraeg neu'r Saesneg, er enghraifft (Cartref / Home)
- Ar ôl gorffen, cliciwch y botwm 'Submit for Signoff' (ar waelod y dudalen)
- Bydd ebost yn cael ei anfon at Sioned W Sinclair, Tîm y Wefan i'w awdurdodi.

Os byddwch angen cymorth pellach, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Sioned Sinclaire yn yr Adran TGCh (swsfi@ynysmon.gov.uk / 01248 752628)

Cofion

Mike Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council

*********************

Dear Councillor/Co-opted Member

Further to my email 21st November 2017, I note below instructions on updating the online registers.

- Login https://democracyextranet.anglesey.gov.uk/mgWorkToDo.aspx
- Click on the '**Options'** tab.
- Select **'Edit my register of interests'**
- Click on **'Update Interests'** (at the top of the page)
- Fill in the form in Welsh and English for example (Cartref / Home)
- When finished click on the **'Submit for Signoff'** button (at the bottom of the page)
- An email will be sent to Sioned W Sinclair, Web Team for authorisation.

If you require further assistance would you please contact Sioned Sinclair in ICT (swsfi@anglesey.gov.uk / 01248 752628)

Many thanks

Mike Wilson
Chair of the Standards Committee
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council

http://monitor.anglesey.gov.uk/download/49730

---

**From:** Medwen Jones
**Sent:** 21 November 2017 15:58
**To:** Aelodau Members <AelodauGW6@anglesey.gov.uk>; Anest Frazer <'anestgrayfrazer@churchinwales.org.uk'>; Dafydd Menter Mon <'dafydd@mentermon.com'>; Denise Harris-Edwards 1 <romaineharrisedwards@gmail.com>; Denise-Harris Edwards <Denise-HarrisEdwards@ynysmon.gov.uk>; Dilys Shaw <DilysShaw@ynysmon.gov.uk>; Dilys Shaw 1 <dws121@hotmail.com>; Islwyn Jones <IslwynJones@ynysmon.gov.uk>; Keith Roberts <'keith.roberts31@gmail.com'>; Michael Wilson <MichaelWilson@ynysmon.gov.uk>; Richard Barker <RichardBarker@ynysmon.gov.uk>; Sharon Warnes <SharonWarnes@ynysmon.gov.uk>
**Cc:** Anwen Jones <AnwenJones@ynysmon.gov.uk>; Lynn Ball <LynnBall@ynysmon.gov.uk>
**Subject:** ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU DATGAN DIDDORDEB GAN Y PWYLLGOR SAFONAU / REVIEW OF THE REGISTERS OF INTERESTS BY THE STANDARDS COMMITTEE (19486)

Annwyl Gynghorydd/Aelod Cyfetholedig

Ysgrifennaf i'ch atgoffa bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnal ei adolygiad blynyddol o'r Cofrestrau sy'n cael eu dal gan y Cyngor ynglyn â datganiadau o ddiddordebau gan Gynghorwyr / Aelodau Cyfethioledig yn fuan.

Cyn cynnal yr adolygiad yn ystod mis Ionawr/Chwefror 2018 rhoddir cyfle i Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig edrych ar eu manylion yn y Cofrestrau a'u gwirio er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir.  Byddwch yn gwerthfawrogi bod yn rhaid rhoi gwybod am unrhyw newid o fewn 28 diwrnod i'r newid hwnnw gael ei wneud.

Mae 3 Cofrestr ar gael yn awr ar-lein a gellir eu gweld trwy ddilyn y cyswllt canlynol :-

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/cynghorwyr-ac-aelodau-cyfetholedig-syn-pleidleisio-datganiadau-diddordeb?redirect=false

Felly, byddwn yn ddiolchgar petaech yn gwirio'r yr ydych wedi ei gofnodi yn y gofrestr a'u diweddaru hwy os yn briodol. Mae'n hanfodol fod yr holl ddiweddariadau i'r Gofrestr Sefydlog a'r Gofrestr o Roddion a Lletygarwch yn cael eu diweddaru drwy'r system Mod Gov. a bydd angen gwneud unrhyw ddiweddariadau i'r gofrestr o ddiddordebau mewn cyfarfodydd drwy'r Adain Bwyllgorau. Bydd y Pwyllgor Safonau hefyd yn adolygu cofnodiadau hyfforddiant ac adroddiadau blynyddol yr Aelodau.

Yn gywir

Mike Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council

******************

Dear Councillor/Co-opted Member

I write to remind you that the Standards Committee will soon be carrying out its annual review of the Registers in respect of declarations of interests by Councillors / Co-opted Members, which are held by the Council.

Before the review takes place, during January/February 2018 the opportunity is given to Councillors and Co-opted Members to look at their details in the Registers and to check them for completeness and accuracy. You will appreciate that any changes must be notified within 28 days of the change having occurred.

The 3 Registers are now available on line and can be accessed by the following link :-

http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/councillors/councillors-and-voting-co-opted-members-declarations-of-interest/

Therefore, I should be obliged if you would check your entries in the registers and update them if appropriate. It is compulsory that all updates to the Standing Register, and Register of Gifts and Hospitality, are updated via the Mod Gov system, while any updates to the Register of Interests in Meetings will need to be done via the Committee Section. The Standards Committee will also be reviewing Members' training records and annual reports.

Yours sincerely

Mike Wilson
Chair of the Standards Committee
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council

http://monitor.anglesey.gov.uk/download/49730

**From:** Lynn Ball
**To:**
**Cc:** Michael Wilson
**Subject:** Adolygiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau o"r Tri Cofrestr o Diddordebau Aelodau / Standards Committee Review of the Three Registers of Members" Interests (19486)
**Date:** 26 February 2018 13:25:09

---

Annwyl Gynghorydd,

Fel rhan o'i adolygiad yn ddiweddar, nododd y Pwyllgor Safonau nad ydych, ers yr etholiad diwethaf ym mis Mai 2017, wedi mynychu sesiwn ddatblygu ar y Côd Ymddygiad i Aelodau.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Safonau wedi nodi bod sesiwn datblygu aelodau, sef "Moesau a Safonau" bellach ar gael ar lwyfan e-ddysgu'r Cyngor.

Rwyf ar ddeall gan Reolwr Hyfforddiant y Cyngor bod hyfforddiant ar y system hon wedi cael ei gynnig i'r holl aelodau ac o'r herwydd, mae'r Pwyllgor Safonau yn gofyn i chi gyflawni'r Modiwl Moesau a Safonau cyn gynted ag sy'n bosibl ac i roi gwybod i mi unwaith y byddwch wedi gwneud hynny.

Os na fyddaf wedi clywed gennych ymhen 28 diwrnod, byddaf yn cysylltu gyda chi eto.

Dyma'r linc i'r modiwlau e-ddysgu ar gyfer datblygu aelodau:

https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=60

Fe welwch bod y modiwlau isod ar gael:

What is E-learning / Beth yw E-Dysgu? **
Ethics and Standards / Moesau a Safonau
The Effective ward Councillor / Y Cynghorydd Ward Effeithiol **
Public Speaking Skills / Sgiliau Siarad Cyhoeddus **
Chairing Meetings / Cadeirio Cyfarfodydd **
Corporate Parenting / Rhianta Corfforaethol
Decisions for future Generations / Penderfyniadau i Genedlaethau'r Dyfodol **
Introduction to Scrutiny / Cyflwyniad i Graffu **
Additional Modules / Modiwlau ychwanegol

Diolch

Dymuniadau gorau

Mike Wilson (Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn)

*********************

Dear Councillor

As part of its recent review, the Standards Committee noted that, since the last election in May 2017, you have not attended a development session on the Code of Conduct for Members.

The Standards Committee notes, however, that there is now a member development session available on the Council's e-learning platform, which is entitled "Ethics and Standards".

I understand from the Council's Training Manager that, by now, training on this system has been offered to all members and the Standards Committee therefore requests that you

undertake the Ethics and Standards Module as soon as possible, and that you let me know when you have done so.

If I have not heard from you within 28 days, I shall be contacting you again.

The link to the member development e-learning modules is at:

https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=60

You will see that the following modules are available:

What is E-learning / Beth yw E-Dysgu? **
Ethics and Standards / Moesau a Safonau
The Effective ward Councillor / Y Cynghorydd Ward Effeithiol **
Public Speaking Skills / Sgiliau Siarad Cyhoeddus **
Chairing Meetings / Cadeirio Cyfarfodydd **
Corporate Parenting / Rhianta Corfforaethol
Decisions for future Generations / Penderfyniadau I Genedlaethau'r Dyfodol **
Introduction to Scrutiny / Cyflwyniad I Graffu **
Additional Modules / Modiwlau ychwanegol

Thank you

Best wishes

Mike Wilson (Chair of the Isle of Anglesey County Council Standards Committee)

**Gan:** Lynn Ball
**I:** Marc Jones; Marion A. Pryor
**Bcc:** Michael Wilson
**Pwnc:** Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (19486)
**Dyddiad:** 20 Chwefror 2018 16:38:14

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r tair cofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau.

Mae'r Pwyllgor Safonau newydd gwblhau ei adolygiad ac roedd yn bryderus nad oedd unrhyw ffurflenni cofrestru diddordebau ar y system ModGov ar gyfer Mr Dilwyn Evans a Mr Jonathan Mendoza. Yr un modd, nid oedd bywgraffiadau ar eu cyfer ar wefan y Cyngor chwaith.

O'r herwydd, mae'r pwyllgor yn gofyn I chi sicrhau os gwelwch yn dda bod y ffurflenni wedi cael eu cwblhau a'r bywgraffiadau wedi cael eu cyhoeddi cyn gynted ag sy'n bosibl.

Diolch o galon

Cofion

Lynn

**Gan:** Lynn Ball
**I:** J Huw. Jones; Anwen G. Davies
**Bcc:** Michael Wilson
**Pwnc:** Pwyllgor Sgriwtini (19486)
**Dyddiad:** 20 Chwefror 2018 16:38:02

Fel y gwyddoch, mae’r Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiadau rheolaidd o’r tair cofrestr o Ddiddordebau’r Aelodau.

Mae’r Pwyllgor Safonau newydd gwblhau ei adolygiad ac roedd yn bryderus nad oedd unrhyw ffurflenni cofrestru diddordebau ar y system ModGov ar gyfer Mr Dafydd Gruffydd a Mrs Anest Gray Frazer. Yr un modd, nid oedd bywgraffiadau ar eu cyfer ar wefan y Cyngor chwaith.

O’r herwydd, mae’r pwyllgor yn gofyn I chi sicrhau os gwelwch yn dda bod y ffurflenni wedi cael eu cwblhau a’r bywgraffiadau wedi cael eu cyhoeddi cyn gynted ag sy’n bosibl.

Diolch o galon

Cofion

Lynn

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mawrth 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Hyfforddi, Datblygu a Gwerthuso Aelodau'r Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Gwneud argymhellion ar gyfer Hyfforddi, Datblygu a Gwerthuso Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn 2018** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gan y Pwyllgor Safonau rôl bwysig i'w chwarae o fewn y Cyngor wrth hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad.

1.2 Er mwyn sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn gallu cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol, argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried datblygu cynllun ymhellach er mwyn ennill y sgiliau a gwella'r wybodaeth y maent eu hangen i'w cefnogi yn eu rôl.

1.3 Ar hyn o bryd nid oes rheidrwydd na system ffurfiol i Aelodau'r Pwyllgor Safonau gael Gwerthusiad rheolaidd neu Gynllun Datblygu Personol, er bod gwerthusiadau wedi eu cynnal ar un achlysur blaenorol gan ddilyn yr un broses â'r un ar gyfer aelodau etholedig (**Atodiad 1**).

1.4 Mae angen i unrhyw gynllun

1.4.1 gadw gofynion y rôl mewn cof. Mae Disgrifiadau Swydd ynghlwm yn **Atodiad 2**

1.4.2 ystyried pa gamau hyfforddi a datblygu sydd eu hangen i sicrhau bod Aelodau'n gallu cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn y modd mwyaf effeithiol e.e. mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad, Cyfansoddiad y

CC-019486/425413

Cyngor, hyfforddiant TGCh, Caniatadau Arbennig, cynnal gwrandawiadau, datrys anghydfod ac ati.

1.4.3 sicrhau bod gan bob Aelod Gynllun Datblygu Personol sy'n cofnodi eu hyfforddiant a'u datblygiad o flwyddyn i flwyddyn ac sy’n cael ei gyhoeddi.

1.4.4 cymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion cenedlaethol ar gyfer hyfforddi a datblygu Aelodau’n gyffredinol e.e. Fframwaith Cymhwysedd CLlLC .

1.4.5 ystyried pa Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (os o gwbl) y dylid eu gosod ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau.

1.4.6 adolygiadau chwarterol i sicrhau effeithiolrwydd yn y rôl

## 2 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Safonau yn ystyried ac yn penderfynu ar elfennau allweddol system sydd wedi ei theilwrio ar gyfer hyfforddi, gwerthuso a datblygu Aelodau'r Pwyllgor Safonau ac yn cytuno ar ffurf a chynnwys system o'r fath.

**From:** Janette Jones
**Sent:** 12 February 2018 15:52
**To:** Llinos Medi Huws <LlinosMediHuws@ynysmon.gov.uk>; John Arwel Roberts <JohnArwelRoberts@ynysmon.gov.uk>; Bryan Owen <BryanOwen@ynysmon.gov.uk>; Ieuan Williams <IEUANWILLIAMS@ynysmon.gov.uk>
**Cc:** Miriam Williams <MiriamWilliams@ynysmon.gov.uk>; J Huw. Jones <HuwJones@ynysmon.gov.uk>; Carys Bullock <CarysBullock@ynysmon.gov.uk>
**Subject:** Adolygiad Blynyddol - Datblygiad Aelodau / Annual Member Development Review - swyddogol sensitif - official sensitive

**Ar ran Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd / On behalf of Huw Jones, Head of Democratic Services**

Cyfeiriaf at y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Grwp Arweinyddion ar 1af Chwefror, 2018 a'r cytundeb y byddai Arweinyddion pob Grwp yn cyfarfod gyda phob Aelod yn unigol er mwyn cwblhau ffurflen Adolygiad Datblygiad Personol.
Diben yr ymarferiad ydi adolygu anghenion datblygiad bob Aelod er mwyn adnabod anghenion hyfforddiant/datblygu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac am weddill y Cyngor presennol.

Ar gyfer yr ymarferiad paratowyd pecyn i chi ei rannu gyda phob aelod o'r Grwp sydd yn cynnwys:

1. Swydd ddisgrifiad perthnasol
2. Ffurflen Adolygiad Datblygiad Aelodau.
3. Fframwaith Datblygu Cynghorwyr - CLlLC

Gofynnir i chi gyfeirio at gynnwys Adroddiadau Blynyddol (os yn berthnasol) ar gyfer 2016/17 http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/adroddiad-blynyddol-gan-gynghorydd?redirect=false

Gofynnir i bob Aelod gwblhau'r ffurflen berthnasol erbyn dydd Llun 19 Mawrth, 2018. Byddaf hefyd yn trafod eich anghenion Datblygu Personol unigol chi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r pecynnau perthnasol yn swyddfa Carys/Janette. Os rydych yn dymuno i mi gyfarfod a'ch grwp chi, neu angen unrhyw wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda.

Diolch am eich cydweithrediad

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

I refer to the information outlined at the Group Leaders meeting on 1st February, 2018 and the agreement that each Group Leader would meet with group Members on an individual basis in order to complete the Personal Development Review form.
The purpose of this task is to review the development of the needs of each Member, identify future needs in terms of training/development and build this into the training needs programme for next year and beyond.

Packs have been prepared for you to share with each Member of your group. You will find the following in the pack:

1. Relevant Job Description
2. Member Development Review form
3. WLGA Development Framework

I would also ask you to refer to Members Annual reports for 2016/17 (where applicable) http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/councillors/councillors-annual-report-/

Each Member is requested to complete the Development Review form by Monday 19 March, 2018. I also intend to meet with each Group Leader to discuss development needs during this window.

The relevant packs are in Carys/Janette's office. I would be more than happy to meet with each Group - please contact me or if you require any further information.

Thank you for your co-operation.

**Huw Jones**

Janette
Cynorthwy-ydd Gweinyddol / Administrative Assistant
Gwasanaethau Democrataidd / Democratic Services
Cyngor Sir Ynys Mon / Isle of Anglesey County Council
Swyddfa'r Cyngor / Council Offices
Llangefni
Ynys Mon / Anglesey
01248 752140

A yw'r e-bost hwn wedi ei farcio'n 'Swyddogol-Sensitif'? Os ydyw, rhaid i chi ystyried a oes gennych hawl i'w ddyblygu, ei argraffu neu ai anfon ymlaen. Os oes, sicrhewch os gwelwch yn dda fod yr e-bost ynghyd ag unrhyw atodiadau'n cael eu marcio'n 'Swyddogol-Sensitif'. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod mesurau'n cael eu cymryd i ddiogelu, storio a chael gwared ar y wybodaeth mewn modd priodol. Mae hyn yn golygu fod rhaid diogelu'r wybodaeth gyda chyfrinair neu ei chadw mewn cwpwrdd ffeilio y mae modd ei gloi. Rhaid cael gwared ar ddogfennau 'Swyddogol-Sensitif' yn y biniau gwastraff y mae modd eu cloi. Os ydych yn ansicr ynghylch sut i ddefnyddio gwybodaeth 'Swyddogol-Sensitif', yna cysylltwch os gwelwch yn dda gyda llywodgwyb@ynysmon.gov.uk

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

Has this e-mail been marked 'Official-Sensitive'? If so you must consider whether you have the right to duplicate, print or forward it on. If so please ensure that the e-mail and any attachments are marked as 'Official-Sensitive. It is your responsibility to ensure that appropriate measures are taken to protect, store and dispose of this information properly. This means that the information must be password protected or kept in a lockable filing cabinet. 'Official-Sensitive' documents must be disposed of in the lockable waste bins. If you are unsure about how to use Official-Sensitive information please contact infogov@anglesey.gov.uk

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

# Disgrifiad Rôl Aelod Etholedig

## 1 Atebolrwydd

- I etholwyr Ynys Môn
- I'r Cyngor Llawn
- I etholwyr eu ward

## 2 Pwrpas y Rôl a Swyddogaethau

- **Cynrychioli a chefnogi cymunedau**
    - Cynrychioli buddiannau'r ward
    - Gweithredu fel llysgennad i'r Cyngor yn y ward a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu
    - Gweithredu fel cyfrwng cyfathrebu i'r gymuned ynglŷn â strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r Cyngor
    - Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol, ymgymryd â gwaith achos ar eu rhan a gwasanaethu pob un yn deg ac yn gydradd
    - Cysylltu ag aelodau'r Pwyllgor Gwaith, aelodau eraill y Cyngor, swyddogion y Cyngor a sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod anghenion cymunedau lleol yn cael eu nodi, eu deall a'u cefnogi
    - Hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad yn y cymunedau lleol
    - Bod yn wyliadwrus a gwneud popeth posib i amddiffyn oedolion a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin

- **Gwneud penderfyniadau a chadw golwg ar berfformiad y Cyngor**
    - Cymryd rhan yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor, gwneud penderfyniadau cytbwys ar sail gwybodaeth, cadw golwg ar berfformiad y Cyngor
    - Cymryd rhan mewn unrhyw bwyllgorau neu banelau y byddant yn aelodau ohonynt a gwneud penderfyniadau cytbwys ac ar sail gwybodaeth
    - Glynu at egwyddorion democratiaeth a chydgyfrifoldeb wrth wneud penderfyniadau
    - Hyrwyddo a sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill
    - Derbyn cyfrifoldeb corfforaethol am amddiffyn plant ac oedolion bregus

- **Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar eu penodiad)**
    - Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol lleol fel cynrychiolydd y Cyngor.
    - Cynrychioli'r cyngor ar gyrff partneriaeth lleol, hyrwyddo buddiannau cyffredin a chydweithio er lles ei gilydd
    - Cynrychioli a bod yn eiriolwr ar ran y Cyngor ar gyrff cenedlaethol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasau**
    - Sicrhau bod y Cyngor a'i fusnes yn cael ei lywodraethu'n dda

- Arwain yn y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw
- Cefnogi a chynnal perthnasau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau, y Protocol Aelod/Swyddog a glynu at y safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

- **Datblygiad personol a datblygiad yn y rôl**

  - Cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi perthnasol a chymryd rhan lawn yn y cyfleoedd datblygiad a ddarperir gan yr awdurdod.

3 **Gwerthoedd**

- Yn llwyr ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Bod yn agored a thryloyw
- Gonest a chywir
- Goddefgar ac yn dangos parch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol
- Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol

## Manyleb Person Aelod Etholedig

**Er mwyn cyflawni ei rôl, fel yr amlinellir yn y disgrifiad rôl, mae'n rhaid i aelod effeithiol feddu ar y canlynol:**

### Cynrychioli a chefnogi cymunedau

- Sgiliau eirioli da
- Sgiliau rhyngbersonol
- Gonestrwydd a'r gallu i roi eich safbwyntiau eich hunain o'r neilltu ac i ymddwyn yn ddiduedd
- Y gallu i gyflwyno dadleuon perthnasol a rhesymegol
- Sgiliau cyfathrebu da

### Gwneud penderfyniadau a chadw golwg ar berfformiad y Cyngor

- Gwybodaeth am a dealltwriaeth o gyfraith, rheolau a safonau ymddygiad cyfarfodydd
- Dealltwriaeth o gyd-destunau strategol, polisi a gwasanaeth er mwyn gwneud penderfyniadau
- Y gallu i herio syniadau a chyfrannu'n gadarnhaol i ddatblygu polisi

### Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar eu penodiad)

- Sgiliau siarad cyhoeddus da
- Sgiliau cyflwyno da
- Y gallu i berswadio eraill ac i ymddwyn yn onest

### Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasau

- Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau ac asiantaethau gwahanol
- Dangos parch tuag at, ac awydd i weithio â, gwahanol grwpiau ac unigolion
- Gwybodaeth am, a dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad a'r Protocol aelod/swyddog
- Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

### Datblygiad personol a datblygiad yn y rôl

- Y gallu i asesu anghenion datblygu personol ac yn y rôl
- Yr awydd a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu

Enw Llawn: ______________________________

Llofnod: ______________________________

Dyddiad: ______________________________

## Enghraifft o ffurflen ar gyfer cyfweliad adolygu datblygiad personol 2018

**Llenwch y ffurflen hon a dod ag e i'r cyfarfod. Mae'r ffurflen yn gyfrinachol i chi a'r sawl fydd yn eich cyfweld ar wahân i'r dudalen olaf sydd i'w defnyddio gan swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr i baratoi'ch cynllun datblygu personol a blaenoriaethu gweithgareddau ar gyfer rhaglen hyfforddi'r awdurdod.**

1. **Beth yw fy rolau a'm cyfrifoldebau ar hyn o bryd?** (Er enghraifft, cabinet y cyngor, aelod o bwyllgor trosolwg a chraffu, cadeirydd, aelod o bwyllgor statudol megis cynllunio neu drwyddedu, cynrychioli'ch ward, arwain y gymuned.)

2. **Pa orchwylion mae rhaid imi eu cyflawni eleni? Beth rwy'n bwriadu ei wneud? Erbyn pryd?**

3. **Beth mae angen imi ei wybod a gallu ei wneud i gyflawni fy rôl a gwireddu fy uchelgeisiau?** (Gall y disgrifiad o'ch rôl, manylion eich rôl a fframwaith datblygu'r cynghorwyr fod o gymorth yma.)

4. **Ym mha agweddau ar fy rôl rwy'n hyderus?**

5. **Ble rwy'n llai hyderus?**

6. **Beth allai fy rhwystro i rhag cyflawni fy rôl?** (Ystyriwch unrhyw faterion personol, cyfundrefnol neu wleidyddol allai fod yn feini tramgwydd.)

7. **Pa ddysgu a datblygu rwyf i wedi'u gwneud eleni?**

8. **Beth rwyf i wedi'i ddysgu a'i gyflawni o ganlyniad i hynny?**

9. **Pa ddysgu a datblygu ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol?** (Yn ôl y tabl isod.)

| **Dyma'r meysydd yr hoffwn i eu datblygu:** | **Y datblygu sydd orau gyda fi** (e.e. ymweld ag awdurdodau eraill, cwrdd â chymheiriaid, gweithdai, e-ddysgu). |
|---|---|
| Medrau (e.e. rheoli cyfarfodydd, dulliau holi, trin a thrafod y cyfryngau). | |
| Gwybodaeth (e.e. côd ymddwyn, proses y cynllunio, cydraddoldeb, polisïau lleol). | |

**10. Fel rhan o'ch Datblygiad Personol, a fyddai cael eich mentora o fendith i chi? Os byddai, ymhelaethwch os gwelwch yn dda.**

**Y dysgu a'r datblygu y bydd eu hangen arnaf i eleni (trafodwch hyn gyda swyddog cynorthwyo'r cynghorwyr a fydd yn defnyddio'r dudalen hon i baratoi cynlluniau datblygu a rhaglenni hyfforddi).**

| Maes i'w ddatblygu | Sut | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**Cloriannu'r hyfforddiant sydd wedi'i roi imi**

| Hyfforddiant | Ei effaith ar fy ffordd o weithio'n gynghorydd |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## ENGRAIFFT

**Y dysgu a'r datblygu y bydd eu hangen arnaf i eleni (trafodwch hyn gyda swyddog cynorthwyo'r cynghorwyr a fydd yn defnyddio'r dudalen hon i baratoi cynlluniau datblygu a rhaglenni hyfforddi).**

| Maes i'w ddatblygu | Sut | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| *Enghraifft: Llywio cyfarfodydd pwyllgor craffu* | *Hoffwn i wylio cyfarfodydd cynghorau eraill. Byddai gweithdy am lywio cyfarfodydd yn ddefnyddiol. Hoffwn i ganllawiau ysgrifenedig ar gyfer cadeiryddion pwyllgor craffu.* | *1* |
| *Enghraifft: Deall trefn y cynllunio i ateb ymholiadau pobl y fro* | *Byddai gweithdy am elfennau sylfaenol cynllunio o gymorth. Hoffwn i gwrdd â swyddogion cynllunio i drafod materion mae pobl fy mro wedi'u codi ynglŷn â chaniatâd cynllunio.* | 3 |
| *Enghraifft: Arian llywodraeth leol – helpu i bennu cyllideb* | *Hoffwn i gwrdd â swyddogion ariannol a chael fy mentora gan aelod y cabinet dros faterion ariannol ac adnoddau achos dyma faes sydd o ddiddordeb i mi.* | 2 |
| *Enghraifft: Hyfforddiant am drin a thrafod y cyfryngau* | *Hoffwn i gwrdd â rhywun sy'n gallu esbonio sut mae defnyddio Twitter yn ddiogel i hysbysebu fy ngwaith ac annog pobl i gysylltu â mi.* | 4 |

**Cloriannu'r hyfforddiant sydd wedi'i roi imi**

| Hyfforddiant | Ei effaith ar fy ffordd o weithio'n gynghorydd |
|---|---|
| *Enghraifft: Rhaglen cyflwyno gwaith y cyngor a'i hoelion wyth.* | *Mae wedi fy atgoffa o'r ffordd mae'r cyngor yn gweithredu fel y galla i esbonio hynny i bobl yn fy nghymorthfeydd a nodi swyddogion y dylwn i gysylltu â nhw. Mae wedi tynnu sylw at feysydd lle mae eisiau rhagor o hyfforddiant, hefyd.* |
| *Enghraifft: Hyfforddiant am drin a thrafod y cyfryngau.* | *Mae wedi fy helpu i gynrychioli'r cyngor yn well mewn cyfweliad radio yr wythnos ddiwethaf.* |
| *Enghraifft: Dilyn cwrs yn Academi Arwain Cymru.* | *Mae wedi fy helpu i ddeall fy ffordd o arwain a sut mae'n wahanol i ddulliau pobl eraill. Rwy'n cydweithio'n well ag aelodau eraill y cabinet bellach. Fe ges i gymorth ynglŷn â her bersonol ym maes arwain, hefyd.* |

## CANLLAWIAU ENGHREIFFTIOL I GYNGHORWYR SY'N CYFWELD CYNGHORWYR ERAILL I ADOLYGU EU DATABLYGIAD PERSONOL

Cyn dechrau'r adolygu, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried y canllawiau canlynol:

**Diben yr adolygu**

Diben y cyfarfod yw rhoi cyfle i'r sawl y byddwch chi'n ei gyfweld adolygu ei rôl ar y cyfan, nodi unrhyw orchwylion penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ystyried y meysydd lle mae'n teimlo'n hyderus a nodi'r rhai mwy ymestynnol lle gallai fod angen ei gynorthwyo a'i ddatblygu. Fe ddylech chi roi gwybod i swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr am y dysgu a'r datblygu y bydd eu hangen arno, ynghyd â'r hyn ddeilliodd o weithgareddau datblygu blaenorol, i'w helpu i lunio rhaglenni datblygu cynghorwyr.

**Paratoi**

Efallai yr hoffech chi ddarllen y disgrifiad o rôl y sawl sydd i'w gyfweld ac ystyried rhai o'r cwestiynau y byddwch chi'n eu gofyn i'w helpu i archwilio ei rôl a'i anghenion. Er y bydd swyddogion cynorthwyo a hyfforddi'r cynghorwyr yn rhoi'r holl wybodaeth i bob aelod o'r cyngor, efallai yr hoffech chi fwrw golwg ar y gweithgareddau hyfforddi, cynorthwyo a datblygu sydd ar gael. Bydd y sawl sydd i'w gyfweld yn cysylltu â chi i drefnu amser a lle sy'n gyfleus i'r ddau ohonoch chi fel y gallwch chi gael sgwrs gyfrinachol heb i neb dorri ar ei thraws. Ddylai'r cyfarfod ddim para'n hwy nag awr a hanner.

**Adolygu'r datblygiad personol**

Cofiwch y bydd eich sgwrs yn ystod y cyfarfod yn gyfrinachol.

Diben y cyfweliad yw helpu'r cynghorydd i ystyried ei rôl, ei gyfraniad, ei gryfderau, ei wendidau a'r hyfforddiant y gallai fod ei angen arno. Dylech chi weithredu'n seinfwrdd gwrthrychol yn ystod yr adolygu.

Ddylech chi ddim rhoi'ch adborth eich hun am waith y cynghorydd.

Defnyddiwch y ffurflen yn fan cychwyn i'r drafodaeth.

Cyfrifoldeb y sawl sydd wedi'i gyfweld yw cymryd unrhyw gamau yn sgîl y sgwrs, cadw unrhyw ddogfennau a thrafod unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg gyda swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr.

Mae modd pennu unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod angen i'r awdurdod ei roi, a thynnu sylw'r awdurdod at hynny fel y bo'n briodol.

CANLLAWIAU I GYNGHORWYR SY'N CAEL EU CYFWELD

Cyn mynd i'r cyfweliad, efallai y bydd yn ddefnyddiol ystyried y canllawiau canlynol:

**Diben yr adolygu**

Diben y cyfarfod yw rhoi cyfle ichi adolygu'ch rôl yn gyffredinol, ystyried rhai gorchwylion penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, nodi'r meysydd lle rydych chi'n teimlo'n hyderus a phennu rhai mwy ymestynnol lle gallai fod angen eich cynorthwyo a'ch datblygu. Bydd cyfle ichi nodi'ch anghenion o ran dysgu a datblygu fel y gallwch chi roi gwybod amdanyn nhw i swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr i'w helpu i drefnu rhaglenni datblygu. Ar ben hynny, byddwch chi'n cael cloriannu'r hyfforddiant rydych chi wedi'i gael yn barod.

**Paratoi**

Bydd angen ichi lenwi'r ffurflen cyn y cyfarfod i'ch helpu i feddwl am eich rôl, gorchwylion penodol ar gyfer eleni ac unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnoch chi. At hynny, fe fydd yn ddefnyddiol adolygu'r disgrifiad o'ch rôl, gofynion eich rôl, fframwaith datblygu'r cynghorwyr a'r holiadur ar ei gyfer.

Cysylltwch â'r sawl fydd yn eich cyfweld i drefnu amser a lle cyfleus i'r ddau ohonoch chi fel y gallwch chi gael sgwrs gyfrinachol heb i neb dorri ar ei thraws.

**Adolygu'r datblygiad personol**

Cofiwch y bydd eich sgwrs yn ystod y cyfarfod yn gyfrinachol.

Defnyddiwch y ffurflen yn fan cychwyn i'r drafodaeth.

Fe fydd y sawl sy'n eich cyfweld yn eich helpu chi i ystyried eich rôl, eich cyfraniad, eich cryfderau, eich gwendidau ac unrhyw hyfforddiant y gallai fod ei angen arnoch chi. Bydd yn gweithredu'n seinfwrdd gwrthrychol i'r perwyl hwnnw.

Nid rhoi ei adborth ei hun am eich gwaith yw ei rôl.

Eich cyfrifoldeb chi yw cymryd unrhyw gamau yn sgîl y sgwrs, cadw unrhyw ddogfennau a thrafod unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg gyda swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr.

Mae modd pennu unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod angen i'r awdurdod ei roi, a thynnu sylw'r awdurdod at hynny fel y bo'n briodol.



# Fframwaith Datblygu Cynghorwyr Cymru

# Cysylltu

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Prif ddibenion WLGA yw hyrwyddo safonau ac enw da byd llywodraeth leol a helpu awdurdodau i lunio polisïau a blaenoriaethau sy’n gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Mae’n cynrychioli 22 awdurdod lleol Cymru ac mae awdurdodau’r tri gwasanaeth tân ac achub a’r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.


**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600
Ffacs: 029 2046 8601

**www.wlga.gov.uk**



Cyhoeddi: Mai 2015



Hawlfraint: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Datblygu Proffesiynol Parhaus WLGA ar gyfer Cynghorwyr**

**Fframwaith Datblygu Cynghorwyr Cymru**

Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu'r medrau a'r wybodaeth sy'n hanfodol i gynghorwyr awdurdodau lleol Cymru, yn ôl y farn gyffredinol. Mae bwriad i gynnig i gynghorwyr ganllawiau am eu rolau a'u helpu nhw i bennu eu blaenoriaethau ar gyfer eu datblygu personol a phroffesiynol parhaus. Does dim bwriad i roi deunyddiau cynhwysfawr na chyfarwyddol. Rydyn ni am helpu cynghorwyr newydd a phrofiadol i nodi agweddau lle y gallai cymorth neu hyfforddiant fod o les yn eu rolau. At hynny, mae modd i gynghorwyr ddefnyddio'r fframwaith yn rhestr wirio wrth adolygu datblygiad personol a gallai swyddogion a chynghorwyr ei ddefnyddio wrth lunio rhaglenni datblygu, hefyd. Bydd pob cyngor lleol yn cael addasu'r fframwaith yn ôl ei flaenoriaethau, hefyd.

Mae'r fframwaith wedi'i lunio yn rhan o raglen ddatblygu proffesiynol parhaus Cymru ar gyfer cynghorwyr. Y cynghorau lleol sydd wedi llunio'r rhaglen honno, ar y cyd ag WLGA. Felly, mae'n cyd-fynd â Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru. Mae'r freinlen honno'n rhoi i'r cynghorau strwythur ar gyfer hunanasesu a chamau ar gyfer datblygu cynghorwyr. Mae'r fframwaith hwn yn awgrymu cynnwys ar gyfer y datblygu hwnnw hefyd, ac mae'n cydblethu â disgrifiadau a rhestrau WLGA ynglŷn â rolau a rhinweddau cynghorwyr.

**Defnyddio'r fframwaith**

Mae yn y fframwaith amryw gymwyseddau cyffredinol sy'n berthnasol i bob aelod, yn ogystal â rhannau penodol am rolau penodol yn y cyngor. Bydd Rhan 1 (adrannau 1-5) yn ddefnyddiol i bob cynghorydd. Dylid defnyddio Rhan 2 yn ôl y rolau arbenigol ychwanegol.

**Rhan 1 – Deunydd sy’n berthnasol i bob cynghorydd**

## 1. Hanfodol: Amryw fedrau cyffredinol ddylai fod gan bob cynghorydd

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Dealltwriaeth o rôl y Cynghorydd** | Ehangder a ffiniau cyfrifoldebau cynghorydd unigol a’r pwerau a’r cyfrifoldebau sy’n briodol i lywodraethu corfforaethol. Ar ben hynny, cyfrifoldebau corfforaethol megis rhianta corfforaethol a diogelu plant ac oedolion hawdd eu niweidio. | Ymgymryd â’i rôl yn effeithiol yn y cyngor, y gymuned a chydag asiantaethau partner. Deall pryd mae’n briodol ac yn amhriodol gweithredu dros yr adran etholiadol neu er budd yr ardal gyfan. Gweithredu’n rhagweithiol i hwyluso deilliannau. Gofalu bod cyfrifoldebau corfforaethol yr awdurdod a rôl bersonol y cynghorydd yn cael eu cyflawni – er enghraifft, diogelu plant ac oedolion sy’n agored i niwed a chynorthwyo plant sydd o dan ofal. |
| **Dealltwriaeth o rôl yr Awdurdod Lleol** | Dealltwriaeth o’r gwasanaethau sydd i’w darparu, yn rhai statudol a dewisol, a’r polisïau, gweithdrefnau, cynlluniau a strategaethau sy’n eu hategu. | Gallu disgrifio gwaith y cyngor i’r cyhoedd a lle mae’r cyfrifoldebau hyn yn nwylo asiantaethau eraill fel cynghorau cymuned a thref, y sector gwirfoddol neu Lywodraeth Cymru. Cyfrannu at ddatblygiad cynlluniau a strategaethau cyngor ac yn cymryd penderfyniadau yng ngoleuni’r rhain. |
| **Ymddygiad** | Dealltwriaeth o’r fframwaith moesegol sy’n llywodraethu gwaith cynghorwyr, yn arbennig y Cod Ymddygiad. Dealltwriaeth o rôl y swyddog monitro. Cydnabod pwysigrwydd atebolrwydd, cywirdeb a thryloywder i lywodraethu da. | Ufuddhau i’r Cod Ymddygiad ar bob adeg. Datgan a diffinio buddiannau bob tro pan fo’n briodol. Gofyn am gyngor y swyddog monitro pan fo’n briodol. Trin pobl eraill gyda pharch ym mhob sefyllfa. Dangos cywirdeb. Gwerthfawrogi eraill. Gwrando. Aros yn ddigyffro mewn sefyllfaoedd anodd. |
| **Cydraddoldeb a pharch** | Sgiliau personol wrth ddangos parch tuag at eraill beth bynnag eu rhyw, hil, crefydd, oedran, anabledd, newid rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth neu gyfeiriadedd rhywiol. Deall y gyfraith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn perthynas â gwaith y cyngor a rôl y cynghorydd. Deall yr angen am ymddygiad parchus tuag at eraill a’r hyn sy’n cyfrif yn ymddygiad parchus. | Cymhwyso deddfwriaeth gydraddoldeb briodol a dangos gwerthoedd cydraddoldeb yn ei ymddygiad personol ac y mhenderfyniadau’r cyngor.<br><br>Trin pawb gyda pharch ar bob adeg wrth weithredu’n gynghorydd boed yn y Cyngor, y gymuned neu mewn grŵp gwleidyddol. |
| **Cydbwyso disgwyliadau a chyfrifoldebau yn y cyngor a’r gymuned** | Deall cyfrifoldebau cynghorydd yn aelod o gorfforaeth ac yn gynrychiolydd adran etholiadol neu gymuned. | Penderfynu ar faterion sy’n ymwneud â’r gorfforaeth neu’r adran etholiadol yn foesegol. Rheoli disgwyliadau’r gymuned a’r cyngor fel ei gilydd trwy gyfathrebu’n effeithiol. |

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio** | Dealltwriaeth o rôl cyrff Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio a phrosesau cysylltiedig y cyngor. | Ymwneud yn effeithiol â'r broses archwilio, arolygu a rheoleiddio o fewn y cyngor, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i herio a chefnogi'r gwasanaethau dan sylw yn effeithiol. |
| **Cydbwyso ymrwymiadau personol** | Dealltwriaeth o egwyddorion rheoli amser gan gynnwys blaenoriaethu a dirprwyo. | Cynnal cydbwysedd gwaith/bywyd effeithiol, gan reoli'r amser sydd ar gael i ganolbwyntio ar y materion â'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol. |
| **Rheoli gwybodaeth** | Deall a dehongli gwybodaeth a data.<br>Gallu trin a thrafod data yn ôl fformat y cyngor.<br>Deall y diffiniad o gyfrinachedd a sut mae trin a thrafod gwybodaeth gyfrinachol.<br>Deall gofynion statudol Deddf Diogelu Data a Deddf Mynnu Gwybodaeth. | Derbyn gwybodaeth a data o amrywiaeth o ffynonellau ac yn gallu ei storio, ei rhannu a'i defnyddio yn effeithiol a lle bo'n bosibl yn electronig.<br>Peidio â chadw cofnodion am bobl heb ofyn am eu caniatâd.<br>Ymateb yn brydlon ac yn briodol i geisiadau Deddf Mynnu Gwybodaeth.<br>Heb ledaenu na rhannu gwybodaeth gyfrinachol neu gyfyngedig. |
| **Defnyddio TGCh a chyfryngau cymdeithasol** | Medrus yn raglenni Microsoft Office megis prosesu geiriau, cyflwyno a thaenlenni yn ogystal â dulliau cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol megis ebost, trydar, blogio a gwefan bersonol. | Cynnal holl fusnes cyngor yn electronig.<br>Cyfathrebu â'r gymuned yn electronig a thrwy gyfryngau cymdeithasol lle bo'n briodol.<br>Cynnal presenoldeb effeithiol, cadarnhaol a moesegol ar-lein. |
| **Paratoi a chymryd rhan mewn cyfarfodydd** | Deall rheolau parhaol, unrhyw brotocolau a rheolau dadlau.<br>Sgiliau siarad yn gyhoeddus, trafod, holi. | Paratoi'n effeithiol am gyfarfodydd trwy ddarllen papurau a dadansoddi data.<br>Cynnal ymchwil bersonol a chymryd rhan mewn unrhyw rhag-gyfarfodydd.<br>Cyfrannu at ganlyniadau positif cyfarfod drwy chwilio am benderfyniadau neu weithredoedd pendant.<br>Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd gan wneud pwyntiau'n glir ac yn gryno.<br>Cynnal ffocws ar y busnes dan sylw.<br>Deall a chymhwyso 'rheolau' cyfarfod<br>Ceisio arweiniad oddi wrth swyddogion ac arweinwyr grŵp cyn cyfarfodydd fel y bo'n briodol. |
| **Gweithio gyda'r cyfryngau** | Sgiliau wrth feithrin cysylltiadau â'r cyfryngau, cymryd rhan yng nghyfweliadau'r teledu, y radio a'r wasg a thrin a thrafod cyfryngau ar y we. | Ffynhonnell gydnabyddedig gwybodaeth gredadwy i'r cyfryngau. Siarad yn hyderus, yn awdurdodol ac yn briodol mewn cyfweliadau. Gwella enw da'r cyngor wrth ymddangos ar y sgrin neu mewn print. |
| **Hunan-hyrwyddo** | Y gallu i ddatblygu proffil yn y gymuned drwy weithgareddau lleol a chyfathrebu ac ymgynghori'n effeithiol. | Ysgrifennu adroddiad blynyddol am gyflawniadau a gweithgareddau.<br>Gweladwy iawn yn y ward.<br>Cynnal safon uchel o ran enw da personol ac enw da'r cyngor. |

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Cydweithio â swyddogion** | Deall rôl swyddogion yn gyffredinol a'r 'rheolau' mae rhaid iddynt eu parchu gan gynnwys deall yn fanylach rôl uwch swyddogion fel y prif weithredwr, tîm yr uwch reolwyr, swyddog monitro a phenaethiaid ariannol, cyfreithiol a gwasanaethau democrataidd.<br>Sgiliau wrth weithredu'n gyflogwr corfforaethol.<br>Deall proses benodi a sgiliau cyfweld. | Cynnal cysylltiadau proffesiynol â swyddogion, gan gydnabod ffiniau priodol yn ôl protocol perthynas y cynghorwyr â'r swyddogion.<br>Gweithredu'n aelod effeithiol o banel penodi gan gymhwyso egwyddorion cadarn adnoddau dynol a chydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn sicrhau'r ymgeisydd gorau. |
| **Iechyd a diogelwch** | Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yng ngwaith y cyngor.<br>Deall sut i asesu risgiau a sicrhau diogelwch personol a diogelwch pobl eraill. | Hyrwyddo a sicrhau iechyd a diogelwch pawb yn y cyngor. Sicrhau diogelwch personol wrth weithio yn y cyngor ac mewn grwpiau neu ar ei ben/ei phen ei hun yn y gymuned. |
| **Datblygiad proffesiynol a phersonol parhaus** | Gallu nodi anghenion datblygiad personol a chymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu. | Cynnal adolygiadau datblygiad personol rheolaidd gan gymryd i ystyriaeth disgrifiadau rôl a fframweithiau cymwyseddau. Cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu sgiliau a gwybodaeth bersonol, mynychu gweithgareddau dysgu a datblygu gan chwilio am ganlyniadau pendant. |
| **Gallu ariannol** | Deall sut mae cynghorau a gwasanaethau'n cael eu hariannu.<br>Dealltwriaeth a sgiliau mewn pennu cyllidebau.<br>Gallu ariannol personol.<br>Deall effaith diwygiadau lles a'r agenda caledi ariannol. | Ymwneud yn effeithiol yn y broses pennu cyllideb.<br>Bodlon cymryd penderfyniadau anodd, ar sail y dystiolaeth.<br>Dangos sgiliau rhifedd wrth ddehongli data a gofyn cwestiynau. |
| **Sgiliau rhyngbersonol** | Hunan-ymwybyddiaeth, a sgiliau hunan-reoli, "moesau da", deallusrwydd emosiynol, gwrando. Sgiliau cyd-drafod, rheoli anghydfod a chyfryngu. | Ymddwyn mewn ffordd broffesiynol a pharchus tuag at bawb ac ym mhob man.<br>Yn hunan-ymwybodol ac yn gallu datblygu a rheoli perthnasoedd o fewn y cyngor a'r tu allan.<br>Broceru perthnasoedd ac yn rheoli anghydfod yn y gymuned a'r cyngor a rhwng y ddau. |
| **Datblygu cynaladwy** | Deall materion sy'n effeithio ar genedlaethau'r dyfodol fel iechyd a llesiant, diogelwch ariannol a'r amgylchedd. | Gwneud penderfyniadau ar sail anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r boblogaeth bresennol. |

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Diogelu** | Deall y gofynion statudol a'r cyfrifoldebau mae rhaid i bob awdurdod a chynghorydd eu cyflawni o ran diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. | Bod yn wyliadwrus a gweithredu i ofalu bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag eu cam-drin, gan ddod i benderfyniadau addas a thynnu sylw at achosion yn briodol. |
| **Rhieni corfforaethol** | Deall rôl cynghorydd yn rhiant corfforaethol. | Ysgwyddo cyfrifoldeb yn briodol am les plant sydd o dan ofal, gan chwilio bob tro am wybodaeth berthnasol am eu sefyllfa a'u cynnydd. |

## 2. Arwain yn lleol. Amryw fedrau ddylai fod gan bob cynghorydd yn ei rôl yn arweinydd cymuned

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Gweithio gyda'r gymuned** | Gwybod am grwpiau ac arweinwyr y gymuned.<br>Deall ystyriaethau a phryderon y gymuned.<br>Gallu ceisio barn pob parti perthnasol. | Deall anghenion y gymuned leol a sicrhau gweithredu gan y cyngor r ran pobl leol.<br>Cyfathrebu â'r gymuned, unigolion a'r cyngor i sicrhau ymgysylltiad a dealltwriaeth pob parti. |
| **Ymgynghori ac ymgysylltu** | Deall lefelau gwahanol ymgysylltiad sy'n amrywio o gyfathrebu i gyd-gynhyrchu a bennir yn egwyddorion cenedlaethol ymgysylltu i Gymru. http://www.participationcymru.org.uk/national-principles | Dangos canlyniadau positif o ganlyniad i ymgysylltu'n effeithiol.<br><br>Defnyddio amryw ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu megis cyfryngau cymdeithasol i ddeall anghenion a safbwyntiau'r gymuned. |
| **Sector gwirfoddol** | Deall rôl a chyfrifoldebau'r sector gwirfoddol yn yr ardal. | Meithrin perthnasoedd effeithiol â'r sector gwirfoddol ac yn cyfathrebu ac yn gweithio gyda hwy pan fo'n briodol. |
| **Materion lleol** | Deall yr ystyriaethau sy'n bwysig i bobl yn lleol a ledled ardal y cyngor.<br>Gwybod pa gynlluniau'r cyngor fydd yn effeithio ar ystyriaethau lleol. | Gweithio gyda'r gymuned a'r cyngor i ddod o hyd i atebion i broblemau lleol.<br>Sicrhau arian ar gyfer mentrau lleol. |
| **Gweithio gyda chynghorau cymuned a thref** | Deall cyfrifoldebau cynghorau cymuned a'u rhaglenni gwaith. | Gweithio gyda chynghorau cymuned i ddarparu canlyniadau i'r gymuned.<br>Meithrin cysylltiadau positif a chyfathrebu gweithredol â'r cyngor cymuned a'r clerc. |

## 3. Trin a thrafod achosion ar ran y cyhoedd

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Bod yn hygyrch i'r cyhoedd** | Deall a gallu trefnu a hysbysebu cyfleoedd i drafod gwaith achos gyda'r cyhoedd. | Trefnu bod ar gael drwy'r dulliau mwyaf priodol i gysylltu â'r nifer uchaf o bobl. Defnyddio cymorthfeydd, cymorthfeydd stryd, lleoliadau anffurfiol, cyfryngau cartref a chyfryngau cymdeithasol fel y bo'n briodol. Dim ond addo'r hyn a all gael ei gyflawni. |
| **Rheoli gwaith achosion** | Gallu i ddefnyddio technegau a meddalwedd rheoli achosion a monitro a chyfathrebu'r cynnydd. | Rhoi gwybod yn gyson i'r bobl mae'n gweithio ar eu rhan am y cynnydd.<br>Monitro cynnydd achosion ar ôl iddynt gael eu cyfeirio at swyddogion neu asiantaethau eraill. |

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| | | Defnyddio'r cynlluniau atgyfeirio sefydledig o fewn y cyngor. |
| **Arwyddbyst** | Gwybod am ffynonellau gwybodaeth a chyngor o fewn y cyngor a'r tu allan iddo. | Creu cysylltiadau rhwng aelodau'r cyhoedd a'r ffynhonnell gymorth briodol yn y cyngor neu yn y gymuned. |

## 4. Partneriaethau a chynrychioli

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Gweithio'n aelod o gyrff allanol** | Deall rôl y corff allanol. Deall rôl cynghorydd yn y corff allanol boed fel cynrychiolydd y cyngor, cynrychiolydd yr ardal, neu fel unigolyn | Adrodd i'r cyngor a'r corff allanol ac oddi wrthynt fel y bo'n briodol.<br><br>Cynrychioli barn y cyngor, barn bersonol neu farn y gymuned yn effeithiol ac yn briodol yn ôl y sefyllfa.<br><br>Dylai cynghorwyr ymgysylltu â rhaglenni hysbysu a hyfforddi perthnasol cyrff allanol. |
| **Gweithio'n ymddiriedolwr mewn cyrff eraill** | Deall rôl y sefydliad a'ch dyletswyddau/cyfrifoldebau yn ymddiriedolwr. Deall sut y gallai rôl ymddiriedolwr a chynghorydd fod yn groes i'w gilydd. | Gweithredu yn safonau côd ymddwyn y cyngor.<br>Gofyn am gynghorion swyddog monitro fel y bo'n briodol. |
| **Gweithio'n llywodraethwr ysgol** | Deall polisi addysg a threfniadaeth yr ysgol. | Goruchwylio perfformiad yr ysgol.<br>Herio rheolaeth yr ysgol fel cyfaill beirniadol.<br>Cymryd rhan mewn hyfforddiant llywodraethwyr. |
| **Gweithio'n aelod o gyngor cymuned neu dref** | Deall rôl y cyngor cymuned a'i gyfyngiadau. | Cydgysylltu'n effeithiol rhwng y cyngor cymuned a'r cyngor unedol, gan weithredu'n ddolen gyswllt ac yn gynrychiolydd y cyngor lle bo'n briodol.<br>Cymryd rhan yn hyfforddiant cyngor cymuned. |
| **Gweithio'n aelod cyfetholedig** | Deall rôl a chyfyngiadau rôl aelodau cyfetholedig ar bwyllgorau. | Rhannu arbenigedd â'r pwyllgor yn ddiduedd. |

## 5. Gweithio yn y byd gwleidyddol

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Polisi Plaid** | Ymwybyddiaeth o werthoedd a maniffestos yn genedlaethol ac yn lleol. | Cydbwyso gofynion pobl, y blaid, y grŵp a'r cyngor yn effeithiol. |
| **Cydgysylltu â'r Llywodraeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru** | Deall swyddogaethau Llywodraeth Cymru a sut i ymgysylltu. | Cydgysylltu ag Aelodau seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol.<br>Dod â materion lleol i sylw Llywodraeth Cymru pan fo'n briodol. |
| **Aelod o gylch gwleidyddol** | Rheolau a strwythur a pholisïau'r grŵp etholaethol. | |

## Rhan 2 – Deunydd sy'n berthnasol i gynghorwyr yn y rolau arbenigol hyn

### 6. Craffu

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Deall swyddogaeth a phosibiliadau craffu i hybu gwelliannau** | Deall **nodweddion craffu effeithiol**, sef:<br><br><u>Gwell deilliannau</u>: gofalu bod atebolrwydd democrataidd yn llwyddo i wella gwasanaethau cyhoeddus.<br><u>Gwell penderfyniadau</u>: gofalu bod trefniadau penderfynu democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.<br><u>Gwell ymgysylltu</u>: gofalu bod y bobl wedi'u cynnwys mewn modd ystyrlon yn y dadleuon democrataidd am gynnig ein gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am y nodweddion hyn a bennodd Canolfan y Craffu Cyhoeddus a Rhwydwaith Swyddogion Craffu Cymru ar: http://www.cfps.org.uk/characteristics | Cyfrannu at y rhaglen waith.<br>Osgoi gweithredu'n wleidyddol neu'n blwyfol wrth adolygu polisi neu fonitro perfformiad.<br>Rhoi blaenoriaeth i'r meysydd gwaith lle gall craffu wneud gwahaniaeth.<br>Hyrwyddo gwaith craffu o fewn y cyngor. |
| **Llunio polisïau** | Deall y natur y gwasanaeth neu'r swyddogaeth mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano yn y cyngor. | Gwneud argymhellion gwybodus ar sail tystiolaeth ar gyfer gwaith llunio polisi. |
| **Dwyn y cabinet/corff gweithredu i gyfrif** | Gallu adolygu a chwestiynu gwaith a phenderfyniadau'r cabinet yn adeiladol.<br>Deall defnydd y pŵer i alw penderfyniadau Cabinet i mewn. | Monitro a chwestiynu gwaith y cabinet yn effeithiol er lles y gymuned. |
| **Monitro perfformiad** | Gallu i ddeall data cymhleth, gwybodaeth ariannol, risg, adroddiadau cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio, a gwybodaeth arall sy'n ofynnol i fesur perfformiad. | Nodi a herio perfformiad gwael ar sail tystiolaeth. |
| **Sgiliau cyfarfodydd** | Gallu i baratoi'n drylwyr am gyfarfodydd. Gallu i ddeall a chyfrannu at y strategaeth holi.<br>Gallu i wrando a holi'n effeithiol trwy gydol y cyfarfod. | Gwrando'n astud ac yn effeithiol.<br>Defnyddio cyfarfodydd paratoadol yn briodol i drefnu strategaeth holi.<br>Canolbwyntio ar ganlyniadau cyfarfod gan ddefnyddio prosesau cyfarfod yn fodd i wneud hynny. |
| **Ymgysylltu â'r cyhoedd o ran craffu** | Gallu annog pobl a chyrff priodol, yn arbennig y rhai sydd heb eu cynnwys fel arfer, i gyfrannu at waith pwyllgorau craffu. | Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith/rhaglenni pwyllgorau craffu.<br>Annog y cyhoedd i gymryd rhan ym mhroses llunio polisïau a phroses benderfynu trwy bwyllgorau craffu. |
| **Craffu ar y cyd** | Deall rôl, cylch gorchwyl a | Dangos ymrwymiad i weithio ar y cyd ag |

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| | phwerau unrhyw gydbwyllgor craffu a rôl yr aelod unigol ar y pwyllgor hwnnw.<br>Deall rôl, cyfrifoldebau a blaenoriaethau cyrff rhanbarthol, a phartneriaethau a chyrff tu allan i'r cyngor y bydd angen i'r pwyllgor graffu arnynt o bosib. | aelodau craffu o awdurdodau, partneriaethau a chyrff eraill. |

## 7. Bod yn gadeirydd

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Rheoli cyfarfodydd** | Deall protocolau cyfarfodydd a rheolau trafod.<br>Gallu i reoli'r agenda, cyfraniadau ac amser.<br>Gallu i ymgysylltu â'r cyhoedd a'r wasg a gwylwyr yn achos cyfarfodydd sy'n cael eu gwe-ddarlledu. | Llywio pwyllgor yn glir ac yn awdurdodol, gan orfodi pawb i gadw at y rheolau a gofalu bod cyfraniad teg.<br>Rheoli'r agenda trwy gyflwyno eitemau, crynhoi'r drafodaeth, canolbwyntio ar ganlyniadau a chyfyngu ar gyfraniadau nad ydyn yn cyfrannu at y canlyniadau.<br>Sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo bod croeso iddynt, deall diben y cyfarfod a sut mae cyfrannu. |
| **Arwain pwyllgor** | Deall rôl y pwyllgor a'i ffiniau yn fanwl. Gallu cydgysylltu â swyddogion, aelodau ac asiantaethau perthnasol.<br>Ymrwymiad i alluogi pob aelod pwyllgor i ddatblygu sgiliau a chymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd. | Gweithio gyda'r pwyllgor tu allan i gyfarfodydd i ddatblygu ei effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd yr unigolion sy'n rhan ohono. Cyfathrebu ag aelodau a swyddogion sydd â diddordeb yn nhrafodion y pwyllgor.<br>Meithrin perthnasoedd â'r Penaethiaid gwasanaeth/ cyfarwyddwyr perthnasol er mwyn sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn berthnasol, yn wybodus ac yn darparu'r canlyniadau gofynnol. |
| **Llunio a rheoli rhaglen waith** | Deall y pynciau sydd o fewn cwmpas y pwyllgor a sut mae'r rheiny'n ymwneud â pholisïau'r cyngor yn gyffredinol a rolau pwyllgorau eraill.<br>Gallu llunio rhaglen waith gytbwys ar gyfer y pwyllgor gan bennu gorchwylion a deilliannau eglur ar gyfer unrhyw is-gylchoedd. | Gweithio gyda swyddogion ac aelodau pwyllgor i ddatblygu'r cynllun gwaith gan gymryd i ystyriaeth sut mae'n cyd-fynd â gwaith pwyllgorau eraill.<br><br>Sicrhau bod y rhaglen waith yn cymryd i ystyriaeth cynlluniau, polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac anghenion y gymuned am wasanaethau.<br><br>Sicrhau bod y pwyllgor hefyd yn cymryd i ystyriaeth arolygiadau neu adroddiadau oddi wrth gyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio. |
| **Sicrhau adnoddau** | Sicrhau bod gan y pwyllgor y staff, yr wybodaeth a'r cyllid i weithredu'n effeithiol | Cyd-drafod a sicrhau'r gefnogaeth mae ei hangen ar y pwyllgor. |

## 8. Bod yn aelod o bwyllgor statudol/rheoleiddio

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Cynllunio** | Deall y gyfraith cynllunio a hawliau tramwy yn gyffredinol.<br>Deall sut i gymhwyso'r Cod Ymddygiad i faterion cynllunio.<br>Deall sut mae'r gofyn i ddatgan buddiannau'n berthnasol i faterion cynllunio.<br>Deall y Cynllun Datblygu Lleol.<br>Deall 'rheolau' Rheoli Datblygiad.<br>Deall egwyddorion a deddfwriaeth Datblygiad Cynaliadwy gan gynnwys ystyriaethau amgylcheddol, lles a dylunio. | Dangos gwrthrychedd drwy gymryd penderfyniadau annibynnol ar sail tystiolaeth a'r cyfrifoldeb cyfreithiol sydd ar aelodau sy'n gweithredu mewn rôl led-farnwrol.<br><br>Dilyn y Cod Ymddygiad yn dryloyw.<br><br>Gofyn i'r swyddog priodol am gynghorion, datblygu personol neu wybodaeth cyn penderfynu ar faterion. |
| **Archwilio** | Gallu i graffu ar berfformiad ariannol. Dealltwriaeth o reoli risg a threfniadau archwilio mewnol ac allanol.<br>Dealltwriaeth o rolau cymharol archwilio a chraffu. | |
| **Trwyddedu** | Deall rheoliadau trwyddedu a'r polisi o ran trwyddedu.<br>Deall polisïau lleol sy'n effeithio ar y maes hwn megis y cynllun cymunedol ac ystyriaethau ehangach ar gyfer cynaladwyedd. | |
| **Gwasanaethau democrataidd** | Deall gofynion y gyfraith ar gyfer pwyllgor gwasanaethau democrataidd.<br>Deall gofynion gwladol a lleol o ran cynorthwyo a datblygu cynghorwyr.<br>Gallu cydgysylltu'n effeithiol â phennaeth y gwasanaethau democrataidd a'r cynghorydd dros gynorthwyo a datblygu aelodau.<br>Deall bod angen hyrwyddo amrywioldeb yn y cyngor. | |
| **Safonau** | Deall y gyfraith a'r cyfansoddiad mewn perthynas ag ymddygiad.<br>Gallu i gynghori a sicrhau hyfforddiant i aelodau prif gynghorau a chynghorau cymuned mewn perthynas â'r cod ymddwyn. | |

## 9. Aelodau'r cabinet

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Arwain portffolio** | Gwybod y polisïau gwladol a lleol yn drylwyr ynglŷn â meysydd perthnasol.<br>Gallu meithrin perthynas dda â swyddogion arweiniol a chadeiryddion pwyllgorau craffu perthnasol.<br>Gallu i weithio ar y cyd i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y maes gwasanaeth. | Darparu cyfeiriad gwleidyddol i swyddogion ym maes y portffolio.<br>Yn atebol am gyfathrebu, polisi a pherfformiad ym maes y portffolio. Mynd ati i ofyn am a gwerthfawrogi cyfraniad craffu at ddatblygu polisi a monitro perfformiad.<br>Gweithio gyda swyddogion i ystyried materion, blaenoriaethau a chymryd penderfyniadau. |
| **Cyd-gyfrifoldeb** | Gallu i drin a thrafod gwybodaeth a chymryd penderfyniadau ar ôl ymgynghori'n llawn ac ystyried pob mater yn llawn.<br>Gallu i flaenoriaethu'r materion sydd bwysicaf i'r awdurdod.<br>Gallu i weithio gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill i sicrhau gwasanaethau i'r Cyngor | Cymryd cyfrifoldeb fel aelod o'r cabinet dros benderfyniadau strategol y cyngor. |
| **Dod i penderfyniadau trwy gyfrifoldebau dirprwyedig** | Deall y cynllun dirprwyo.<br>Gallu i gymryd cyfrifoldeb dros benderfyniadau a gymerir o dan y cynllun. | Cymryd penderfyniadau ar ôl ymchwil ac ymgynghori priodol. |

## 10. Arwain y cyngor

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Rheoli enw da'r cyngor** | Gallu i weithredu'n llysgennad dros yr awdurdod. | Cynrychioli'r cyngor yn effeithiol ar bob lefel gan sicrhau bod gwybodaeth am y cyngor a'i wasanaethau a'i ddinasyddion yn cael ei chyfleu'n gadarnhaol a chyda chywirdeb. |
| **Arweinyddiaeth ardal/rhanbarth/lle** | Gallu i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer yr ardal/rhanbarth/lleoliad. | Gweithio gyda'r cyngor a'r cyhoedd i ddatblygu ar y cyd a chyfathrebu gweledigaeth leol sy'n eglur, sy'n cael ei chefnogi gan y cyhoedd a'i deall gan y Cyngor. |
| **Datblygu, cyfathrebu ac arwain gweledigaeth ar gyfer y cyngor** | Gallu i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer gwaith y cyngor. | Gweithio gyda'r cyngor i ddarparu'r weledigaeth leol ar y cyd. |
| **Cynnal perthynas lwyddiannus â'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli** | Gallu i gyfathrebu'n effeithiol â'r Prif Weithredwr ag uwch swyddogion.<br>Deall y broses arfarnu perfformiad a sgiliau personol wrth gynnal adolygiadau, pennu amcanion a rhoi adborth. | Cwrdd a chyfathrebu'n agored ac yn rheolaidd.<br>Gwneud disgwyliadau'n glir a darparu arweinyddiaeth wleidyddol.<br>Cynnal adolygiadau perfformiad ag uwch swyddogion fel y bo'n briodol. |

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth y Cyngor** | Gallu i sicrhau llywodraethu effeithiol yn unigol ac ar y cyd. | Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y cyngor.<br>Rheoli perfformiad. |

## 11. Arwain yn ddinesig

| Gofyn | Gwybodaeth a medrau | Ymddygiad effeithiol |
|---|---|---|
| **Llywio'r cyngor cyflawn** | Medrau cadeirydd rhagorol.<br>Deall yn drylwyr reolau parhaol a rheolau gweithredu. | Cadeirio cyfarfodydd y cyngor llawn yn effeithiol gan ddangos sgiliau rheoli ar arwain cyfarfodydd. Dealltwriaeth drylwyr o reolau sefydlog a rheolau gweithredu. |
| **Cynrychioli'r cyngor mewn achlysuron dinesig** | Gallu rheoli enw da'r cyngor.<br>Medrau siarad yn gyhoeddus<br>Medrau rheoli cysylltiadau. | Dangos sgiliau cyfathrebu, rhyngbersonol a chymdeithasol lefel uchel. |

**Disgrifiad o Swyddogaeth Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini**

**1 Atebolrwydd**
- I etholwyr Ynys Môn
- I'r Cyngor Llawn
- I'r Cyhoedd

**2 Diben y Swyddogaeth a Gweithgareddau**
- Ar ran Aelodau Sgriwtini:
  - Llywio proses Sgriwtini effeithiol sy'n cael ei harwain gan Gynghorwyr ac sy'n cymryd barn y cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr i ystyriaeth ac yn cydbwyso blaenoriaethu pryderon y gymuned yn erbyn materion sydd â risg a phwysigrwydd strategol iddynt.
  - Sicrhau bod swyddogaeth a statws Sgriwtini'n cael ei hyrwyddo fel elfen bwysig o wasanaeth cyhoeddus ac atebolrwydd.
  - Adeiladu cydberthnasau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth fel sail i feithrin gweithio fel tîm ymysg aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith er mwyn ysgogi'r awydd i ddatblygu gwaith Sgriwtini ymhellach.
  - Sicrhau fod Sgriwtini yn gweithredu mewn modd anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â materion gwleidyddol sensitif, tensiwn a gwrthdaro.
  - Bydd gan y Cadeirydd gyfraniad pwysig i'w wneud hefyd i sicrhau bod cyfarfodydd a gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol a bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r adnoddau sydd ar gael.

- **Rhoi arweiniad a chyfeiriad**
  - Arwain y tîm o Aelodau'n hyderus ac yn effeithiol
  - Hyrwyddo swyddogaeth sgriwtini oddi fewn a thu allan i'r Cyngor, gan gydgysylltu'n effeithiol yn fewnol yn y Cyngor ac yn allanol gyda phartneriaid y Cyngor
  - Gweithredu proses sgriwtini sy'n wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n anwleidyddol
  - Arfarnu'r effaith a'r gwerth a ychwanegir gan weithgaredd sgriwtini ac adnabod meysydd sydd angen eu gwella
  - Datblygu perthynas o ymddiriedaeth gyda'r Pwyllgor Gwaith/UDA er mwyn sicrhau blaen raglen waith sgriwtini sy'n addas i'r diben ac yn ychwanegu gwerth at waith y Cyngor

- **Rheoli'r blaen raglen waith**
  - Datblygu rhaglen waith gytbwys ar gyfer y Pwyllgor sy'n cynnwys sgriwtini cyn gwneud penderfyniadau, adolygu a monitro perfformiad datblygu polisi, sgriwtini ymchwiliol, a dal y Pwyllgor Gwaith yn atebol

- Sicrhau bod y rhaglen yn cymryd ffactorau perthnasol i ystyriaeth megis: blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith a phwyllgorau eraill, blaenoriaethau strategol (Cynllun Corfforaethol) a risgiau, a materion cymunedol perthnasol
- Sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei chyflawni
- Adrodd ar gynnydd y rhaglen waith i'r Cyngor ac eraill, fel sy'n briodol
- Cydgysylltu â Swyddogion, Aelodau eraill a chynrychiolwyr y gymuned er mwyn sicrhau adnoddau i gyflawni'r rhaglen waith
- Trefnu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer hunan-arfarnu Aelodau er mwyn sicrhau cyfleoedd i adfyfyrio a dysgu

- **Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**
  - Llunio rhaglenni ar gyfer pob cyfarfod sy'n cynnwys amcanion a chanlyniadau clir
  - Rheoli trefn cyfarfodydd, gan sicrhau fod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni ac y glynir wrth y côd ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill
  - Sicrhau fod y gwaith paratoi angenrheidiol yn cael ei wneud cyn cyfarfodydd pwyllgor
  - Sicrhau fod yr holl gyfranogwyr yn cael cyfle i wneud cyfraniad priodol

- **Arwain yn y Gymuned**
  - Gweithredu fel dolen gyswllt rhwng y Cyngor, y gymuned a chyrff allanol mewn perthynas â swyddogaeth sgriwtini
  - Meithrin dealltwriaeth a pherchnogaeth o'r swyddogaeth sgriwtini o fewn y gymuned
  - Adnabod materion cymunedol perthnasol sydd angen sylw o dan y drefn Sgriwtini gan Aelodau
  - Sicrhau bod cyfranddeiliaid allanol, er enghraifft, defnyddwyr gwasanaeth, tystion arbenigol a sefydliadau partner, yn cyfrannu'n llawn i weithgarwch sgriwtini

- **Cynnwys a datblygu aelodau'r Pwyllgor**
  - Annog yr holl aelodau pwyllgor i gyfrannu'n effeithiol yng nghyfarfodydd y pwyllgor a grwpiau tasg a gorffen
  - Asesu perfformiad unigol a thorfol yn y pwyllgor a sicrhau cyfleoedd datblygu addas
  - Hyrwyddo pwysigrwydd dysgu a datblygu

**3 Gwerthoedd**

- Ymrwymo'n llwyr i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd a ganlyn mewn swydd gyhoeddus:

  1. Anhunanoldeb
  2. Gonestrwydd
  3. Unplygrwydd ac Uniondeb
  4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith

5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Bod yn agored
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth
11. Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol

# Manyleb Person – Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini

**I gyflawni ei swyddogaeth yn unol â'r disgrifiad swyddogaeth, mae Cadeirydd Sgriwtini effeithiol angen:**

**Rhoi arweiniad a chyfeiriad**

- Dealltwriaeth o rôl a swyddogaethau'r Cyngor
- Dealltwriaeth o rôl Sgriwtini, cylch gorchwyl y Pwyllgor, swyddogaeth y cadeirydd, ac agweddau eraill o drefniadau'r Awdurdod Lleol
- Dealltwriaeth o swyddogaethau cefnogi Aelodau
- Dealltwriaeth o flaenoriaethau a risgiau'r Cyngor
- Y gallu i ddatblygu rhaglenni gwaith
- Dealltwriaeth o faterion cymunedol
- Gwrthrychedd
- Sgiliau negodi a chyrraedd at gonsensws
- Y gallu i feithrin perthynas adeiladol a pherthynas 'cyfaill beirniadol' gyda'r Pwyllgor Gwaith ac eraill sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol
- Parodrwydd i dderbyn hyfforddiant, yn ôl yr angen

**Rheoli'r rhaglen waith**

- Y gallu i reoli prosiectau ac adnoddau
- Y gallu i reoli pobl
- Y gallu i flaenoriaethu
- Y gallu i adrodd ar gynnydd i wahanol grwpiau drwy wahanol gyfryngau

**Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

- Yn deall ac yn gallu gweithredu protocolau cyfarfodydd, y côd ymddygiad, rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill
- Y gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol, rheoli'r agenda a symud y busnes yn ei flaen
- Y gallu i hwyluso trafodaethau effeithiol
- Y gallu i wrando a chwestiynu'n effeithiol
- Sgiliau rheoli amser effeithiol

**Arwain y Gymuned**

- Dealltwriaeth o swyddogaeth arwain y gymuned
- Gwybodaeth am faterion a disgwyliadau lleol
- Y gallu i weithio'n effeithiol gyda holl aelodau'r gymuned a meithrin eu dealltwriaeth a'u perchnogaeth o'r broses sgriwtini
- Gwybodaeth am unigolion a sefydliadau yn y gymuned, yn arbennig y rhai hynny sydd yn draddodiadol yn cael eu cau allan

Enw Llawn: ______________________________________________

Llofnod: ________________________________________________

Dyddiad: ________________________________________________

**Disgrifiad o Rôl Aelod Cyfetholedig ar Bwyllgor Safonau**
**Aelod Cyngor Cymuned**

**1 Atebolrwydd**

- I etholwyr Ynys Môn
- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

**2 Cyfrifoldebau statudol**

- **Yn amodol ar y cafeat * isod, deall natur y Pwyllgor Safonau a chyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol drwy:**
    - Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig;
    - Helpu'r Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig i lynu wrth y Côd Ymddygiad i Aelodau;
    - Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Côd Ymddygiad i Aelodau;
    - Monitro gweithrediad y Côd Ymddygiad i Aelodau;
    - Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad i Aelodau;
    - Ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig;
    - Rhoi sylw i unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd i'r Swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

**3 Cyfrifoldebau Ychwanegol**

- Cynnal archwiliadau rheolaidd, fel y bydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried yn briodol, o gofrestrau o ddiddordeb yr Aelodau Etholedig a'r rhai a gyfetholwyd;
- Ystyried (mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro) unrhyw faterion eraill sy'n briodol ac yn angenrheidiol er mwyn cynnal y safon uchaf o ymddygiad gan Gynghorwyr;
- Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio protocol y Cyngor ar gyfer y gydberthynas rhwng Aelodau a Swyddogion;
- Cynorthwyo'r Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig i lynu wrth Brotocol y Cyngor ar gyfer y gydberthynas rhwng Aelodau a Swyddogion;
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â phrotocol y Cyngor ar gyfer y gydberthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Protocol Datrysiad Lleol y Cyngor;
- Cynorthwyo a chefnogi'r Arweinyddion Grwpiau a'r Cadeirydd i weithredu a glynu wrth Protocol Datrysiad Lleol y Cyngor;
- Cynnal adolygiadau perfformiad Aelodau ar sail reolaidd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, a chytuno cynlluniau datblygiad personol a sicrhau y cânt eu gweithredu:

- Meddu ar wybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol sy'n ddigonol ar gyfer gwneud cyfraniad teg a chywir i swyddogaeth y Pwyllgor;
- Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol pan yn derbyn ac yn ymateb i gyngor proffesiynol  mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd a thrafod materion gerbron y Pwyllgor.

***Cafeat; ni fydd Aelodau Cyngor Cymuned ond yn cymryd rhan mewn gwrandawiadau / ceisiadau sydd gerbron y Pwyllgor Safonau pan fo'n cyflawni'r swyddogaethau hynny mewn perthynas â Chynghorau Cymuned ac Aelodau Cyngor Cymuned**

**4 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau;
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, sy'n cwrdd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi;
- Peidio â chymryd rhan mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Cyngor Cymuned yn cael sylw

**5 Llywodraethiant mewnol, safonau moesegol a chydberthnasau**

- Sicrhau uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor a'i rôl ef/hi ei hun drwy lynu wrth y Côd(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill;
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethiant da gan y Cyngor;
- Deall beth yw swyddogaethau Aelodau, Swyddogion a phartïon allanol penodol eraill sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau.

**6 Gwerthoedd**

- Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

  1. Anhunanoldeb
  2. Gonestrwydd
  3. Unplygrwydd ac Uniondeb
  4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
  5. Stiwardiaeth
  6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
  7. Cydraddoldeb a Pharch
  8. Agoredrwydd
  9. Atebolrwydd
  10. Arweinyddiaeth
  11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
  12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol

Enw llawn: ____________________________________________

Llofnod: ______________________________________________

Dyddiad: _____________________________________________

**Disgrifiad o Rôl Aelod Cyfetholedig ar Bwyllgor Safonau**
**Aelod Annibynnol**

**1 Atebolrwydd**

- I etholwyr Ynys Môn
- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

**2 Cyfrifoldebau statudol**

- **Deall natur y Pwyllgor Safonau a chyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol drwy:**
    - Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig;
    - Helpu'r Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig i lynu wrth y Côd Ymddygiad i Aelodau;
    - Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Côd Ymddygiad i Aelodau;
    - Monitro gweithrediad y Côd Ymddygiad i Aelodau;
    - Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad i Aelodau;
    - Rhoi caniatadau arbennig i Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig;
    - Rhoi sylw i unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd i'r Swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
    - Ymarfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â Chynghorau Cymuned ac Aelodau o'r Cynghorau Cymuned hynny

**3 Cyfrifoldebau Ychwanegol**

- Cynnal archwiliadau rheolaidd, fel y bydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried yn briodol, o gofrestrau o ddiddordeb yr Aelodau Etholedig a'r rhai a gyfetholwyd;
- Ystyried (mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro) unrhyw faterion eraill sy'n briodol ac yn angenrheidiol er mwyn cynnal y safon uchaf o ymddygiad gan Gynghorwyr;
- Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio protocol y Cyngor ar gyfer y gydberthynas rhwng Aelodau a Swyddogion;
- Cynorthwyo'r Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig i lynu wrth brotocol y Cyngor ar gyfer y gydberthynas rhwng Aelodau a Swyddogion;
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â phrotocol y Cyngor ar gyfer y gydberthynas rhwng Aelodau a Swyddogion
- Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Protocol Datrysiad Lleol y Cyngor;
- Cynorthwyo a chefnogi'r Arweinyddion Grwpiau a'r Cadeirydd i weithredu a glynu wrth Protocol Datrysiad Lleol y Cyngor;
- Cynnal adolygiadau perfformiad Aelodau ar sail reolaidd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, a chytuno cynlluniau datblygiad personol a sicrhau y cânt eu gweithredu:

- Meddu ar wybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol sy'n ddigonol ar gyfer gwneud cyfraniad teg a chywir i swyddogaeth y pwyllgor;
- Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol pan yn derbyn ac yn ymateb i gyngor proffesiynol mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd a thrafod materion gerbron y pwyllgor.

**4 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau;
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n cwrdd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi;

**5 Llywodraethiant mewnol, safonau moesegol a chydberthnasau**

- Sicrhau uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r pwyllgor a'i rôl ef/hi ei hun drwy lynu wrth y Côd(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill;
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethiant da gan y Cyngor;
- Deall beth yw swyddogaethau Aelodau, Swyddogion a phartïon allanol penodol eraill sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau.

**6 Gwerthoedd**

- Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

  1. Anhunanoldeb
  2. Gonestrwydd
  3. Unplygrwydd ac Uniondeb
  4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
  5. Stiwardiaeth
  6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
  7. Cydraddoldeb a Pharch
  8. Agoredrwydd
  9. Atebolrwydd
  10. Arweinyddiaeth
  11. Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
  12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol

Enw llawn:____________________________________________

Llofnod:______________________________________________

Dyddiad: _____________________________________________